

Rhif: WG38769



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Cynllun Trwyddedu Mandadol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru

Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

Dyddiad cyhoeddi: 25 Ionawr 2023
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Ebrill 2023

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ynghylch yr egwyddorion i sefydlu cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig, fel y nodir yn Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Y bwriad yw cychwyn Rhan 4 o'r Ddeddf a gweithredu'r cynllun trwyddedu hwn drwy gyflwyno setiau amrywiol o reoliadau.

Sut i ymateb

Gofynnir ichi ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy ddefnyddio'r holiadur amgaeedig. Gellir lawrlwytho'r holiadur yma:

<https://www.llyw.cymru/trwyddedu-gorfodol-ar-gyfer-triniaethau-arbennig-yng-nghymru>

Dylid cyflwyno ymatebion i:

Drwy e-bost: TriniaethauArbennig@llyw.cymru

Drwy'r post: Ymgynghoriad ar Drwyddedu Triniaethau Arbennig

Is-adran Blaenoriaethau Diogelu Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru
4^{ydd} Llawr, Y Dwyrain
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Gallwch hefyd gwblhau'r holiadur ar-lein yma:

<https://www.llyw.cymru/trwyddedu-gorfodol-ar-gyfer-triniaethau-arbennig-yng-nghymru>

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill ar gais.

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/part/4/welsh>

Mae'r ddogfen ymgynghori hon hefyd ar gael ar-lein:

<https://www.llyw.cymru/trwyddedu-gorfodol-ar-gyfer-triniaethau-arbennig-yng-nghymru>

**Manylion
Cyswilt**

Am ragor o wybodaeth:

Is-adran Blaenoriaethau Diogelu Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru
4^{ydd} Llawr y Dwyrain
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

TriniaethauArbennig@llyw.cymru

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (ee, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gadwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gadwir amdano chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- Gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Am ragor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk>

Cynnwys

	Tudalen
<u>Rhagair y Gweinidog, Llywodraeth Cymru.</u>	4
1. <u>Crynodeb</u>	6
2. <u>Ynghylch yr ymgynghoriad hwn</u>	7
Y sefyllfa bresennol a pham mae angen newid	7
Pwrpas yr ymgynghoriad hwn	8
Ar gyfer pwy y mae'r ymgynghoriad hwn?	8
Yr hyn yr hoffem ei wybod	9
Diolchiadau	9
3. <u>Cefndir deddfwriaethol: Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017</u>	9
4. <u>Cynigion</u>	11
Egwyddorion cyffredinol - Trwyddedau triniaeth arbenigol	11
Egwyddorion cyffredinol – Tystysgrifau cymeradwyo eiddo/cerbyd	12
Egwyddorion cyffredinol – Ffurflenni ar gyfer y cynllun trwyddedu mandadol	13
Y Gymraeg	14
Trefniadau ar gyfer ymarferwyr nad ydynt yn preswyllo yng Nghymru	14
5. <u>Trefniadau trosiannol</u>	15
6. <u>Ceisiadau - Trwydded triniaeth arbennig</u>	16
Yr angen am drwydded triniaeth arbennig	16
Meini prawf trwyddedu a gofynion cyn ymgeisio	16
Isafswm oedran	17
Cymhwyster Atal a Rheoli Heintiau Lefel 2 Rheoleiddiedig	17
Holiadur ar Atal a Rheoli Heintiau	18
Cymhwysedd	18
Yswiriant indemniad ar gyfer triniaeth arbennig	18
Datgan troseddau perthnasol	18
Tystiolaeth ddogfennol i'w darparu	19
Llunio'r cais	19
Y broses ymgeisio	20
Troseddau perthnasol	20
Pwyllgorau trwyddedu	22
Prosesu'r cais	22
Gwrthod cais ac apelio yn erbyn cais sydd wedi'i wrthod	23
Cymeradwyo a rhoi trwydded triniaeth arbennig	23
Amrywiadau a newidiadau i drwyddedau triniaeth arbennig	24
Adnewyddu trwyddedau triniaeth arbennig presennol	24
Gwrthod ceisiadau i amrywio neu adnewyddu trwyddedau triniaeth arbennig presennol	25
<u>Crynodeb: trwydded triniaethau arbennig</u>	26
7. <u>Esemptiadau</u>– Unigolion/proffesiynau nad oes arnynt angen Trwydded triniaeth arbennig a mangreoedd/cerbydau nad oes arnynt angen tystysgrif cymeradwyo	27
Unigolion esempt	27

Mangre eithriedig	28
Unigolion eraill esempt	28
8. Amodau trwyddedu mandadol ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig	30
9. Ystyriaethau arbennig mewn amodau trwyddedu	31
Hyfforddeion a phrentisiaid	31
Hyfforddeion ar gyrsiau rheoleiddiedig a ddarperir gan golegau addysg bellach	33
Cyrsiau heb eu rheoleiddio	33
Isafswm oedran ymarferydd	33
Oedran y cleient	34
Tatŵio pelen y llygad	35
Tatŵs a thyllu'r wyneb a'r gwddf a thatŵs a thyllau gweladwy	36
10. Diffiniad o 'wrthrych' wrth dyllu'r corff	37
11. Meini prawf cymeradwyo a'r broses ymgeisio ar gyfer tystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd	39
Gofyniad am Dystysgrif Cymeradwyo Mangre/Cerbyd Triniaethau Arbennig	39
Meini prawf cymeradwyo a gofynion cyn ymgeisio	41
Tystiolaeth ddogfennol i'w darparu	41
Y broses ymgeisio	42
Gwrthod tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd ac apelio	43
Cymeradwyo tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd triniaethau arbennig	43
Crynodeb – Tystysgrifau Cymeradwyo Mangre a Cherbyd	45
12. Amodau Mandadol ar gyfer Cymeradwyo Mangre/Cerbyd	46
Amrywio tystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd presennol	46
Adnewyddu tystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd presennol	46
13. Trwyddedau triniaeth arbennig a thystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd dros dro nad ydynt yn weithredol am fwy na saith niwrnod	47
Trwydded triniaeth arbennig dros dro	48
Tystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd dros dro	48
14. Cofrestr Gyhoeddus o drwyddedau triniaeth arbennig a thystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd	50
15. Ffioedd	51
Ffioedd ymgeisio am drwydded	52
Ffioedd cais cymeradwyo mangre/cerbyd	52
Ffioedd Adran 76	53
16. Gorfodi	54
Dirymu trwydded	54
Dirymu cymeradwyaeth	55
Hysbysiadau atal	55
Hysbysiadau camau adfer i ddeiliad trwydded	55
Hysbysiadau camau adfer ar gyfer mangre a cherbyd cymeradwy	56
Tystysgrifau cwblhau	57
Apelio yn erbyn hysbysiadau atal a hysbysiadau camau adfer	57
17. Troseddau a chosbau	57
18. Pwerau gorfodi awdurdodau lleol	58
19. Aseidiadau Effaith	59
20. Cwestiynau yr hoffem eu gofyn ichi	59
21. Beth fydd yn digwydd nesaf	60

<u>Atodiad A</u> – Rhestr dosbarthu'r ymgynghoriad	61
<u>Atodiad B</u> – Holiadur ymateb i'r ymgynghoriad	63
<u>Atodiad C</u> – Tystysgrifau mandadol ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig	69
<u>Atodiad CH</u> – Amodau mandadol ar gyfer trwyddedau a chymeradwyaeth	72
<u>CH1</u> : Amodau mandadol ar gyfer pob trwydded triniaeth arbennig	73
<u>CH2</u> : Amodau mandadol ar gyfer cymeradwyo mangreoedd a cherbydau	86
<u>Atodiad D</u> – Darpariaethau Rhan 4 ac Atodlen 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017	91

Rhagair y Gweinidog



Mae'n bleser gennyf lansio'r ymgynghoriad hwn ar y cynllun trwyddedu mandadol sydd ar ddod ar gyfer ymarferwyr aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio yng Nghymru.

Mae'r triniaethau anfeddygol esthetig neu therapiwtig hyn, sy'n golygu torri drwy'r feinwe, y croen neu'r bilen fwcaidd a mewnosod nodwyddau, gemwaith, gwrthrychau neu inc neu bigmentau parhaol/lled-barhaol, yn gallu niweidio iechyd dynol, ac fe'u diffinnir yn driniaethau arbennig o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Ceir cofnod da o effeithiau andwyol ar iechyd yn gysylltiedig â thriniaethau arbennig, ac rydym yn dal i dderbyn adroddiadau am yr effeithiau hynny. Bydd arferion hylendid gwael yn arwain at heintiau firysol a gludir yn y gwaed, y bydd rhai ohonynt yn arwain at sepsis ac adwaith alergaidd, a hynny'n aml gan na chafwyd ymgynghoriad digonol cyn rhoi'r driniaeth. Mae fframwaith rheoleiddio annigonol yn gwaethygu'r effeithiau hyn ar iechyd dynol.

Roedd yr achosion difrifol o *Pseudomonas* a gafwyd mewn siop tatws a thyllu'r corff yng Nghasnewydd yn dystiolaeth o'r bygythiad i iechyd y cyhoedd oherwydd diffygion y system bresennol. Cafodd yr achosion hynny effaith ar nifer sylweddol o bobl ifanc rhwng 13 ac 16 oed, a bu'n rhaid i rai ohonynt gael eu derbyn i'r ysbyty gyda heintiau difrifol ar ôl tyllu'r corff, lle'r oedd angen llawdriniaeth a, mewn rhai achosion, gwaith adlunio. Costiodd yr ymchwiliad i'r achosion hynny (profi 841 o gleientiaid o'r stiwdio) dros £240,000 i'r GIG. Amlygodd y digwyddiad pa mor agored i niwed yw pobl ifanc i'r arferion hyn, a hefyd effaith heintiau y gwyddys bod ganddynt ymwrthedd i wrthfotigau.

Mae'n hanfodol defnyddio arferion gwaith diogel a mesurau da i atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod cleientiaid ac ymarferwyr, y naill a'r llall, wedi'u diogelu'n ddigonol ar bob achlysur. Gwelwyd bod rheolaethau deddfwriaethol presennol, drwy gynllun cofrestru nad yw'n orfodol, yn aneffeithiol o ran sicrhau dull cyson gan bob ymarferydd yng Nghymru o weithredu arferion gwaith diogel, neu weithdrefnau atal a rheoli heintiau. Yn ogystal, canfuwyd bod mesurau gorfodi ledled Cymru yn anghyson. Mae'n gwbl glir felly fod angen fframwaith rheoleiddio sy'n cymhwyso meini prawf ac amodau trwyddedu cenedlaethol cyffredin i sicrhau dull gorfodi cyffredin ledled Cymru, ac sy'n sicrhau bod safonau da o ran hylendid a rheoli heintiau bob amser yn cael eu cynnal gan bob ymarferydd triniaethau arbennig.

Mewn ymateb i'r gydnabyddiaeth bod y system gyfredol yn annigonol, a thrwy weithredu'n llawn y pwerau sydd ar gael yn Rhan 4 y Ddeddf, byddwn yn cyflwyno cynllun trwyddedu cenedlaethol mandadol i ymarferwyr triniaethau arbennig. Drwy'r deddfwriaeth gryfach hon,

ein nod yw gwneud y triniaethau hynny'n fwy diogel i ddinasyddion sy'n ceisio gwasanaethau o'r fath, gan amddiffyn rhag niwed posibl i'w hiechyd; sicrhau cyfarwyddiadau clir a chymorth, a mesurau hefyd i ddiogelu ymarferwyr sy'n darparu gwasanaethau o'r fath; a chreu cyfundrefn drwyddedu gadarn i Gymru a fydd yn galluogi cysondeb o ran gorfodaeth ymhlith awdurdodau lleol.

Prif ddiben yr ymgynghoriad hwn, felly, yw gofyn am eich barn ynghylch y cynigion polisi ar gyfer y rheoliadau a fwriedir, a fydd yn sail i weithredu'r cynllun trwyddedu hwn yn effeithiol. Ar y cyd â chi fel rhanddeiliaid allweddol, fy nod yw llunio cynigion rheoleiddio sy'n briodol, yn gymesur, yn effeithiol, yn gadarn ac yn addas i'r diben. Dyma gyfle sylweddol i ddyfeisio a chyflwyno cynllun trwyddedu mandadol a fydd yn: diogelu ymarferwyr a dinasyddion (fel eu cwsmeriaid); cynnig fframwaith cadarn i ymarferwyr ac awdurdodau lleol weithio oddi mewn iddo; ac yn galluogi trefniadau gorfodi cyson ac effeithiol ledled Cymru. Rwy'n croesawu ac yn gwerthfawrogi eich barn yn fawr ac yn eich annog i gymryd rhan yn y broses a chyflwyno'ch safbwyntiau ynghylch y cynigion a nodir yn y ddogfen hon - edrychaf ymlaen at glywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud ar y mater hynod bwysig dan sylw.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 19 Ebrill ac ar ôl hynny byddwn yn myfyrio'n llawn ar yr adborth a dderbyniwyd gennych. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn fuan yn 2023. Drwy ystyried yr adborth byddwn yn gallu llunio ein cynigion polisi ymhellach a phenderfynu ar ymagwedd a ffafir. Byddwn yn esbonio ein hymagwedd arfaethedig drwy lunio rheoliadau drafft, a bydd y rhain yn cael eu darparu i'w hystyried gennych ac i graffu arnynt ymhellach drwy ymgynghoriad terfynol hanner ffordd drwy 2023.

**Eluned Morgan AS,
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

1 . Crynodeb

- 1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar gynigion i weithredu Rhan 4 ac Atodlen 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") sy'n nodi'r gofynion ar gyfer cynllun trwyddedu mandadol i ymarferwyr triniaethau arbennig yng Nghymru. Dyma ddiffiniad y Ddeddf o driniaethau arbennig: aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis, a thatwio. Ceir pŵer o fewn y Ddeddf i ychwanegu triniaeth arbennig at y rhestr hon o bedair, neu i ddileu un o'r triniaethau hynny. Byddwn yn cychwyn y pŵer hwn wrth weithredu Rhan 4, ond ni fyddwn yn ymgynghori ar driniaethau arbennig ychwanegol yn y cam hwn.
- 1.2 O dan y cynllun trwyddedu arfaethedig, a fydd yn cael ei weithredu gan awdurdodau lleol yng Nghymru, bydd angen i ymarferwyr triniaethau arbennig gael trwydded i roi triniaethau arbennig, onid ydynt yn esempt. Yn ogystal â hynny, bydd angen cymeradwyaeth hefyd ar gyfer mangreoedd/cerbydau lle mae'r ymarferydd trwyddedig yn gweithredu.
- 1.3 O dan y cynllun trwyddedu arfaethedig, bydd yn drosedd i unrhyw ymarferwr (onid yw'n esempt) roi triniaeth arbennig heb drwydded ac i unrhyw ymarferydd trwyddedig roi unrhyw driniaethau arbennig mewn mangre neu gerbyd nad yw wedi'i gymeradwyo.
- 1.4 Mae'r ymgynghoriad hwn yn esbonio ein cynigion yn fanwl, ac yn gofyn cwestiynau cysylltiedig. Defnyddir eich atebion chi i lywio'r broses o lunio rheoliadau sydd eu hangen i sicrhau bod modd gweithredu'r cynllun newydd yn llawn. Mae ein cynigion yn cynnwys:
- y broses ymgeisio ar gyfer y drwydded triniaethau arbennig tair blynedd a saith niwrnod (dros dro) a'r dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd, gan gynnwys
 - y meini prawf y mae angen eu bodloni i gael trwydded a thystysgrif cymeradwyo
 - y dogfennau a'r ffi y mae angen eu cyflwyno gyda'r cais
 - prosesau cymeradwyo, gwrthod ac apelio
 - eithriadau i drwyddedau triniaeth arbennig/dystysgrifau cymeradwyo cerbydau
 - yr amodau y mae'n ofynnol i ymarferwyr trwyddedig a'r sawl sy'n gyfrifol am y dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd gadw atynt hyd ddiwedd y drwydded a'r gymeradwyaeth
 - ystyriaethau arbennig ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig, gan gynnwys hyfforddeion a phrentisiaid, cyrsiau heb eu rheoleiddio, isafswm oedran ymarferwyr a chleientiaid, tatwio pelen y llygad a thatws a thyllau gweladwy
 - diffiniad o 'wrthrych' mewn perthynas â thyllu'r corff
 - y trefniadau trosiannol er mwyn symud o'r system gyfredol i'r cynllun trwyddedu arfaethedig.
- 1.5 Mae'r ddogfen hon hefyd yn amlinellu gofynion y Ddeddf mewn perthynas â'r gofrestr gyhoeddus, gorfodi, cosbau a phwerau awdurdodau lleol. Mae Asesiad Effaith Integredig ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft <https://www.llyw.cymru/trwyddedu-gorfodol-ar-gyfer-triniaethau-arbennig-yng-nghymru> sy'n nodi'r effaith reoleiddiol a ragwelir yn gysylltiedig â'r ddogfen ymgynghori hon wedi cael eu cyhoeddi ar wahân, a dylid eu darllen ochr yn ochr â'r ddogfen hon am eu bod yn rhan o ddeunyddiau'r ymgynghoriad.

- 1.6 Dylai'r Gymraeg fod mor weladwy â'r Saesneg, ac mae'r ymgynghoriad hwn yn cydnabod y bydd yr egwyddor o "gynnig gweithredol", hynny yw, darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano, yn rhan annatod o'r cynllun trwyddedu arfaethedig.
- 1.7 Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad a nodir yn y ddogfen hon, a darperir holiadur ymateb yn Atodiad B. Gellir hefyd lawrlwytho'r ffurflen neu ei chwblhau ar-lein <https://www.llyw.cymru/trwyddedu-gorfodol-ar-gyfer-triniaethau-arbennig-yng-nghymru>

2. Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

Y sefyllfa bresennol a pham mae angen newid

- 2.1 Ar hyn o bryd, os bydd rhywun yn dymuno rhoi triniaeth aciwbigo, tatwio, lliwio'r croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig neu electrolysis, mae'n ofynnol iddynt wneud cais i gofrestru gyda'u hawdurdod lleol. Nodir y gofyniad i gofrestru yn Rhan 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982"). O dan Ddeddf 1982, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru is-ddeddfau enghreifftiol mewn perthynas â rhai materion sy'n rheoli arferion hylendid da yn y mathau hyn o driniaethau. Roedd yr is-ddeddfau hyn ar gael i'w mabwysiadu gan awdurdodau lleol. Gall cyflawni trosedd o dan Ddeddf 1982 neu is-ddeddf arwain at atal neu ddileu cofrestrriad ymarferydd. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw awdurdodau lleol na rhwydweithiau rhanddeiliaid wedi adrodd am unrhyw achosion o atal neu ganslo. Realiti'r sefyllfa bresennol yw y gall unrhyw un, p'un a oes ganddynt brofiad neu a ydynt wedi derbyn hyfforddiant ai peidio, wneud cais i gofrestru fel ymarferydd triniaethau arbennig, ac mae'n ofynnol i'w hawdurdod lleol gymeradwyo hynny. Yn ogystal â hynny, lle bo'r cynllun cofrestru'n weithredol, nid yw'r awdurdodau lleol hynny wedi mabwysiadu is-ddeddfau hylendid enghreifftiol Llywodraeth Cymru. Er bod yr is-ddeddfau hyn yn gyfyngedig o ran gosod safonau cadarn i reoli ac atal heintiau, maent yn galluogi rhywfaint o orfodaeth yn gysylltiedig â glendid mangreoedd, gosodiadau, cyfarpar ac ymarferwyr. Yn anffodus, llai na hanner yr awdurdodau lleol sy'n gweithredu'r cynllun cofrestru sydd wedi mabwysiadu'r is-ddeddfau hyn
- 2.2 Mae ymarferwyr triniaethau arbennig cyfrifol, cofrestredig sy'n derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am arferion iechyd a hylendid, ac sy'n canolbwyntio ar les pennaf eu cleientiaid, mewn sefyllfa o orfod cystadlu â busnesau ac ymarferwyr sy'n is-safonol, a rhai sy'n ceisio gweithredu oddi allan i'r system gofrestru bresennol. O dan y ddeddfwriaeth gyfred, nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw bwerau i'w gwneud yn ofynnol i ymarferwyr dderbyn hyfforddiant ar weithdrefnau rheoli haint, er enghraifft. Gall awdurdodau lleol gynghori busnesau ac ymarferwyr ynghylch y safonau rheoli haint mwyaf sylfaenol, ond mae eu pwerau o dan Ddeddf 1982 yn gyfyngedig, felly nid oes rhyw lawer y gellir ei wneud i atal achosion o ddiffyg cydymffurfio.
- 2.3 Mae llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru wedi bod yn gwneud eu gorau i ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd i ddiogelu'r cyhoedd rhag

heintiau ac anafiadau'n gysylltiedig ag ymarfer gwael. Serch hynny, nid yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn rhoi rhyw lawer o bwerau iddynt atal neu roi terfyn ar ymarfer gwael.

- 2.4 Ceir tystiolaeth glir fod angen fframwaith rheoleiddio sy'n cymhwyso meini prawf trwyddedu cenedlaethol cyffredin er mwyn sicrhau dull gorfodi cyson ledled Cymru, ac sy'n sicrhau bod ymarferwyr triniaethau arbennig bob amser yn cynnal safonau hylendid a rheoli heintiau da. Gwnaed darpariaeth felly yn Rhan 4 o'r Ddeddf i sefydlu cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru, ar gyfer pedair triniaeth arbennig a gafodd eu henwi: aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio. Mae'r Ddeddf yn darparu amrywiaeth o bwerau i wneud rheoliadau. Bydd y rhain o gymorth i ddiffinio manylion fframwaith rheoleiddio newydd i Gymru gyfan ar gyfer trwyddedu'r holl ymarferwyr sy'n rhoi'r triniaethau arbennig hynny a gaiff eu henwi. Bydd y cynllun hwn hefyd yn galluogi awdurdod lleol i gymeradwyo mangre neu gerbyd penodol fel y gellir rhoi triniaeth arbennig (neu nifer o driniaethau arbennig) yno.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

- 2.5 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi ein cynigion manwl ynghylch:
- cychwyn Rhan 4 o'r Ddeddf a sut y credwn y gallai'r cynllun trwyddedu mandadol hwn i Gymru weithio; a
 - chwestiynau'n gofyn am eich adborth ar yr hyn rydym wedi'i gyflwyno yma i lywio cynnwys y rheoliadau angenrheidiol.
- 2.6 Rydym wedi nodi'r ymagwedd a gynigir ar gyfer y broses cymeradwyo trwydded ac/neu fangre/cerbyd, o ddechrau'r weithdrefn ymgeisio hyd at y modd y dylai awdurdod lleol wneud penderfyniadau ynghylch y ceisiadau a ddaw i law, a'r cyfrifoldebau a osodir ar yr unigolyn ar ôl rhoi trwydded triniaeth arbennig ac/neu gymeradwyaeth mangre/cerbyd iddo.
- 2.7 Unwaith y bydd swyddogion wedi ystyried yr holl ymatebion a ddaw i law yn llawn, ceir cyfnod pellach i ymgynghori ar y rheoliadau drafft, cyn i'r Senedd graffu arnynt.

Ar gyfer pwy y mae'r ymgynghoriad hwn?

- 2.8 Mae Adran 6 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unigolion cynrychioliadol cyn llunio rheoliadau ar gyfer y meini prawf trwyddedu a'r amodau trwyddedu mandadol a gynigir. Yn ogystal â hynny, mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ar bolisiâu neu ddeddfwriaeth newydd. Mae'r ddogfen ymgynghori hon felly'n cyflawni'r polisi hwnnw a gofyniad adran 64 o'r Ddeddf. Rydym yn annog cymaint â phosibl o'r mathau isod o bobl i ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau cynrychiolaeth mor gyflawn ag y gallwn o'r holl bartion â diddordeb.
- 2.9 Anelir yr ymgynghoriad hwn at:

- swyddogion mewn awdurdodau lleol a fydd yn gyfrifol am orfodi'r cynllun trwyddedu mandadol ac ystyried ceisiadau am drwyddedau triniaeth arbennig ac i gymeradwyo mangreoedd/cerbydau
- ymarferwyr aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio – y triniaethau arbennig a nodir yn y Ddeddf
- y cyrff sy'n eu cynrychioli
- unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r diwydiant triniaethau arbennig
- pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ymarferwyr triniaethau arbennig
- aelodau o'r cyhoedd.

Yr hyn yr hoffem ei wybod

- 2.10 Yn adran y cynigion, rydym wedi nodi elfennau cynllun trwyddedu sy'n trafod y gofynion sylfaenol o dan y Ddeddf, yn ogystal â'r elfennau a awgrymwyd drwy weithdai a thrafodaethau ag ymarferwyr presennol a swyddogion awdurdod lleol.
- 2.11 Rydym felly'n gofyn am eich barn ynghylch y cynllun a gynigir, a hoffem glywed yn arbennig eich barn ynghylch a oes angen addasu neu ychwanegu unrhyw beth at yr hyn rydym wedi'i nodi yma. Rydym am sicrhau bod y cynllun a gynigir mor gyfeillgar â defnyddwyr a chadarn ag sy'n bosibl i bob parti sy'n ymwneud â phrosesau ymgeisio a thrwyddedu/cymeradwyo, yn ogystal â sicrhau bod y cynllun yn ddigon cadarn i ddiogelu iechyd cleientiaid ac ymarferwyr.

Diolchiadau

- 2.12 Hoffem ddiolch i gyrrff cynrychioliadol, ymarferwyr unigol, Grŵp Gorchwyl a Gorffen Triniaethau Arbennig yr awdurdod lleol, grwpiau ymarferwyr triniaethau arbennig, a swyddogion iechyd yr amgylchedd awdurdod lleol, sydd wedi cynorthwyo i roi cyngor, arweiniad, tystiolaeth a beirniadaeth adeiladol drwy ddigwyddiadau, gweithdai a sylwadau unigol ers i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol yn 2017. Mae'r mewnbwn hwn wedi bod yn amhrisiadwy inni ac wedi'n galluogi i lunio'r cynigion a gyflwynir ger eich bron yn y ddogfen hon.

3. Cefndir deddfwriaethol: Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

- 3.1 Mae Rhan 4 (Triniaethau Arbennig) o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfundrefn drwyddedu fandadol yng Nghymru i unigolion sy'n dymuno rhoi 'triniaethau arbennig' a restrir yn adran 57 o'r Ddeddf. Diffinnir y pedair triniaeth arbennig yn adran 94 o'r Ddeddf fel a ganlyn:
- **Acibwigo** - gosod nodwyddau ym meinwe unigolyn at ddibenion adfer neu ddibenion therapiwtig, ond ac eithrio gosod nodwyddau mewn meinwe at ddiben chwistrellu unrhyw sylwedd. Mae'r diffiniad ar gyfer aciwbigo yn cynnwys gosod nodwyddau sych.
 - **Tyllu'r corff**– gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi (a) i emwaith, neu (b) i wrthrych o

ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn. Mae'r cyfeiriad at wneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn yn cynnwys cyfeiriad at wneud bwllch yng nghyfanrwydd y croen neu'r bilen fwcaidd mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) drwy bric neu endoriad.

- **Electrolysis**— gwaredu gwallt corff unigolyn drwy basio cerrynt trydan drwy'r gwreiddyn drwy osod nodwydd neu chwiliedydd.
- **Tatŵio**— mewnosod mewn priciau a wnaed yng nghroen, neu ym mhilen fwcaidd, unigolyn unrhyw ddeunydd sy'n lliwio a ddyluniwyd i adael marc lled-barhaol neu barhaol (gan gynnwys microbigmentiad). Mae'r diffiniad o datŵ yn cynnwys pob math o golur lled-barhaol, gan gynnwys microlafnu.

3.2 Sylwch na allwn ailedrych ar y darpariaethau a nodir yn y Ddeddf sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer sut y bydd y cynllun trwyddedu mandadol yn gweithredu ac yn cael ei orfodi. Fodd bynnag, mae pwerau ar gael yn Rhan 4 o'r Ddeddf fel bo modd gwneud gwahanol reoliadau i weithredu darpariaethau Rhan 4 yn llawn, ac i gynllun trwyddedu mandadol fod yn gwbl effeithiol, drwy ddarparu'r manylion sydd eu hangen er mwyn i'r cynllun weithredu. Ceir crynodeb o'r wahanol adrannau Rhan 4 ac Atodlen 3 o'r Ddeddf yn Atodiad D. Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn helpu i lywio'r gwaith i ddrafftio'r rheoliadau hyn. Rhagwelwn y byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus pellach maes o law ar y setiau o reoliadau drafft.

3.3 Mae gan Weinidogion Cymru bŵer ychwanegol i wneud rheoliadau o fewn y Ddeddf, nad yw wedi'i gynnwys i ddibenion y ddogfen ymgynghori hon.

- **Pŵer i ychwanegu neu ddileu triniaethau arbennig:** Mae adran 93 o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi gwneud rheoliadau i ddiwygio adran 57 o'r Ddeddf, drwy ychwanegu neu ddileu math neu ddisgrifiad o driniaeth arbennig at/o'r rhestr o bedwar yn yr adran honno, neu drwy amrywio cyfeiriad yn yr adran honno at a math neu ddisgrifiad o driniaeth. Ni cheir ond arfer y pŵer hwn os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn fod triniaeth y dylid ei hychwanegu yn driniaeth y gellir ei rhoi i ddibenion esthetig neu therapiwtig, ac y gall rhoi'r driniaeth honno achosi niwed i iechyd dynol.

3.4 Byddwn yn cychwyn y pŵer hwn wrth weithredu Rhan 4 o'r Ddeddf, ond ni fyddwn yn ymgynghori ynghylch ychwanegu unrhyw fathau neu ddisgrifiadau pellach o driniaethau arbennig ar hyn o bryd. Rydym am sefydlu'r amodau trwyddedu a'r broses ar gyfer y pedair triniaeth arbennig a nodwyd cyn ystyried a oes achos o blaid ychwanegu unrhyw driniaethau arbennig ychwanegol. Ar ôl i'r system drwyddedu gael ei sefydlu a dod yn weithredol, rydym yn ymrwmo i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall yn benodol ar y cwestiwn a ddylid arfer y pŵer neilltuol hwn i ychwanegu triniaethau arbennig ychwanegol. Drwy gychwyn y pŵer yn adran 57, gellir ychwanegu rheoliadau'n ddiweddarach.

4. Cynigion

Egwyddorion cyffredinol – Trwyddedau triniaeth arbennig

4.1 Bydd angen trwydded triniaethau arbennig os bydd rhywun yn rhoi unrhyw un o'r triniaethau arbennig canlynol i rywun arall yng nghwrs busnes yng Nghymru:

- aciwbigo
- tyllu'r corff
- electrolysis
- tatŵio.

Bydd angen ichi gael trwydded hyd yn oed os nad ydych yn byw yng Nghymru.

4.2 Gall yr awdurdod lleol ddynodi ei bod yn ofynnol i'r personau hynny sy'n rhoi triniaethau arbennig nad ydynt yn cael eu rhoi yng nghwrs busnes (hynny yw, heb roi'r triniaethau am dâl) gael trwydded (adran 61 o'r Ddeddf). Bwriedir i hyn fod yn berthnasol i bobl sy'n gweithio o'u cartrefi, sy'n ymarfer ar ffrindiau neu unigolion yn rhad ac am ddim, os yw'r awdurdod lleol yn pryderu bod y driniaeth yn achosi, neu y gallai'r driniaeth achosi risg o niwed sylweddol i iechyd dynol. Felly, hyd yn oed os nad ydych yn rhoi triniaethau arbennig yng nghwrs busnes, gallai eich awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol ichi gael trwydded.

4.3 Cynigir y bydd tri math o drwydded triniaeth arbennig ar gael, yn dibynnu ar amgylchiadau pob ymarferydd. Dyma nhw:

- **Trwydded triniaethau arbennig tair blynedd:** bydd y drwydded hon yn galluogi unigolyn a enwir (yr ymgeisydd) roi triniaeth/triniaethau arbennig penodol, yn unol â'r hyn a gadarnheir ar y drwydded. Bydd y math hwn o drwydded yn caniatáu i'r unigolyn a enwir roi'r driniaeth/triniaethau am gyfnod o 3 blynedd o ddyddiad cyhoeddi'r drwydded.
- **Trwydded triniaethau arbennig wedi'i chyfyngu i ddim mwy na saith niwrnod:** byddai'r drwydded hon yn cael ei chyhoeddi dros dro ar gyfer digwyddiadau â therfyn amser, sesiynau i westeion, confensiynau ac ati lle gallai trefnydd fod am i ymarferwyr roi triniaethau arbennig yn ystod y digwyddiad. Byddai'r drwydded dros dro hon yn cael ei rhoi i unigolyn a enwir (yr ymgeisydd) ac yn galluogi'r unigolyn hwnnw i roi triniaeth/triniaethau arbennig penodol yn y fangre ddynodedig, fel y cadarnheir ar y drwydded, am gyfnod heb fod yn hwy na saith niwrnod.
- **Trwydded triniaethau arbennig tair blynedd i hyfforddai:-** bydd hyn yn caniatáu i hyfforddeion a phrentisiaid fod wedi'u trwyddedu o dan amodau llym i roi triniaethau arbennig i eraill o dan oruchwyliaeth nes iddynt gymhwyso neu gael tystysgrif i allu rhoi'r driniaeth/triniaethau heb oruchwyliaeth.

4.4 Os yw ymarferydd triniaethau arbennig yn defnyddio neu'n berchen ar fangre neu gerbyd lle mae'n cyflawni ei waith, bydd angen tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd arno hefyd, yn ogystal â thrwydded triniaeth arbennig er mwyn gweithredu'n gyfreithlon. Os yw ymarferydd yn dal trwydded triniaethau arbennig ond ei fod yn

gyflogai, neu'n rhentu cadair/ystafell ym musnes rhywun arall, ni fydd angen iddo gael ei dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd ei hun, ond bydd yn dal yn rhaid iddo sicrhau nad yw ond yn gweithredu o fangre neu gerbyd cymeradwy. Trafodir yr amgylchiadau hyn isod yn [adran 11](#).

Egwyddorion cyffredinol – Tystysgrifau cymeradwyo eiddo/cerbyd

- 4.5 Bydd angen i fangreoedd a cherbydau y mae'r ymarferwyr triniaethau arbennig penodedig yn gweithredu ohonynt gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol perthnasol, a rhoddir tystysgrif cymeradwyo i berchennog y fangre honno/cerbyd hwnnw, neu'r sawl sydd â gofal am y fangre honno/y cerbyd hwnnw. Bydd y dystysgrif gymeradwyo yn cadarnhau'r triniaethau penodol y ceir eu rhoi yn y fangre/cerbydau hynny, neu ohonynt.
- 4.6 Cynigir y bydd dau fath o dystysgrif cymeradwyo ar gael yn gysylltiedig â mangreoedd a cherbydau. Dyma nhw:
- **Tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd tair blynedd:** bydd hyn yn ofynnol ar gyfer pob mangre/cerbyd y bydd unrhyw un o'r triniaethau arbennig penodedig a roddir gan ymarferwyr trwyddedig. Rhoddir y dystysgrif gymeradwyo i'r sawl sy'n gyfrifol am fusnes mewn mangre - gallai hyn olygu'r perchennog, y rheolwr neu ymarferydd. Bydd hyn yn berthnasol p'un a yw'r fangre yn ofod pwrpasol, yn ofod hunangynhaliol o fewn cartref, neu'n fangre busnes penodol lle rhoddir y triniaethau arbennig. Y sawl sy'n gyfrifol am y busnes fydd yr ymgeisydd am y math hwn o dystysgrif. Os yw perchennog/gweithredwr y busnes yn cyflogi ymarferwyr neu'n llogi cadeiriau i ymarferwyr, bydd yn rhaid iddo sicrhau tystysgrif cymeradwyo mangre a sicrhau bod gan unrhyw ymarferydd sy'n defnyddio'r fangre drwydded triniaeth arbennig bersonol. Mae'r dystysgrif gymeradwyo yn ei gwneud hi'n bosibl cymeradwyo cerbyd ar gyfer triniaethau arbennig, fel cerbyd lle caniateir rhoi triniaethau arbennig. Bydd y cerbyd yn cael ei drin fel pe bai'n fangre sefydlog (fel siop), er mwyn galluogi'r ymarferwyr trwyddedig hynny i gynnal gwasanaeth symudol.
 - **Tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd wedi'i chyfyngu i ddim mwy na saith niwrnod:** rhoddir y dystysgrif hon ar gyfer digwyddiadau dros dro mewn manau fel lleoliadau sy'n cynnal arddangosfeydd, digwyddiadau a chonfensiynau, lle bydd ymarferwyr triniaethau arbennig trwyddedig yn rhoi triniaethau arbennig yn ystod digwyddiad. Dylid trin y lleoliad felly fel y fangre lle rhoddir triniaethau arbennig yng nghwrs busnes, ac felly bydd yn rhaid ei gymeradwyo a derbyn tystysgrif cymeradwyo. Bydd y dystysgrif yn ddilys am gyfnod heb fod yn hwy na saith niwrnod, ac fe'i cyflwynir i drefnydd y digwyddiad, a ystyrir yn unigolyn sy'n cynnal busnes y rhoddir triniaethau arbennig yn rhan ohono. Bydd angen i'r ymarferwyr eu hunain ddal eu trwydded triniaethau arbennig eu hunain er mwyn gweithio yn y digwyddiad, naill ai tystysgrif tair blynedd, neu drwydded triniaethau arbennig â therfyn amser os, er enghraifft, maent yn ymweld â Chymru ar gyfer y digwyddiad. Gall cerbydau a strwythurau dros dro hefyd gael eu cymeradwyo ar gyfer tystysgrifau cymeradwyo â therfyn amser, er enghraifft, ar gyfer gwyliau a digwyddiadau awyr agored eraill lle mae ymarferwyr trwyddedig yn bwriadu gweithredu o'u cerbyd neu strwythur dros dro.

- 4.7 Er mwyn gweithredu'n gyfreithlon, bydd angen trwydded triniaethau arbennig ar bob ymarferfydd a thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbydau triniaeth arbennig ar bob mangre neu gerbyd lle y rhoddir triniaethau arbennig.

Egwyddorion Cyffredinol – Ffurflenni ar gyfer y cynllun trwyddedu mandadol

- 4.8 Rhan annatod o'r cynllun trwyddedu mandadol yw sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ymgeisio yn gyson o ran ffurf a chynnwys ar gyfer pob un o 22 o awdurdodau lleol Cymru.
- 4.9 Mae'r Ddeddf yn darparu rhai o'r manylion ynghylch yr hyn y mae'n i geisiadau penodol eu cynnwys o dan y cynllun. Er enghraifft, mae'n rhaid i gais am drwydded triniaethau arbennig gynnwys gwybodaeth benodol (fel y nodir ym mharagraffau 3 a 4 Atodlen 3 o'r Ddeddf). Yn ogystal, mewn perthynas â chais i adnewyddu neu amrywio trwydded, nodir yn y Ddeddf y dylid cyflwyno cais ym mha ffordd bynnag, a chynnwys pa wybodaeth bynnag, sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol.
- 4.10 Yn ogystal â hynny, mae gan Weinidogion Cymru rai pwerau i wneud rheoliadau ynghylch ffurf a chynnwys y tystysgrifau, a'r modd y cyflwynir ceisiadau.
- 4.11 **Rydym yn cynnig** gwneud rheoliadau i:
- Fandadu ffurf a chynnwys y drwydded triniaethau arbennig (paragraff 5(3) o Atodlen 3)
 - Fandadu ffurf a chynnwys y dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd (adran 71(4)).
- 4.12 Gwneir hyn er mwyn i'r tystysgrifau fod yn gyson o ran ymddangosiad a chynnwys ledled Cymru, ac fel bod ymarferwyr ac aelodau'r cyhoedd yn eu hadnabod yn rhwydd. Rydym yn cynnig y dylai'r tystysgrifau hyn fod o faint A4, ar i fyny, yn ddwyieithog, wedi'u hargraffu mewn lliw, gan gynnwys logo'r awdurdod lleol sy'n eu cyflwyno, a chynnwys yr wybodaeth a gyflwynir ar y tystysgrifau a geir yn Atodiad C y ddogfen hon.
- 4.13 **Rydym hefyd yn cynnig** gwneud rheoliadau ynghylch:
- Y dull o wneud cais am drwydded, yr wybodaeth sydd i'w darparu yn y cais am drwydded, a'r modd y bydd yr awdurdod lleol yn ymdrin â chais (paragraff 4(4)(b)) o Atodlen 3).
 - Y dull o wneud cais i gymeradwyo mangre/cerbyd ac yr ymdrinnir â'r ceisiadau hynny (adran 70(7)(a))
 - Yr wybodaeth sydd i'w darparu mewn cais am adnewyddu ac amrywio tystysgrif gymeradwyo (adran 70(7)(c) a (d))
 - Yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad terfyniad cymeradwyaeth gwirfoddol (adran 72(5)).
- 4.14 Ein bwriad yw cynnig ffurflenni enghreifftiol yn y canllawiau y byddwn yn eu llunio, a rhagwelwn y bydd pob un o'r 22 o ALLau yn mabwysiadu'r ffurflenni hyn. Ar wahân i'r drwydded a'r tystysgrifau cymeradwyo a gynigir, rydym yn bwriadu cynnwys unrhyw

ffurflenni enghreifftiol yn yr ymgynghoriad nesaf a fydd yn cynnig manylion y rheoliadau drafft.

Y Gymraeg [Mwy na geiriau \(llyw.cymru\)](http://llyw.cymru)

- 4.15 Dylai pobl Cymru allu cyrchu gwasanaethau yn Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny. Yn syml, mae Cynnig Rhagweithiol yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn am hynny. Mae'n golygu creu diwylliant lle mae'n gyfrifoldeb ar ddarparwyr gwasanaeth i gynnig iaith mewn modd rhagweithiol, fel bod pobl yn gallu cyrchu gwasanaethau, fel partneriaid cyfartal, drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.16 Wrth weinyddu'r cynllun trwyddedu mandadol a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon, disgwylir i awdurdodau lleol sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ymgeisio ar gael yn gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg, a darparu'r holl wasanaethau sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn newis iaith yr unigolyn. Caiff hyn ei gadarnhau yn y canllawiau arfaethedig a fydd yn cyd-fynd â'r rheoliadau.
- 4.17 Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r holl ganllawiau y mae'n gyfrifol amdanynt yn gysylltiedig â'r cynllun yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Trefniadau ar gyfer ymarferwyr nad ydynt yn preswyllo yng Nghymru

- 4.18 Bydd y cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn berthnasol i fangreoedd a cherbydau yng Nghymru, ac i ymarferwyr sy'n gweithio yng Nghymru am unrhyw gyfnod. Bydd yn ofynnol i unigolyn sy'n preswyllo y tu allan i Gymru ond sy'n gweithio yng Nghymru gydymffurfio â chyfraith Cymru. Gan hynny, bydd angen i ymarferwyr nad ydynt yn preswyllo yng Nghymru, ond sy'n dymuno gweithio yng Nghymru am gyfnod hwy na'r hyn a ganiateir drwy drwydded triniaethau arbennig dros dro, wneud cais am drwydded triniaethau arbennig tair blynedd, gan fodloni'r un meini prawf ag ymarferwyr sy'n preswyllo ac yn gweithredu yng Nghymru. O dan yr amgylchiadau hyn, gwneir cais i'r awdurdod lleol lle mae'r ymarferydd amhreswyl yn bwriadu gweithio, neu lle bydd yn cyflawni'r rhan fwyaf o'i waith os bydd yn gweithio mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol.
- 4.19 Mae'n rhaid i ymarferwyr sy'n ddeiliaid trwyddedau triniaeth arbennig a roddir yng Nghymru sy'n dymuno gweithio yn rhan arall o'r DU neu dramor barhau i gydymffurfio ag unrhyw ofynion lleol a allai fod yn weithredol y tu allan i Gymru.

Cwestiynau'n ymwneud â 4: Egwyddorion Cyffredinol

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i fandadu'r ffurf a chynnwys trwydded triniaethau arbennig a'r dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd o fewn y rheoliadau? A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys yn ffurf y dogfennau hyn?

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i wneud rheoliadau ynghylch darpariaeth bellach (fel y nodir ym mharagraff 4.13)?

5. Trefniadau trosiannol

- 5.1 Bydd yn dal angen i ymarferwyr y pedair triniaeth arbennig sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd o dan y gofynion presennol ar gyfer aciwbigo, electrolysis, tyllu a thatwio o dan Ddeddf 1982 wneud cais am eu trwydded triniaeth arbennig eu hunain ac, os oes angen, tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd. Ni fydd cofrestriadau presennol na 'hawliau taid/tad-cu' yn parhau i ymarferwyr triniaethau arbennig sydd wedi bod yn ymarfer ers blynyddoedd.
- 5.2 Er mwyn galluogi ymarferwyr presennol i wneud ceisiadau ac i ganiatáu i'r awdurdodau lleol brosesu'r ceisiadau a'r arolygiadau, cynigir y ceir cyfnod trosiannol o naw mis o'r adeg pan ddaw'r cynllun trwyddedu mandadol newydd i rym. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Deddf 1982 yn parhau mewn grym gan alluogi ymarferwyr presennol i barhau i ymarfer tra bônt yn cyflwyno eu ceisiadau. Ni chaniateir i ymgeiswyr newydd gofrestru o dan Ddeddf 1982 wedi i Ran 4 o'r Ddeddf ddod i rym, felly bydd angen i ymarferwyr newydd ymgeisio am drwydded o dan y cynllun newydd.
- 5.3 Ni fydd unrhyw un sydd heb gael trwydded a, lle bo'n berthnasol, tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd erbyn diwedd y cyfnod trosiannol yn cael ymarfer yn gyfreithlon. Ni cheir unrhyw eithriadau i'r gofyniad hwn i sicrhau trwydded/tystysgrif, nac unrhyw estyniad amser i'r cyfnod trosiannol hwn.

Cwestiwn yn ymwneud â 5: Trefniadau trosiannol

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno bod naw mis yn gyfnod trosiannol digonol? Os ddim, pa hyd fyddai'n briodol?

6. Ceisiadau - Trwydded triniaethau arbennig

Yr angen am drwydded triniaethau arbennig

6.1 Bydd angen trwydded triniaethau arbennig ar rywun os ydynt yn rhoi triniaeth aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis neu datw i unrhyw unigolyn arall yng Nghymru (hyd yn oed os nad yw hynny ond yn achlysurol), os:

- nad ydynt yn esempt (gweler [adran 7](#) ar esemptiadau);
- ydynt yn rhoi'r triniaethau yng nghwrs busnes
- ydynt wedi'u dynodi gan yr awdurdod lleol o dan Adran 61 fel personau sydd angen trwydded. Mae hyn yn berthnasol i bersonau sy'n rhoi triniaethau arbennig nad ydynt yn gwneud hynny yng nghwrs busnes
- ydynt yn brentisiaid neu'n hyfforddeion sy'n cael hyfforddiant 'yn y gwaith' - bryd hynny bydd angen iddynt ymgeisio am drwydded hyfforddai

Bydd yn dal angen i ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd o dan y gofynion presennol ar gyfer aciwbigo, electrolysis, tyllu a thatwio o dan Ddeddf 1982, ymgeisio am eu trwydded triniaethau arbennig eu hunain. **Ni fydd cofrestriadau presennol na 'hawliau taid/tad-cu' yn parhau i ymarferwyr triniaethau arbennig sydd wedi bod yn ymarfer ers blynyddoedd.**

6.2 Bydd angen i berson wneud cais i'r awdurdod lleol lle mae'n cynnal ei weithgarwch triniaethau arbennig. Os yw'n ymarfer mewn mwy nag un awdurdod lleol, dylai wneud cais i'r awdurdod lleol lle mae'n cynnal y rhan fwyaf o'i driniaethau arbennig.

6.3 Bydd angen i ymarferwyr sy'n byw y tu allan i Gymru ond sy'n bwriadu gweithio yng Nghymru wneud cais i awdurdod lleol Cymreig yr ardal y byddant yn gwneud y rhan fwyaf o'u gwaith ynddi. Ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno cais i fwy nag un awdurdod lleol yng Nghymru.

6.4 Pan roddir y drwydded triniaethau arbennig, bydd yn ddilys i Gymru gyfan ac yn parhau i fod yn gyfredol am dair blynedd, ac ar ôl hynny bydd yn rhaid i'r unigolyn wneud cais i'w hadnewyddu. Os gwneir cais am drwydded triniaethau arbennig saith niwrnod dros dro, bydd y drwydded honno wedi'i chyfyngu i ddigwyddiad ac/neu gyfnod penodol o amser. Yn achos trwyddedau â chyfyngiad amser, bydd yn rhaid gwneud cais newydd am bob digwyddiad ar wahân.

Meini prawf trwyddedu a gofynion cyn ymgeisio

6.5 Y **meini prawf trwyddedu** yw'r pethau y bydd angen i berson eu bodloni cyn y gall ymgeisio am drwydded triniaethau arbennig.

6.6 **Rydym yn cynnig** y dylai pob ymgeisydd fodloni'r meini prawf trwyddedu canlynol cyn y gellir gwneud cais am drwydded triniaethau arbennig:

- **Bod yr ymgeisydd yn 18 oed neu'n hŷn**
- **Ei f/bod wedi llwyddo i ennill cymhwyster Atal a Rheoli Haint Lefel 2 rheoleiddiedig ar gyfer triniaethau arbennig**

- **Ei f/bod wedi llenwi holiadur atal a rheoli haint**
- **Meddu ar lefel foddhaol o gymhwysedd sy'n briodol i roi'r driniaeth arbennig.**
- **Yn meddu ar yswiriant indemniad triniaeth arbennig**
- **Ei f/bod yn gwneud datganiad ynghylch troseddau perthnasol**
- **Ffi Ymgeisio**

Isafswm oedran

6.7 **Rydym yn cynnig** mai'r isafswm oedran i fod yn gymwys i dderbyn trwydded triniaeth arbennig fydd 18 oed. O ymgysylltu ar draws diwydiannau pob un o'r pedair triniaeth arbennig awgrymwyd y dylid pennu'r oedran hwnnw fel yr isafswm oedran i unrhyw un allu cael trwydded. (Gweler [atodiad 9](#) lle trafodir yr isafswm oedran ymhellach).

Cymhwyster Atal a Rheoli Heintiau Lefel 2 Rheoleiddiedig

6.8 Cymhwyster Lefel 2 rheoleiddiedig ar atal a rheoli heintiau lle mae'n rhaid i ymarferwyr triniaethau arbennig:

- Ddeall peryglon heintiau a pheryglon eraill sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig a
- deall sut y gellir rheoli risgiau peryglon heintiau a pheryglon eraill sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig.

6.9 Dylai'r cymhwyster rheoleiddiedig hwn felly gynnwys:

- Rôl micro-organebau mewn haint.
- Peryglon cyffredin nad ydynt yn ymwneud â heintiau a gysylltir â thriniaethau arbennig.
- Sut y gall ymateb y croen i anaf achosi risg i'r unigolyn.
- Ffynonellau peryglon heintiau a pheryglon eraill a'r gadwyn heintiau yn gysylltiedig â thriniaethau arbennig.
- Y gofynion cyfreithiol ar gyfer ymarferwyr triniaethau arbennig a pherchnogion busnes.
- Sut mae'r croen yn amddiffyn rhag haint.
- Arferion a gweithdrefnau diogelu ar gyfer triniaethau arbennig, gan gynnwys ymgynghori â'r cleient ac ôl-ofal; hylendid dwylo; rheoli amgylchedd triniaethau arbennig; rheoli offer a chynnyrch triniaethau arbennig; glanhau; diheintio a sterileiddio; cyfarpar diogelu personol; rheoli hylifau'r corff; casglu a gwaredu gwastraff; rheoli cysylltiad galwedigaethol.

6.10 Er mwyn llwyddo i ennill y cymhwyster hwn, bydd yn rhaid i ymarferwyr triniaethau arbennig ddangos eu gwybodaeth drwy basio asesiad a fydd yn cadarnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ffeithiau, gweithdrefnau a syniadau ynghylch sut i atal a rheoli heintiau sy'n berthnasol i'w swydd, i'w galluogi i gwblhau tasgau wedi'u diffinio'n dda ac ymdrin â phroblemau syml. Gellir cyrsiau fod wedi'u cynnal yn

Gymraeg ac yn Saesneg ledled Cymru. Gall awdurdodau lleol gynghori ynghylch y cyrsiau perthnasol sydd ar gael yn eu hardal.

- 6.11 Cymhwyster Lefel 2 priodol a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru sydd ar gael ar hyn o bryd:

[RSPH | Dyfarniad Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau i Ymarferwyr Triniaethau Arbennig](#)

[Gweld cymhwyster \(qiw.cymru\)](#)

Holiadur ar atal a rheoli heintiau

- 6.12 **Rydym yn cynnig** y dylai fod yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno holiadur atal a rheoli heintiau gyda'u cais. Bydd y ffurflen hon yn gofyn i'r ymgeisydd amlinellu'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a chymorth cyntaf y maent wedi'u sefydlu yn rhan o'u hymarfer, neu os nad ydynt yn gweithredu eu busnes eto, y gweithdrefnau y maent yn bwriadu eu rhoi ar waith. Pwrpas y ffurflen yw dangos bod yr ymgeisydd wedi cymhwyso'r wybodaeth a gafodd o'r cymhwyster Lefel 2 i'w arferion presennol.

Cymhwysedd

- 6.13 **Rydym yn cynnig** y dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cymhwyso yn y driniaeth/triniaethau arbennig y maent yn dymuno cael trwydded i'w rhoi. Bydd agweddau ar y dystiolaeth hon yn amrywio yn ôl y driniaeth arbennig dan sylw, ac a oes cymwysterau rheoleiddiedig ffurfiol ar ei chyfer, ee, electrolysis neu a ddilynir llwybr anffurfiol i gymhwyso, ee, tatwio. Fodd bynnag, mae peth o'r dystiolaeth yn gyffredin i bob triniaeth, er enghraifft cadw cofnodion o unrhyw gyrsiau neu gonfensiynau yr aeth yr ymgeisydd iddynt, a sefydlu gweithdrefnau priodol ar gyfer rhoi'r driniaeth.

Yswiriant indemniad ar gyfer triniaeth arbennig

- 6.14 **Rydym yn cynnig** y dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o yswiriant cyfredol sy'n cynnwys triniaethau, fel yswiriant indemniad triniaethau neu bolisi tebyg.

Datgan troseddau perthnasol

- 6.15 **Rydym yn cynnig** y dylai ymgeiswyr roi datganiad o unrhyw droseddau perthnasol a allai effeithio ar eu cais am drwydded, a sicrhau tystysgrif gwiriad DBS sylfaenol. Trafodir yr hyn a ystyrir yn 'drosedd berthnasol' o dan y Ddeddf ym mharagraff 6.21.

Tystiolaeth ddogfennol i'w darparu

- 6.16 Mae'n rhaid i bawb sy'n ymgeisio am drwydded triniaeth arbennig ddarparu tystiolaeth ddogfennol ddilys o'r canlynol (hy, dogfen wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar gan y darparydd perthnasol, neu o fewn y dyddiad terfyn) neu ni phrosesir eu cais.
- Prawf o enw a dyddiad geni. Bydd unrhyw un o'r dogfennau canlynol gan yr unigolyn yn brawf derbyniol: pasbort, trwydded yrru neu ddull adnabod arall priodol gyda llun)
 - Prawf o'r cyfeiriad preswyl cyfredol - gellid defnyddio'r un ddogfen ag uchod, neu ddefnyddio dogfen fel bil cyfleustodau neu gyfriflen y dreth gyngor
 - Un llun pasbort wyneb llawn
 - Copi wedi'i sganio o dystysgrif sy'n dangos bod yr ymgeisydd wedi llwyddo i ennill cymhwyster atal a rheoli heintiau i ymarferwyr triniaethau arbennig.
 - Holiadur atal a rheoli heintiau (IPC) wedi'i gwblhau. Mae'r ffurflen hon yn cynnwys ychydig o gwestiynau sy'n gofyn am wybodaeth ynghylch yr arferion atal a rheoli haint a chymorth cyntaf a ddefnyddir gan yr ymarferydd triniaethau arbennig sy'n gwneud cais am y drwydded.
 - Tystiolaeth o gymhwysedd i roi'r driniaeth/triniaethau arbennig y gwneir cais am drwydded ar ei chyfer/eu cyfer.
 - Prawf o yswiriant sy'n cynnwys triniaethau, fel yswiriant indemnïad triniaethau neu bolisi tebyg
 - Tystysgrif DBS sylfaenol neu (yn achos pobl o'r tu allan i'r DU nad ydynt yn gymwys i dderbyn gwiriad DBS) 'tystysgrif o gymeriad da' wedi'i chyhoeddi yn y wlad y buont yn gweithredu ynddi'n flaenorol. Ni ddylai'r tystysgrifau hyn fod yn hŷn na 28 diwrnod cyn dyddiad y cais

Llunio'r cais

- 6.17 Bydd yr ymgeisydd yn cael y ffurflen gais am drwydded triniaethau arbennig gan yr awdurdod lleol yng Nghymru y mae'n cynnal y rhan fwyaf o'i weithgarwch triniaethau arbennig ynddo. **Ni fydd** yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno cais i fwy nag un awdurdod lleol yng Nghymru, ac os rhoddir trwydded, bydd y drwydded triniaethau arbennig honno'n ddilys yn holl ardaloedd awdurdod lleol Cymru. Bydd ymgeiswyr yn gallu gwneud cais naill ai yn Gymraeg neu Saesneg gan y bydd yr holl ddeunyddiau ymgeisio ar gael yn y ddwy iaith, ac ymdrinnir â'u cais yn eu dewis iaith.
- 6.18 Amlinellir ein cynnig ynghylch cynnwys, fformat a darpariaeth ffurflenni cais, a'r modd y cyflwynir ceisiadau ym mharagraff 4.14. Rydym yn bwriadu cynnwys ffurflenni cais enghreifftiol yn yr ymgynghoriad nesaf sy'n cynnig manylion y rheoliadau drafft.

6.19 Bydd yn rhaid i ymgeiswyr lenwi pob rhan o'r ffurflen gais yn unol â'r cyfarwyddiadau, a darparu'r holl dystiolaeth ddogfennol y gofynnir amdani, neu ni fydd eu cais yn cael ei brosesu, ac ni fydd unrhyw ffioedd a delir wrth gyflwyno'r ffurflen gais ond yn cael eu had-dalu os bydd yr awdurdod lleol yn dewis gwneud hynny. Dylai ymgeiswyr ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau ychwanegol y mae'r awdurdod lleol yn eu rhoi iddynt.

Y broses ymgeisio

6.20 Ar ôl derbyn pob ffurflen gais am drwydded triniaethau arbennig, y dogfennau gofynnol a'r ffi briodol, bydd yr awdurdod lleol yn edrych ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd ac yn penderfynu a all y cais symud ymlaen i'r cam nesaf. Os yw'r ffurflen gais wedi'i llenwi yn Gymraeg, caiff ei phrosesu yn Gymraeg. Gall awdurdodau lleol ofyn am ragor o wybodaeth, yn ychwanegol at yr hyn a ddarparwyd eisoes gan yr ymgeisydd, os ydynt o'r farn fod yr wybodaeth yn anghyflawn, neu fod angen egluro unrhyw agwedd. I ddechrau, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried a oes unrhyw 'droseddau perthnasol' wedi'u datgan ar y ffurflen gais neu ar y dystysgrif DBS.

Troseddau Perthnasol

6.21 Mae 'troseddau perthnasol' wedi'u nodi yn y Ddeddf fel unrhyw drosedd:

- o dan Rannau 4 (triniaethau arbennig) a 5 (tyllu rhannau personol o'r corff) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017
- sy'n ymwneud â thrais
- sydd o natur rywiol, neu sy'n ymwneud â deunydd neu ddelweddau rhywiol
- sy'n cynnwys tatwio plentyn o dan 18 oed
- sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith
- sy'n cynnwys methiant i gydymffurfio â gofyniad mewn cynllun i drwyddedu neu ganiatáu neu reoleiddio, drwy ryw ffordd arall, gweithgarwch sy'n driniaeth arbennig i ddibenion y Ddeddf hon.

6.22 Os yw unigolyn wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol fel y rhestrir uchod, **nid yw'n** ofynnol i'r awdurdod lleol roi trwydded triniaethau arbennig yn awtomatig, hyd yn oed os yw holl ofynion eraill y cais yn foddhaol. Mae'n rhaid i'r ALI benderfynu a oes amheuaeth ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd i roi triniaeth y mae'r cais yn berthnasol iddi, i'r graddau y byddai'n amhriodol rhoi trwydded ar gyfer hynny.

6.23 Wrth benderfynu a oes amheuaeth ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd, bydd yn rhaid i'r ALI roi sylw i'r canllawiau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu llunio ar gyfer awdurdodau lleol. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru roi canllawiau ynghylch materion sydd i'w hystyried, wrth benderfynu a oes amheuaeth, ynghylch addasrwydd ymgeisydd i roi triniaeth arbennig, ac os felly, i ba raddau (adran 66(11)).

6.24 O dan adran 66(9), os yw trosedd berthnasol wedi'i disbyddu i ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwyd 1974, dylai'r ALI ddiystyru'r drosedd honno werth benderfynu a ddylid rhoi trwydded ai peidio.

- 6.25 Gall rhai euogfarnau gael eu 'disbyddu' dros amser. Hynny yw, ni fyddant yn ymddangos mewn gwiriadau cofnodion troseddol penodol a gynhelir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (hy, gwiriad DBS). Mae'r penderfyniad ynghylch a yw trosedd berthnasol wedi'i disbyddu yn dibynnu i raddau helaeth ar y materion canlynol:
- Natur y drosedd
 - Oedran yr unigolyn
 - Y math o gosb a roddwyd, pryd y'i rhoddwyd, a hyd y gosb honno.
- 6.26 Mae'r ddolen ganlynol o gymorth i roi gwybodaeth bellach i unigolion am y mater hwn - [Deddf Adsefydlu Troseddwyd 1974 – Datgloi](#). Mae ymgeisydd yn gyfrifol am geisio cyngor annibynnol ynghylch a yw ei drosedd wedi'i 'disbyddu' ai peidio i ddibenion Rhan 4.
- 6.27 Os nad yw euogfarn am drosedd berthnasol wedi'i dosbarthu'n drosedd wedi'i disbyddu, bydd yn rhaid i'r ALI ystyried addasrwydd r ymgeisydd i roi'r driniaeth, gan roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Os bydd unigolyn wedi'i gael yn euog o drosedd berthnasol, ac yr ystyrir bod y drosedd honno wedi'i 'disbyddu', ni ddylid gwirio'r canllawiau.
- 6.28 Os nodir troseddau perthnasol, gall yr awdurdod lleol ofyn i'r ymgeisydd am ragor o wybodaeth os oes angen hynny i ddod i benderfyniad. Os bydd yr awdurdod lleol yn bwriadu gwrthod cais am drwydded, mae'n ofynnol iddo anfon hysbysiad at yr ymgeisydd i'w rybuddio ynghylch hynny. Bydd hynny'n galluogi'r ymgeisydd i gyflwyno sylwadau i bwyllgor trwyddedu'r awdurdod lleol. Bydd y pwyllgor trwyddedu wedyn yn ystyried y cais ac unrhyw sylwadau a gafwyd gan yr ymgeisydd, ac yn dod i benderfyniad. Os bydd y pwyllgor trwyddedu'n penderfynu y gellir rhoi trwydded, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod hynny, a'r cais yn cael ei brosesu yn yr un modd ag unrhyw gais arall.
- 6.29 Os bydd y pwyllgor trwyddedu yn penderfynu bod amheuaeth ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd, ni cheir rhoi'r drwydded, a bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am hynny a'r hyn y gall ei wneud nesaf. Trafodir hyn yn yr adran nesaf am geisiadau a wrthodir.
- 6.30 Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i ychwanegu, amrywio neu ddileu'r disgrifiadau o'r troseddau a roddir uchod. Mae hyn yn golygu y gellir ychwanegu troseddau pellach a fydd yn 'berthnasol' pan fydd awdurdodau lleol yn penderfynu ynghylch ceisiadau, neu y gellir amrywio neu ddileu'r troseddau sydd wedi'u rhestru.
- 6.31 Diben rhestru'r troseddau perthnasol yw diogelu cleientiaid pan fyddant yn derbyn triniaethau arbennig, yn hytrach na chynorthwyo swyddogion gorfodi fel y cyfryw. Gan hynny, os caiff unrhyw droseddau eu hychwanegu at y rhestr, dylent fod o natur mor ddifrifol fel bod risg o niwed sylweddol yn debygol i'r cleient pe bai'r ymarferydd hwnnw'n cael trwydded, ac nad ydynt oddi mewn i'r categorïau o droseddau perthnasol a ddarparwyd eisoes o dan y Ddeddf.
- 6.32 **Rydym yn cynnig** cychwyn y pŵer i wneud rheoliadau i ychwanegu, amrywio neu ddileu'r disgrifiad o drosedd berthnasol, ond nid ydym yn cynnig gwneud unrhyw ddiwygiadau ar hyn o bryd. Gan fod y troseddau perthnasol sydd eisoes ar glawr y

Ddeddf wedi'u hystyried yn llawn yn ystod proses y Bil, ystyriwn fod y rheiny'n ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd ar hyn o bryd.

- 6.33 Fel y cyfeirir uchod, mae adran 66(11) o'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol ar faterion sydd i'w hystyried wrth benderfynu a oes amheuaeth ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd i roi triniaeth arbennig ai peidio, ac i ba raddau. Nid ydym yn cynnig cynnwys unrhyw drafodaeth am gynnwys y canllawiau statudol hyn, na gofyn unrhyw gwestiynau yn eu cylch, yn yr ymgynghoriad hwn. Byddai'n well gennym elwa ar ymatebion i gwestiwn 7 ynghylch troseddau perthnasol uchod, yn sail ar gyfer materion y mae angen eu cynnwys. Bydd y canllawiau statudol hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar wahân maes o law.

Pwyllgorau trwyddedu

- 6.34 O dan y Ddeddf, mae swyddogaethau penodol yr awdurdod lleol wedi'u dirprwyo i'w bwyllgor trwyddedu. Mae hyn yn caniatáu i'r pwyllgor trwyddedu glywed sylwadau a gwneud penderfyniadau ynghylch y canlynol:
- Y bwriad i wrthod cais am drwydded, hy, os nad yw'r awdurdod lleol yn fodlon bod yr holl feini prawf trwyddedu wedi'u bodloni
 - Y bwriad i wrthod cais am drwydded, hy, pan fo troseddau perthnasol wedi'u hystyried ac nad yw'r awdurdod lleol yn fodlon y byddai'n briodol rhoi'r drwydded honno
 - Y bwriad i wrthod adnewyddu trwydded
 - Y bwriad i wrthod amrywio trwydded
 - Y bwriad i ddirymu trwydded
 - Y bwriad i ddynodi unigolyn y mae angen iddo gael trwydded.
- 6.35 Er mai swyddogaethau'r awdurdod lleol yw'r swyddogaethau hyn o hyd, bydd y pwyllgor trwyddedu (neu un o'i is-bwyllgorau) yn cynnig lefel o oruchwyliaeth dros y penderfyniadau hyn. Bydd gan aelodau'r pwyllgor brofiad o wneud penderfyniadau trwyddedu a allai effeithio ar fywoliaeth pobl, a bydd proses sefydledig ar waith i wrando ar achosion a phrosesu penderfyniadau. Yn ogystal, er mwyn galluogi'r pwyllgor trwyddedu i benderfynu ynghylch meysydd penodol, bydd y swyddogaethau hyn hefyd yn galluogi'r pwyllgor trwyddedu i gyfeirio penderfyniadau penodedig yn ôl i'r awdurdod lleol ac i is-ddirprwyo penderfyniadau.
- 6.36 O dan baragraff 21 o Atodlen 3 y Ddeddf caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y gweithdrefnau sy'n berthnasol i bwyllgorau trwyddedu a'u his-bwyllgorau, er mwyn iddynt allu cyflawni eu swyddogaethau dirprwyedig, gan gynnwys mynediad i'r cyhoedd ac argaeledd cofnodion. **Rydym yn cynnig** ymgynghori ar fanylion hyn yn yr ymgynghoriad nesaf a fydd yn trafod manylion y rheoliadau'n benodol.

Prosesu'r cais

- 6.37 Ym mhob achos, gall yr awdurdod lleol ofyn am ddogfennau ychwanegol neu am gael sgwrs â'r ymgeisydd i drafod manylion ei gais. Gall hyn gynnwys trafodaeth am yr arferion a'r gweithdrefnau y mae wedi'u hamlinellu yn yr holiadur atal a rheoli heintiau

ac am wybodaeth cymorth cyntaf mewn perthynas â thriniaethau arbennig neu eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf.

- 6.38 Ar ôl i'r awdurdod lleol adolygu dogfennau'r cais a gwneud unrhyw ymholiadau ychwanegol a allai fod yn briodol, hysbysir yr ymgeisydd naill ai fod ei gais am drwydded wedi'i gymeradwyo neu fod yr awdurdod lleol yn bwriadu gwrthod y cais. Os bydd hyn yn digwydd, dilynir y broses ganlynol:

Gwrthod cais ac apelio yn erbyn cais sydd wedi'i wrthod

- 6.39 Gall yr awdurdod lleol wrthod unrhyw gais os yw o'r farn nad yw gofynion y cais wedi'u bodloni. Os nad yw'r meini prawf trwyddedu wedi'u bodloni (ee, os yw'r dystiolaeth ddogfennol a geisiwyd yn anghyflawn neu ar goll), ni chaiff y cais ei brosesu. Os yw'r awdurdod lleol yn bwriadu peidio cymeradwyo'r cais, ar ôl ystyried y cais a'r dystiolaeth ddogfennol, anfonir hysbysiad rhybuddio at yr ymgeisydd. Bydd y rhesymau dros ei fwriad i wrthod y cais wedi'u nodi ar yr hysbysiad hwnnw, a dywedir wrth yr ymgeisydd y caiff gyflwyno sylwadau i'r pwyllgor trwyddedu. Mae hyn yn golygu y bydd yr ymgeisydd yn cael mynd gerbron y pwyllgor trwyddedu i gyflwyno ei achos o blaid cymeradwyo ei gais.
- 6.40 Os bydd cais yn cael ei gyfeirio i'w benderfynu gan y pwyllgor trwyddedu, a'r pwyllgor trwyddedu'n penderfynu na ddylid caniatáu i'r cais fyd rhagddo, ac y dylid ei wrthod, bydd gan yr ymgeisydd hawl i apelio i lys ynadon, ac i Lys y Goron (os oes angen). Ym mhob achos, os caniateir yr apêl, bydd y cais yn cael ei asesu i'w gymeradwyo, ar yr amod bod pob rhan arall o'r cais mewn trefn. Os bydd y llysoedd yn cadarnhau penderfyniad y pwyllgor trwyddedu, gwrthodir y cais.

Cymeradwyo a rhoi trwydded triniaeth arbennig

- 6.41 Pan fydd yr ymgeisydd wedi cwblhau pob cam o'r broses ymgeisio yn llwyddiannus, bydd yr awdurdod lleol yn ei hysbysu bod ei gais wedi'i gymeradwyo a'i drwydded wedi'i chaniatáu. Bydd hyn yn cynnwys gosod amodau trwyddedu mandadol sy'n ymwneud yn benodol â'r ymarferydd triniaethau arbennig a'r triniaethau arbennig y mae wedi'i drwyddedu i'w rhoi, yn ogystal ag amodau trwyddedu cyffredinol a fydd yn berthnasol i bob math o drwydded triniaethau arbennig. Trafodir amodau trwyddedu mandadol yn adrannau priodol y ddogfen hon, yn [Adran 8](#) ac [Atodiad Ch](#).
- 6.42 Bydd y drwydded triniaethau arbennig yn ddilys am dair blynedd (oni wnaed cais am drwydded triniaethau arbennig saith niwrnod dros dro). Bydd dyddiad cyhoeddi a dod i ben y drwydded, rhif adnabod unigryw'r drwydded, enw deiliad y drwydded (yr ymarferydd triniaethau arbennig), manylion y fangre neu'r cerbyd cymeradwy, a manylion y triniaethau arbennig y mae gan yr ymarferydd drwydded i'w rhoi, wedi'u cyhoeddi ar gofrestr gyhoeddus ganolog Cymru o ymarferwyr triniaethau arbennig a mangreodd/cerbydau cymeradwy. Rydym yn cynnig y dylai'r gofrestr hon gynnwys Cymru gyfan, ac y dylai fod ar gael i aelodau o'r cyhoedd gyfeirio ati. Ceir manylion pellach am y gofrestr a gynigir yn [adran 14](#).

- 6.43 Rhan o'r Ddeddf yw na chaiff ymarferydd ond gweithredu o fangre/gerbyd y ceir tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd ar ei chyfer/gyfer, ac yn rhan o'r amodau trwyddedu mandadol bydd yn rhaid arddangos y drwydded triniaethau arbennig mewn lle amlwg. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i agweddau ymarferol arddangos trwyddedau os bydd ymarferydd yn gweithio mewn mwy nag un fangre, os nad yw'n gweithio mewn mangre neilltuol, neu os yw'n mynd i ddigwyddiadau, a rhagwelwn y byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar hyn i ymarferwyr a swyddogion gorfodi.

Amrywiadau a newidiadau i drwyddedau triniaeth arbennig

- 6.44 Cydnabyddir y gallai ymarferwyr triniaethau arbennig ddymuno amrywio neu newid manylion eu trwydded triniaethau arbennig tra bo'r drwydded honno'n dal i fod yn gyfredol. Gall hyn fod er mwyn ychwanegu, diwygio neu ddileu triniaeth arbennig neu fangre gymeradwy lle maent yn bwriadu rhoi triniaethau arbennig. Rhagwelir y gwneir y newidiadau hyn drwy lenwi ffurflen amrywio, a'i chyflwyno i'r awdurdod lleol a gymeradwyodd eu trwydded yn wreiddiol. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r awdurdod lleol godi ffi am y cais hwn.
- 6.45 Mae angen yr amrywiadau hyn gan mai diben y Ddeddf yw darparu cynllun trwyddedu sy'n dryloyw, ac sy'n cefnogi natur symudol y diwydiant hwn, ac yn galluogi ymchwiliad effeithlon i ddigwyddiadau a all achosi niwed i iechyd dynol.
- 6.46 Os bydd ymarferydd triniaethau arbennig yn dymuno terfynu ei drwydded tra bo'r drwydded yn dal yn gyfredol, beth bynnag fo'r rheswm am hynny, gall hysbysu'r awdurdod lleol a'i rhoddodd ynghylch ei fwriad. Bydd yn rhaid iddo hefyd ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau eraill a roddir gan yr awdurdod lleol, i roi'r gorau i ymarfer ac i ildio'i drwydded.
- 6.47 Os bydd ymarferydd triniaethau arbennig wedi terfynu ei drwydded yn dymuno ailgydio yn ei waith yn y dyfodol, bydd yn rhaid iddo gyflwyno cais newydd bryd hynny.

Adnewyddu trwyddedau triniaeth arbennig presennol

- 6.48 Bydd angen i ymarferwyr trwyddedig wneud cais bob tair blynedd i adnewyddu eu trwyddedau triniaeth arbennig. Dylid cyflwyno'r ffurflen gais heb fod yn hwyrach na 28 diwrnod calendr cyn y dyddiad terfyn ar eu trwydded.
- 6.49 Os na chafwyd unrhyw newidiadau i'r manylion a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd y tro diwethaf iddo ymgeisio am drwydded, ni fydd ond angen iddo lenwi'r ffurflen gais adnewyddu, sy'n cynnwys datganiad nad oes unrhyw fanylion wedi newid.
- 6.50 Os bu newidiadau ers y tro diwethaf i'r drwydded gael ei rhoi neu ei hadnewyddu, bydd yn rhaid i'r ymgeisydd lenwi ffurflen adnewyddu cais, gan wneud y datganiad priodol ar y ffurflen honno, ynghyd â ffurflen amrywio, sy'n amlinellu'r newidiadau.
- 6.51 Codir ffi ymgeisio am bob cais i adnewyddu trwydded. Pan geir newidiadau sy'n cynnwys ychwanegu triniaethau arbennig at y drwydded triniaethau arbennig, neu amrywiadau i'r trefniadau gwaith (ee, gweithio o sawl mangre/cerbyd gwahanol yn

hytrach nag o un fangre/cerbyd cymeradwy), bydd y rheiny'n mynd drwy'r un broses o gael eu hystyried gan yr awdurdod lleol â chais cyntaf am drwydded triniaethau arbennig. Gwneir hyn i sicrhau bod yr ymarferydd wedi derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf, ac yn cynnal y gweithdrefnau diweddaraf er mwyn rheoli haint.

Gwrthod ceisiadau i amrywio neu adnewyddu trwyddedau triniaeth arbennig presennol

- 6.52 Bydd yr un broses yn berthnasol â'r broses ar gyfer ceisiadau newydd. Os yw awdurdod lleol o'r farn y dylid gwrthod cais i amrywio neu adnewyddu trwydded triniaeth arbennig bresennol, bydd hysbysiad rhybuddio yn cael ei anfon at yr ymgeisydd yn egluro'r rhesymau pam. Bydd gan yr ymgeisydd yr hawl i gyflwyno sylwadau i'r pwyllgor trwyddedu fel ym mharagraff 6.41, a chaiff hefyd gyflwyno apêl i'r llys ynadon ac i Lys y Goron (os oes angen).

Cwestiynau'n ymwneud â 6: ceisiadau – trwydded triniaethau arbennig

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno bod yr isafswm oedran a gynigir ar gyfer ymgeiswyr am drwyddedau triniaeth arbennig yn briodol?

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf trwyddedu a gynigir ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig a'r dogfennau ategol a restrwyd? A ddylai ymgeiswyr orfod cyflwyno unrhyw ddogfennau eraill?

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai ymgeiswyr roi tystiolaeth o'u cymhwysedd yn y driniaeth/triniaethau arbennig y maent yn dymuno ei/eu rhoi? Os ydych chi'n cytuno, sut y dylid dangos hynny, a pha dystiolaeth ddogfennol y dylid ei chynhyrchu?

Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno bod y disgrifiadau cyfredol o droseddau perthnasol yn ddigonol? Os nad ydych chi, pam?

Crynodeb – Trwydded Triniaethau Arbennig

Byddwch yn cyflwyno cais i'r ardal awdurdod lleol yng Nghymru lle rydych chi'n gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith, gan gynnwys os ydych chi'n byw y tu allan i Gymru. Gallwch wneud cais yn Gymraeg neu yn Saesneg.

- Mae'n berthnasol i aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych), tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio (gan gynnwys colur lled-barhaol).
- Mae'n rhaid i bob ymarferydd sydd am weithio neu weithredu yng Nghymru am unrhyw gyfnod gael trwydded triniaethau arbennig i weithredu'n gyfreithlon.
- Bydd angen trwydded arnoch i roi unrhyw un o'r triniaethau arbennig yng nghwrs busnes. Os ydych chi'n rhoi unrhyw o'r triniaethau arbennig mewn unrhyw gapasiti arall, gallai fod yn ofynnol ichi gael trwydded gan eich awdurdod lleol.
- Mae hyn yn berthnasol i bawb – hyd yn oed os ydych chi eisoes wedi cofrestru gyda'ch awdurdod lleol o dan Ddeddf 1982.
- Dim ond o fangre neu gerbyd cymeradwy y gallwch chi roi triniaeth arbennig yn gyfreithlon. Os ydych chi'n gyfrifol am fangre neu gerbyd, gallwch wneud cais am gymeradwyaeth ar yr un pryd â thrwydded triniaethau arbennig.
- Mae rhai pethau y mae angen ichi eu gwneud cyn y gallwch wneud cais am drwydded - mae'r rhain yn cynnwys llwyddo mewn cymhwyster rheoli haint lefel 2 rheoleiddiedig, derbyn gwiriad DBS sylfaenol, sicrhau bod eich yswiriant indemniad triniaethau yn gyfredol a darparu prawf o bwy ydych chi.
- Bydd yr awdurdod lleol rydych chi'n cyflwyno eich cais iddo yn prosesu eich cais, ac efallai y bydd am siarad â chi yn rhan o'r broses ymgeisio.
- Bydd y broses ymgeisio a'r ffioedd yr un peth ym mha le bynnag y byddwch yn ymgeisio yng Nghymru, ac os rhoddir trwydded ichi, bydd eich trwydded yn ddilys yn unrhyw ran o Gymru, ar yr amod eich bod yn gweithredu mewn mangre neu gerbyd cymeradwy.
- Ceir amodau cyffredinol yn gysylltiedig â'ch trwydded y mae'n rhaid ichi eu dilyn - bydd y rhain yr un peth i bob ymarferydd yng Nghymru. Efallai y ceir amodau a gysylltir yn benodol â'r driniaeth/triniaethau arbennig y mae gennych chi drwydded i'w rhoi.
- Nodir ar eich trwydded y triniaethau arbennig y mae gennych drwydded ar eu cyfer. Bydd yn ddilys am dair blynedd, neu ddim mwy na saith niwrnod (er enghraifft i ymarferwyr sy'n ymweld â'r ardal ac sydd am gael trwydded dros dro).
- Gallwch chi newid y triniaethau y mae gennych drwydded i'w rhoi ar unrhyw bryd drwy wneud cais i'r awdurdod lleol a roddodd eich trwydded ichi.

7. Esemptiadau - Unigolion/proffesiynau nad oes arnynt angen trwydded triniaethau arbennig a mangreoedd/cerbydau nad oes arnynt angen tystysgrif cymeradwyo

Unigolion esempt

- 7.1 Mae adran 60 o'r Ddeddf yn rhoi manylion yr amgylchiadau lle bydd unigolyn yn esempt o'r gofyniad i gael trwydded triniaethau arbennig i roi'r pedair triniaeth arbennig a gaiff eu henwi (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio). Mae adran 60(2) o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth bod unigolyn sy'n aelod o broffesiwn a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (g) o Adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 yn esempt oni nodir yn y rheoliadau fod trwydded yn ofynnol mewn perthynas â thriniaeth arbennig benodol. Rhestrir y proffesiynau hyn isod:
- (a) y Cyngor Meddygol Cyffredinol
 - (b) y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
 - (c) y Cyngor Optegol Cyffredinol
 - (d) y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
 - (e) y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol
 - (f) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
 - (g) yn ddarostyngedig i Adran 26(6), Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon
 - (ga) y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- 7.2 Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau os ydynt o'r farn na ddylai'r aelodau hyn fod yn esempt o orfod cael trwydded i roi'r holl driniaethau arbennig, neu os dylai fod yn ofynnol iddynt gael trwydded i roi efallai un, neu fwy, o'r triniaethau arbennig hyn. Ni fydd aelodau'r cyrff hyn ond yn esempt o roi'r pedair triniaeth arbennig oherwydd eu haelodaeth broffesiynol, hyfforddiant blaenorol a'r ffaith eu bod wedi'u rheoleiddio ac yn atebol i'r cyrff hynny am eu gweithredoedd proffesiynol. Nid yw'n golygu nad ydynt wedi'u rheoleiddio. Fe'u rheoleiddir gan y cyrff rheoleiddio hynny. Yn ogystal, mae gan awdurdodau lleol bwerau o dan y ddeddfwriaeth diogelu iechyd bresennol i gymryd camau os ceir unrhyw achosion difrifol o dorri rheolau atal neu reoli heintiau gan ymarferwyr meddygol cofrestredig.
- 7.3 **Rydym yn cynnig** na ddylid rhoi esemptiad cyffredinol ar gyfer pob un o'r pedair triniaeth arbennig i aelodau proffesiwn a reoleiddir gan y cyrff hyn a enwir o dan a60(2), ond y dylid gwneud rheoliadau i gyfyngu ar eu hesemptiad(au) fel a ganlyn:
- Rhaid i'r unigolyn fod wedi'i gofrestru gyda chorff proffesiynol mandadol cymwys a reoleiddir.
 - Bod y driniaeth arbennig o fewn eu maes arbenigol ac yn cael ei hystyried 'o fewn y cwmpas', ac felly wedi'i indemnio gan y sefydliad y maent yn gweithio iddo, neu drwy hunan-indemniad os ydynt yn hunangyflogedig.
 - Bod y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, neu wasanaeth gofal iechyd a reoleiddir yn breifat, a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

- Os bydd yr unigolyn yn peidio â bod yn gofrestredig am unrhyw reswm, bydd ei esemptiad yn dod i ben, a bydd yn rhaid iddo gael trwydded triniaeth arbennig os yw am barhau i roi'r driniaeth arbennig honno.
- 7.4 Bydd cofrestrïadau gyda'r cyrff rheoleiddio hyn yn cael eu hadolygu ar gylchoedd rheolaidd, ac os dônt i ben ni chânt eu hadnewyddu gan nad yw'r unigolyn yn aelod o'r proffesiwn perthnasol mwyach.
- 7.5 Er enghraifft, bydd nyrs gofrestredig sy'n gwneud gwaith tatŵio meddygol ar gleifion cancer yn rhan o'i rôl fel nyrs gofrestredig yn esempt o orfod cael trwydded triniaethau arbennig ar wahân wrth gyflawni'r rôl honno, ond os bydd y nyrs gofrestredig wedyn yn penderfynu tatŵio ar gleientiaid mewn lleoliad masnachol nad yw wedi'i reoleiddio gan AGIC (fel siop datŵs neu salon harddwch), bydd yn ofynnol i'r nyrs gofrestredig gael trwydded triniaethau arbennig i weithio fel tatŵydd yn y cyd-destun hwnnw.
- 7.6 Mae 'nyrs gofrestredig' yn deitl gwarchodedig, felly ni fydd nyrs sydd heb gofrestru yn esempt, a bydd yn ofynnol felly i'r nyrs gael trwydded triniaethau arbennig os yw'n dymuno rhoi unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig a enwir.

Mangre eithriedig

- 7.7 Mae adran 69(8) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n esemptio disgrifiadau o fangreoedd a/neu gerbyd o'r gofynion i gael eu cymeradwyo ac/neu gydymffurfio ag amodau cymeradwyo mandadol. Yng nghwrs busnes arferol, byddai angen tystysgrif cymeradwyo mangre ar unrhyw fangre lle rhoddir unrhyw un o'r pedair o driniaethau. Gan fod gweithrediad unigolion esempt yn y termau a gynigir yn arbenigol iawn, **rydym yn cynnig** y dylai unrhyw leoliad Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu wasanaeth gofal iechyd rheoleiddiedig preifat a reoleiddir gan AGIC, fod yn esempt o'r gofyniad i gael tystysgrif cymeradwyo mangre lle bydd ymarferwyr esempt yn gweithredu. Ni fyddai'r esemptiad hwn ond yn berthnasol pe bai'r lleoliad yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddai angen trwydded cymeradwyo mangre ar gyfer unrhyw leoliad arall, hyd yn oed pe bai'r unigolion sy'n rhoi triniaethau arbennig yn y fangre honno yn dal esemptiadau personol.

Unigolion eraill esempt

- 7.8 Mae adran 60(3) o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i ystyried a nodi mewn rheoliadau aelodau o broffesiynau/gyrff eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr esempt uchod ond a ddylai, oherwydd natur eu gwaith a'u haelodaeth gofrestredig, fod yn esempt o'r gofyniad am drwydded triniaethau arbennig i ymarfer un neu fwy o'r pedair triniaeth arbennig benodedig.
- 7.9 Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau a all alluogi unigolion sy'n aelodau o broffesiwn (nid y rhai a restrir ym mharagraff 7.1), neu sy'n weithwyr a ddisgrifir mewn rheoliadau, i fod yn esempt os ydynt wedi cofrestru ar gofrestr gymwys.

- 7.10 Diffinnir **cofrestr gymwys** yn adran 61(4) fel cofrestr a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), neu gofrestr wirfoddol sydd wedi'i hachredu gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac sydd hefyd wedi'i nodi mewn, neu o dan, reoliadau. Yn nhermau rheoleiddio, mae'r cofrestrau hyn yn debyg i'r cofrestrau hynny a gynhelir gan y cyrff a amlinellir uchod (adran 60(1)), a gallant hefyd beri esemptiad tebyg.
- 7.11 Rhagwelwn mai'r proffesiynau perthnasol ar restr yr HCPC fydd:
- ciropodyddion/podiatryddion
 - ffisiotherapyddion
 - prosthetyddion/orthotyddion.
- 7.12 **Rydym felly'n cynnig** gwneud y proffesiynau penodol hyn sydd wedi'u rhestru ar gofrestr statudol yr HCPC ac sy'n berthnasol i'r triniaethau arbennig yn esempt o'r gofyniad i gael trwydded triniaethau arbennig.
- 7.13 Byddai cyfyngiadau ar yr esemptiad, fel y nodir yn 7.3 uchod:
- Bydd yn rhaid i'r unigolyn fod wedi'i gofrestru gyda chorff proffesiynol mandadol cymwys.
 - Bod y driniaeth arbennig o fewn eu maes arbenigol ac yn cael ei hystyried 'o fewn y cwrpas', ac felly wedi'i indemnio gan y sefydliad y maent yn gweithio iddo, neu drwy hunan-indemniad os ydynt yn hunangyflogedig.
 - Bod y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi yn un o leoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, neu mewn gwasanaeth gofal iechyd rheoleiddiedig preifat, a reoleiddir gan AGIC.
 - Os bydd yr unigolyn yn peidio â bod yn gofrestredig am unrhyw reswm, bydd ei esemptiad yn dod i ben, a bydd yn rhaid iddo gael trwydded triniaeth arbennig os yw am barhau i roi'r driniaeth arbennig honno.
- 7.14 Rydym yn ymwybodol bod rhai proffesiynau yn aelodau o gofrestrau achrededig gwirfoddol a gynhelir ac a reoleiddir gan y PSA. Gan fod aelodaeth o'r cofrestrau hyn yn wirfoddol, rydym yn cynnig **nad** yw sefydliadau a restrir ar gofrestr achrededig wirfoddol y PSA yn esempt, ac y bydd ar aelodau felly angen trwydded triniaethau arbennig i weithredu yng Nghymru.
- 7.15 Ni fyddai'r esemptiad felly ond yn berthnasol i'r rhestr a gynigir o broffesiynau sydd ar gofrestr statudol yr HCPC ac sy'n berthnasol i driniaethau arbennig. Ni fydd sefydliadau a restrir ar gofrestr achrededig wirfoddol y PSA yn esempt. Bydd yn rhaid i unrhyw weithwyr gofal iechyd proffesiynol nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ar gyfer esemptiad gael trwydded triniaethau arbennig a thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd triniaethau arbennig (os yw'n briodol).
- 7.16 **Rydym felly'n cynnig** na ddylid rhoi esemptiad yn achos unrhyw gyrff eraill sy'n cadw cofrestr broffesiynol ar gyfer unrhyw un o'r triniaethau arbennig a enwir.

Cwestiynau'n ymwneud â 7: esemptiadau

Cwestiwn 8 – Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylid gwneud rheoliadau i gyfyngu ar esemptiadau i aelodau'r cyrff proffesiynol a restrir yn adran 60?

Cwestiwn 9- Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylid gwneud rheoliadau o dan adran 69 i weithredu esemptiadau ar fangreoedd lle bydd aelodau esempt o'r cyrff proffesiynol hyn yn ymarfer?

Cwestiwn 10 – A yw'r egwyddorion hyn i esemptio unigolion a mangreoedd yn gwarchod iechyd a diogelwch y cleient i raddau digonol?

Cwestiwn 11 – Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylai'r proffesiynau a enwir sydd ar gofrestr statudol yr HCPC, sef ciropodyddion/podiatryddion; ffisiotherapyddion; prosthetyddion/orthotyddion fod yn esempt? A oes proffesiynau eraill ar y gofrestr hon a ddylai fod yn esempt?

Cwestiwn 12 – Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig na ddylai aelodau o gofrestrau gwirfoddol wedi'u hachredu gan y PSA fod yn esempt?

8. Amodau trwyddedu mandadol ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig

- 8.1 Gosodir amodau yn gysylltiedig â thrwyddedau triniaeth arbennig. Bydd yr amodau hyn yn esbonio'r telerau a'r gofynion y mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded eu bodloni er mwyn cadw ei drwydded. Ceir amodau mandadol a fydd yn berthnasol i bob ymarferydd, ac amodau penodol yn gysylltiedig â thriniaethau arbennig unigol y rhoddir trwydded ar eu cyfer. Yn y pen draw, gall yr awdurdod lleol roi rhybudd i ddeiliad trwydded o'i fwriad i ddirymu trwydded. Gall wneud hyn os yw'n fodlon:
- bod deiliad y drwydded wedi methu â chydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol cymwys a
 - bod yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn achosi risg o niwed i iechyd dynol, bosibilrwydd o hynny.
- 8.2 **Rydym wedi datblygu amodau trwyddedu mandadol enghreifftiol ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig. Mae'r rhain yn crisialu gofynion y Ddeddf o ran yr hyn y mae'n 'rhaid' ac y 'ceir' cynnwys yn y rheoliadau. Mae'n rhaid i'r rheoliadau gynnwys amodau'n gysylltiedig â dilysu oedran y cleient, rheoli heintiau, safonau hylendid a chymorth cyntaf, ymgynghori â'r cleient cyn ac ar ôl rhoi'r driniaeth arbennig, cadw cofnodion a gwahardd triniaeth arbennig os yw'r cleient wedi meddwi. Gellir gweld yr amodau mandadol enghreifftiol yn Atodiad Ch y ddogfen hon. Darllenwch yr atodiad hwn yn ofalus, oherwydd gallai'r geiriad a'r materion a gyflwynir gael eu cynnwys yn y rheoliadau yn dilyn yr ymgynghoriad. Mae cynnwys yr atodiad felly'n rhan o'r ymgynghoriad hwn, ac fe'i cyflwynir fel enghraifft.**

Cwestiynau'n ymwneud ag 8: amodau trwyddedu mandadol ar gyfer trwyddedau ymarferwyr triniaethau arbennig

Cwestiwn 13 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch yr amodau trwyddedu mandadol enghreifftiol ar gyfer yr holl driniaethau arbennig, fel y'u nodir yn Atodiad CH1?

Cwestiwn 14 – Ydych chi'n cytuno bod yr amodau trwyddedu mandadol penodol yn Atodiad CH1 yn gymesur â'r risgiau a gyflwynir gan bob math o driniaeth

9. Ystyriaethau arbennig mewn amodau trwyddedu

- 9.1 Rydym wedi cynnwys nifer o ystyriaethau arbennig yn yr amodau trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig neilltuol, ac mae' rhain wedi'u nodi isod.

Hyfforddeion a Phrentisiaid

- 9.2 Rydym yn ymwybodol bod sefydliadau addysg bellach ac ysgolion preifat yn rhoi hyfforddiant i fyfyrwyr ar driniaethau arbennig, a bod nifer o ymarferwyr sy'n brofiadol ym maes triniaethau arbennig yn hyfforddi eu prentisiaid eu hunain, yn enwedig yn niwydiannau tyllu'r corff a thatwio. Gwyddom hefyd fod rhai unigolion yn dilyn prentisiaethau rheoleiddiedig i ganlyn gyrfa mewn triniaeth arbennig. Nid yw pawb sy'n derbyn hyfforddiant drwy'r dulliau hyn yn symud ymlaen i ymarfer - ni fydd rhai ohonynt yn cwblhau eu hyfforddiant; bydd eraill yn cymhwyso ond yn dechrau gweithio mewn maes gwahanol. Rydym o'r farn y dylai'r trefniadau i drwyddedu hyfforddeion a phrentisiaid o bob math fod yn gymesur â'r risg y maent yn ei hachosi i'r cyhoedd, i ba raddau y mae eu hyfforddiant wedi'i rheoleiddio, ac a oes risg o gamarwain y cyhoedd ynghylch eu statws cymhwyso o'u cynnwys ar y gofrestr ganolog o ymarferwyr trwyddedig.
- 9.3 Mae'r holl brentisiaethau (wedi'u rheoleiddio a heb eu rheoleiddio) a hyfforddeion sy'n derbyn hyfforddiant yn y gwaith, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu cyrsiau heb eu rheoleiddio ac wedi'u rheoleiddio yn rhan o'u swydd, yn cael eu goruchwyllo'n fanwl ac mae rheolaeth lem ar eu gweithgareddau yn y gweithle. Mae potensial iddynt greu risg i'r cyhoedd pan fydd eu goruchwylwr/mentor yn tybio eu bod yn ddigon cymwys i roi'r driniaeth arbennig i gleient. Ystyriwn felly ei bod yn gymesur bryd hynny i'w gwneud yn ofynnol iddynt gael trwydded tair blynedd. Fodd bynnag, gan eu bod yn dal i dderbyn hyfforddiant ac o dan oruchwyliaeth, byddai trwydded triniaethau arbennig lawn yn amhriodol nes iddynt gymhwyso neu allu gweithio heb oruchwyliaeth.
- 9.4 **Rydym felly'n cynnig** y dylai trwydded hyfforddai fod ar gael i bob hyfforddai a phrentis. Ni fydd angen i'r hyfforddai/prentis wneud cais am drwydded hyfforddai nes i'r tiwtor/mentor ystyried bod yr hyfforddai/prentis wedi cymhwyso'n ddigonol i allu rhoi triniaeth arbennig i unigolyn arall o dan oruchwyliaeth.

- 9.5 Bydd y drwydded hyfforddai yn ddilys am dair blynedd a bydd yn cynnwys amodau trwydded gyfyngedig ychwanegol sy'n ymwneud yn benodol â statws yr hyfforddai. Bydd categori'r drwydded hon wedi'i dangos ar y gofrestr gyhoeddus ganolog, er mwyn i'r cyhoedd allu gwahaniaethu rhwng ymarferwyr â thrwydded lawn a hyfforddeion. Bydd yr un meini prawf trwyddedu yn berthnasol i drwyddedau triniaeth arbennig hyfforddai, ac eithrio'r meini prawf 'tystiolaeth o gymhwysedd' a chyda gofyniad ychwanegol i'r tiwtor/mentor gydlofnodi'r ffurflen gais i ddangos bod yr hyfforddai wedi cyrraedd y lefel briodol o gymhwysedd i'w alluogi i roi triniaeth arbennig benodol o dan oruchwyliaeth, ac mewn un fangre gymeradwy benodedig.
- 9.6 Bydd y meini prawf trwyddedu canlynol yn berthnasol ar gyfer trwyddedau hyfforddeion:
- Bod yr hyfforddai/y prentis yn bodloni'r holl feini prawf perthnasol i ymgeisio am drwydded triniaethau arbennig tair blynedd, ac eithrio'r dystiolaeth o gymhwysedd.
 - Bod y cwrs yn gymhwyster rheoleiddiedig neu'n gynllun prentisiaeth rheoleiddiedig mewn triniaeth arbennig berthnasol, wedi'i gyflwyno mewn coleg addysg bellach neu sefydliad addysg arall, neu'n brentisiaeth nas rheoleiddir a ddilynir mewn mangre gymeradwy o dan oruchwyliaeth ymarferydd trwyddedig.
 - Bydd angen datganiad wedi'i lofnodi gan y mentor ar y ffurflen gais a gaiff ei llenwi gan yr hyfforddai.
- 9.7 Bydd angen i ymarferwyr sy'n gweithredu fel tiwtor, mentor neu oruchwylwr ddal ei drwydded triniaethau arbennig tair blynedd ei hun, a datgan yn glir ar eu ffurflen gais eu hunain beth yw eu rôl o ran hyfforddi, goruchwyllo neu asesu hyfforddeion/prentisiaid; bydd amodau ychwanegol wedi'u cynnwys yn gysylltiedig â thrwydded y tiwtor, i adlewyrchu ei gyfrifoldebau goruchwyllo a chyfyngu ar weithgarwch triniaethau arbennig hyfforddeion/prentisiaid i'r lleoliad hwnnw'n unig, ac o dan oruchwyliaeth y tiwtor.
- 9.8 Bydd statws cyfyngedig trwydded yr hyfforddai yn nodi mai ond mewn un fangre y caiff yr hyfforddai/y prentis roi'r driniaeth arbennig benodedig, a hynny o dan oruchwyliaeth ymarferydd trwyddedig a enwir, mewn un fangre gymeradwy a enwir. Bydd yr hyfforddai/y prentis yn ddarostyngedig i'r un camau gorfodi ag ymarferwyr â thrwydded broffesiynol, gan gynnwys dirymu eu trwydded, cyflwyno hysbysiadau gorfodi ac erlyn os ydynt yn torri amodau eu trwydded, yn enwedig wrth roi'r driniaeth arbennig y tu allan i'r fangre gymeradwy ddynodedig, neu heb oruchwyliaeth y mentor/tiwtor.
- 9.9 Bydd amodau trwydded ychwanegol yn cael eu gosod yn gysylltiedig â'r drwydded hyfforddai, i adlewyrchu statws yr hyfforddai. Bydd y drwydded yn ddilys am dair blynedd neu hyd nes y bo'r deiliad yn cymhwyso neu'n cael ei ystyried yn gymwys i roi'r triniaethau arbennig a nodir heb oruchwyliaeth, pa un bynnag yw'r cynharaf. Pan fernir bod yr hyfforddai/y prentis yn gymwys i roi triniaethau arbennig ar berson arall heb oruchwyliaeth ei hyfforddwr neu pan fydd yn cymhwyso o gwrs rheoleiddiedig, bydd yn amod trwyddedu bod y deiliad yn gwneud cais i'r awdurdod lleol dyroddi i newid y drwydded i drwydded triniaethau arbennig lawn, yn amodol ar ddarparu dystiolaeth ddogfennol briodol.
- 9.10 Os na fydd deiliad y drwydded yn cymhwyso neu os ydynt yn gadael eu cwrs/prentisiaeth cyn i'r drwydded hyfforddai ddod i ben, neu os yw'n cymhwyso ond

yn penderfynu peidio gweithio ym maes triniaethau arbennig, mae'n ofynnol o dan y Ddeddf iddo hysbysu'r awdurdod lleol a roddodd y drwydded ynghylch ei fwriadau, a bydd yr awdurdod lleol yn terfynu'r drwydded. Os yw'n cymhwyso ac yn symud ymlaen i roi'r driniaeth arbennig, y mae bellach yn gymwys heb oruchwyliaeth, ond os nad yw'n newid ei drwydded hyfforddai i drwydded triniaethau arbennig lawn, bydd yn torri amodau ei drwydded hyfforddai, a gall yr awdurdod lleol ddirymu'r drwydded honno.

- 9.11 Os bydd deiliad trwydded dan hyfforddiant yn dechrau gweithio mewn mangre arall neu'n newid i hyfforddwr/mentor gwahanol i'r sawl a enwir ar ei drwydded hyfforddai, rhagwelwn y bydd yn gwneud cais i'r awdurdod lleol a roddodd y drwydded i amrywio ei drwydded a newid y manylion hyn, hyd yn oed os yw'n dal i gael ei oruchwyllo, gan y bydd yn torri ei amodau trwyddedu i roi triniaethau arbennig mewn lleoliad a enwir ac o dan oruchwyliaeth y tiwtor/mentor a enwir, gan achosi risg o ddirymu ei drwydded.
- 9.12 Dylai'r prentis sydd wedi cwblhau ei brentisiaeth ac sydd wedi cymhwyso wneud cais i amrywio'r drwydded hyfforddai i drwydded triniaethau arbennig lawn.

Hyfforddeion ar gyrsiau rheoleiddiedig a ddarperir gan golegau addysg bellach

- 9.13 Byddai ei gwneud yn ofynnol i hyfforddeion neu brentisiaid sydd wedi cofrestru ar gyrsiau rheoleiddiedig a ddarperir gan golegau addysg bellach gael eu trwyddedu yn golygu y byddai nifer fawr o geisiadau'n cael eu cyflwyno gyda phob carfan o hyfforddeion sy'n cael eu derbyn i golegau addysg bellach a sefydliadau eraill. Ar ben hynny, ychydig o risg a achosir i'r cyhoedd gan yr hyfforddeion hyn gan fod eu hyfforddiant wedi'i oruchwyllo a'i reoli'n agos, a chan nad ydynt yn rhoi'r driniaeth arbennig i rywun arall, a'u bod fel arfer o dan 18 oed. **Rydym yn cynnig** na fydd angen i'r hyfforddeion hyn gael trwydded hyfforddai nes iddynt gymhwyso, a phryd hynny dylent wneud cais am drwydded triniaethau arbennig lawn.

Cyrsiau heb eu rheoleiddio

- 9.14 Gwyddom fod nifer o unigolion ac ysgolion hyfforddi yn cynnig cyrsiau triniaethau arbennig i unigolion sydd am fynd i'r proffesiwn. Hoffem dynnu sylw at y ffaith y bydd yn ofynnol i'r unigolion a'r ysgolion hyn gydymffurfio â holl ofynion y cynllun hwn, gan gynnwys yr angen i gael trwydded triniaethau arbennig a thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd a thrwyddedau hyfforddeion os yw'n briodol.

Isafswm oedran ymarferydd

- 9.15 Rydym yn pryderu y gallai pobl ifanc 16-18 oed sy'n gweithio yn y diwydiant triniaethau arbennig fod mewn perygl o gamfanteisio (ee, camfanteisio rhywiol) os gofynnir iddynt roi unrhyw un o'r triniaethau arbennig ar gleientiaid ar y rhannau hynny o'r corff a ddiffinnir yn 'bersonol' yn y Rheoliadau Rhoi Tll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff, hyd yn oed os bydd hynny'n digwydd dan oruchwyliaeth. Rydym o'r farn bod anghysondeb rhwng yr isafswm oedran o 18 a bennwyd yn y rheoliadau ar gyfer cleient sy'n cael tatŵ a thwll mewn rhan bersonol o'r corff ac isafswm oedran yr ymarferydd sydd i roi'r

triniaethau hynny. Os mai pwrpas isafswm oedran y cleient yw diogelu pobl ifanc rhag niwed, rydym o'r farn y dylid defnyddio'r un rheol i ddiogelu'r ymarferydd. Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth debyg yn gwahardd unrhyw un dan 18 oed rhag derbyn triniaeth electrolysis nac aciwbigo. Mae'n rhesymegol ystyried na ddylai unrhyw un dan 18 oed dderbyn y triniaethau hyn ar rannau 'personol' o'r corff, na rhoi'r triniaethau hynny i berson arall.

9.16 **Rydym felly'n cynnig** sefydlu isafswm oedran o 18 er mwyn i ymarferwyr, hyfforddeion a phrentisiaid allu rhoi:

- tatŵ ar unrhyw ran o'r corff - yn ôl y diffiniad mae hyn hefyd yn cynnwys colur lled-barhaol
- twll mewn rhan bersonol o'r corff
- twll yn unrhyw ran arall o'r corff
- electrolysis ac aciwbigo ar unrhyw ran o'r corff.

9.17 **Rydym wedi pennu isafswm oedran o 18 ar gyfer ymgeisio am drwydded triniaethau arbennig. Rydym yn cynnig** y dylid cynnwys y cyfyngiadau oedran hyn hefyd yn amodau trwyddedu'r ymarferwyr trwyddedig hynny sy'n nodi eu bod yn gyfrifol am hyfforddi, goruchwyllo neu asesu hyfforddeion a phrentisiaid dan 18 oed.

Oedran y cleient

9.18 Mae pobl ifanc dan 18 oed wedi'u gwahardd o dan ddeddfwriaeth bresennol rhag cael tatŵ neu rhag cael twll mewn rhan bersonol o'r corff. Nid oes unrhyw gyfyngiadau tebyg ar dyllu rhannau eraill o'r corff, aciwbigo nac electrolysis. **Rydym yn cynnig** y dylai'r amodau trwyddedu mandadol ar gyfer y triniaethau arbennig hyn gyfyngu ar roi unrhyw un o'r triniaethau hynny i berson o dan 18 oed, onid oes ganddo gydsyniad riant/gwarcheidwad cyfreithiol mewn ysgrifen a bod y person hwnnw'n bresennol yn yr ymgynghoriad cyn y driniaeth ac yn ystod y driniaeth ei hun, a bod y plentyn hefyd yn cydsynio (ac eithrio wrth dyllu llabed y glust, ael, gwefus, trwyn a chartilag y glust - gweler isod).

9.19 **Ymhellach, rydym yn cynnig** y dylid cynnwys yr eithriadau canlynol i'r terfyn oedran a'r gofyniad am gydsyniad riant/gwarcheidwad:

Wrth dyllu llabed y glust yn unig:

- gall person 16 oed gael twll yn llabed y glust **heb** gydsyniad mewn ysgrifen gan riant/gwarcheidwad cyfreithiol, a heb i'r person hwnnw fod yn bresennol yn yr ymgynghoriad
- gall person dan 16 oed gael twll yn llabed y glust **gyda** chydsyniad mewn ysgrifen gan riant/gwarcheidwad cyfreithiol, ac os yw'r person hwnnw'n bresennol yn yr ymgynghoriad.

9.20 Ar sail yr wybodaeth rydym wedi'i derbyn o'r diwydiant triniaethau arbennig, ymddengys mai'r safon ar gyfer tyllu llabed y glust, trwyn, bogail, gwefus, tafod neu ran uchaf gartilagaidd y glust yw 16 oed. Caniateir tyllu llabed y glust dan 16 oed gyda

chaniatâd mewn ysgrifen gan riant/gwarcheidwad, ac os yw'r person hwnnw'n bresennol wrth roi'r driniaeth. Gwaherddir pobl o dan 18 oed rhag cael tyllu'r tafod o dan y Rheoliadau Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff, ac nid ydym yn bwriadu newid y gwaharddiad hwn.

- 9.21 Rydym wedi ystyried a ddylid bod modd cael twll yn yr ael, y wefus, y trwyn a chartilag y glust o'r adeg pan fydd rhywun yn 16 oed, heb gydsyniad rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol. Rydym o'r farn fod hyn yn rhesymol, gan na fyddem yn dymuno cyfyngu'n ormodol ar allu pobl ifanc i gael tyllau o'r fath ar adeg pan fônt yn aml yn gallu rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth. Rydym hefyd yn ymwybodol na ddylem beri i bobl ifanc dyllu eu corff eu hunain fel canlyniad anfwriadol, os na allant fel arall gael tyllu'r corff yn gyfreithlon.
- 9.22 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai tyllau yn yr wyneb yw'r rhain, ac y gall tyllu yng nghartilag y glust achosi cymhlethdodau. Ni fyddem yn dymuno caniatáu i bobl ifanc dyllu unrhyw ran arall o'r wyneb, fel y foch, heb gydsyniad rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol, oherwydd cydnabyddir natur gymhleth yr ôl-ofal a'r posibilrwydd o gael craith barhaol. Rydym hefyd yn cydnabod y dylid sicrhau cysondeb a'n rhesymeg ynghylch cynnal ymgynghoriad ychwanegol cyn tatwio'r wyneb a'r gwddf, er bod tatwio ei hun wedi'i wahardd i unrhyw un dan 18 oed.
- 9.23 Ar gyfer aciwbigo neu electrolysis ar rannau o'r corff ac eithrio rhannau personol:
- bydd yn rhaid i unrhyw un dan 18 sydd am dderbyn y triniaethau hyn gael cydsyniad rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol, ac i'r person hwnnw fod yn bresennol mewn ymgynghoriad cyn triniaeth ac yn hebryngwr ar gyfer y driniaeth ei hun. Bydd yn rhaid i'r person sy'n derbyn y driniaeth hefyd gydsynio ei hun (mae hyn yn unol â chanllawiau'r diwydiant ar gyfer aciwbigo).
- 9.24 Ar gyfer aciwbigo neu electrolysis ar rannau personol o'r corff (fel y'u diffinnir yn y Rheoliadau Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff):
- Ni fydd pobl dan 18 oed yn gallu cael triniaethau fel hyn hyd yn oed os yw rhiant/gwarcheidwad yn cydsynio i hynny yn y mathau o fangreoedd a drwyddeddir o dan y cynllun hwn. Yr unig eithriad i hyn fydd er mwyn rhoi triniaeth feddygol ddilys o dan gyfarwyddyd ymarferydd meddygol.

Tatwio pelen y llygad

- 9.25 Wrth i'r Ddeddf fynd drwy'r Senedd, rhoddodd Gweinidogion Cymru sicrwydd i'r Senedd y byddai'r amodau trwyddedu mandadol i atal tatwio pelen y llygad i ddibenion cosmetig anfeddygol yn cael eu hystyried. Gellir tatwio pelen y llygad (y gornbilen) i newid ymddangosiad cosmetig llygaid unigolyn yn dilyn afiechyd neu ddamwain. Bydd eraill yn cael y driniaeth i ddibenion optegol, gan gynnwys lleihau llacharedd amgylchiadol o fewn yr iris. Didreiddedd y gornbilen yw'r prif reswm dros gael tatwio cosmetig meddygol.
- 9.26 Tatwio pelen y llygad i ddibenion cosmetig anfeddygol yw triniaeth lle bydd rhan wen y llygad (a elwir yn sglera) yn cael ei lliwio'n barhaol. Ymddengys fod tatwio pelen y

llygad yn arfer prin, er y gallai ddod yn fwy cyffredin. Rhoddir y driniaeth drwy chwistrellu ychydig iawn o hydoddiant lliw i'r ardal rhwng y gyfbilen (y bilen fwcaidd) a'r sglera yn y llygad, mewn sawl man, ac o'r manau hynny bydd yr inc yn lledaenu'n araf i orchuddio pob rhan o'r sglera. Mae'n barhaol ac yn debygol o fod yn driniaeth na ellir ei dad-wneud. Mae'r risgiau hysbys yn cynnwys niwed parhaol i'r llygad a all arwain at ddallineb, y risg o haint a chuddio newidiadau i'r llygad sy'n arwyddion o gyflyrau meddygol eraill. Nid yw'r risgiau hirdymor yn gwbl hysbys eto. Mae'n annhebygol y gellid defnyddio'r technegau a ddefnyddir i gael gwared â thatws y croen ar belen y llygad. Mae'n debygol felly y bydd hi'n amhosib cael gwared â'r tatw.

- 9.27 Ni chaiff tatwio pelen y llygad i ddibenion cosmetig anfeddygol ei drin yr un peth â thatwio yn yr ystyr traddodiadol, ac mae angen meini prawf ac amodau trwyddedu penodol i gyfyngu ar driniaethau fel nad ydynt ond yn cael eu cynnal ar unigolion cymwys mewn lleoliadau priodol. Oherwydd hyn, rydym wedi ychwanegu amod trwyddedu mandadol yn benodol ar gyfer tatwio, sef na chaiff unrhyw ymarferydd triniaethau arbennig trwyddedig datwio pelen y llygad mewn unrhyw amgylchiadau.
- 9.28 Nid yw hyn yn effeithio ar ddefnydd meddygol gan ymarferwyr arbenigol â chymwysterau addas, fel y nodir yn yr adran am unigolion esempt, gan fod triniaethau meddygol y tu hwnt i gwmpas y cynllun trwyddedu hwn.

Tatws a thyllu'r wyneb a'r gwddf a thatws a thyllau gweladwy

- 9.29 Yn ogystal â hyn, wrth i'r Ddeddf fynd drwy'r senedd, roedd Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid rhybuddio unrhyw un a ddymunai gael twll yn y corff neu datw mewn man amlwg, yn enwedig ar yr wyneb, y gwddf neu'r dwylo, y gallai cyflogwyr wahaniaethu yn ei erbyn yn gysylltiedig â swydd. Ymrwymodd y gweinidogion i ymgorffori goblygiadau posibl tyllau yn y corff neu datws mewn man amlwg yn yr amodau trwyddedu mandadol yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad â'r cleient cyn y driniaeth. Yn rhan o'r amodau trwyddedu, mae'n rhaid i'r ymarferydd gynghori'r cleient ynghylch goblygiadau'r materion hyn yn yr ymgynghoriad cyn y driniaeth, ac yn gwneud cofnod o'r drafodaeth.
- 9.30 Mae colur lled-barhaol wedi'i gynnwys o dan y diffiniad o datwio, a chanfod y driniaeth honno'n gysylltiedig â'r wyneb, hoffem gyfeirio at y ffaith y bydd hi'n ofynnol i therapyddion harddwch roi cyngor i'r cleient yn yr ymgynghoriad cyn y driniaeth, a chofnodi'r cyngor hwnnw. Gan fod colur lled-barhaol gan gynnwys microlafnu hefyd wedi'i gynnwys o dan y diffiniad o datwio a nodir yn Neddf Tatwio Pobl Ifanc o Dan Oed 1969, sy'n gwahardd tatwio unrhyw un dan 18 onid yw hynny mewn amgylchiadau penodol, bydd yn amod trwyddedu na chaiff unrhyw un dan 17 oed dderbyn y triniaethau hyn na'u rhoi.

Cwestiynau'n ymwneud â 9: ystyriaethau arbennig

Cwestiwn 15 – Ydych chi'n cytuno bod creu trwydded hyfforddai yn ffordd gymesur o ymdrin â hyfforddeion ar gyrsiau rheoleiddiedig a phrentisiaid sy'n dilyn cynlluniau prentisiaeth rheoleiddiedig ac anrheoleiddiedig?

Os nad ydych chi'n cytuno, sut y dylid ymdrin â hyn?

Cwestiwn 16 – Ydych chi'n cytuno y dylid pennu 18 oed fel yr isafswm oedran i ymarferydd roi unrhyw un o'r triniaethau arbennig?

Cwestiwn 17 – Ydych chi'n cytuno y dylid pennu 18 oed fel yr isafswm oedran i gleient gael unrhyw un o'r triniaethau arbennig (ar wahân i'r eithriadau arfaethedig a restrwyd)?

Cwestiwn 18 – Ydych chi'n cytuno bod yr hyn a amlinellwyd o ran cydsyniad a phresenoldeb rhiant/gwarcheidwad ar gyfer triniaethau nad ydynt wedi'u gwahardd i rai dan 18 oed yn fesurau diogelu digonol?

Cwestiwn 19 – Ydych chi'n cytuno bod 16 yn oedran priodol i rywun gael twll yn yr ael, y wefus, y trwyn neu gartilag y glust heb gydsyniad rhiant/gwarcheidwad?

Cwestiwn 20 – A ddylid caniatáu tyllau ar unrhyw ran arall o'r wyneb o'r adeg pan fydd rhywun yn 16 oed? Os felly, pam?

Cwestiwn 21 – Ydych chi'n cytuno bod gwahardd tatwio pelen y llygad yn yr amodau trwyddedu tatwio yn ddigonol i atal ymarferwyr trwyddedig rhag rhoi'r driniaeth honno?

Cwestiwn 22 – A yw'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol mewn amodau trwyddedu fod ymarferwyr yn trafod effaith triniaethau wyneb a thriniaethau gweladwy eraill â chleientiaid ac yn cofnodi'r drafodaeth yn ddigonol i fynd i'r afael â'r pryderon?

10. Diffiniad o 'wrthrych' wrth dyllu'r corff

10.1 Mae adran 94(1) o'r Ddeddf ar hyn o bryd yn diffinio 'tyllu'r corff' fel a ganlyn:

“gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith, neu i wrthrych o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn”.

10.2 Mae adran 94 yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddiffinio neu ddisgrifio gwrthrychau y caniateir eu defnyddio ar gyfer tyllu'r corff ac eithrio gemwaith. Darparwyd diffiniad o wrthrych yn flaenorol i wahardd tyllu rhannau

personol o'r corff yng nghyd-destun Rhan 5 o'r Ddeddf (Tyllu Rhan Bersonol o'r Corff). Rhoddir y diffiniad canlynol yn Rheoliadau Tyllu Rhan Bersonol o'r Corff:

Mae unrhyw wrthrych nad yw'n emwaith wedi ei ragnodi at ddibenion paragraff (b) yn y diffiniad o "tyllu'r corff" yn adran 94(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, ond dim ond i'r graddau y mae'r diffiniad hwnnw yn gymwys at ddibenion y drosedd yn adran 95 o'r Ddeddf honno (y drosedd o roi neu wneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn).

- 10.3 Felly, o dan y diffiniad hwnnw, gwaherddir defnyddio unrhyw beth nad yw'n emwaith i dyllu rhan bersonol o gorff plentyn dan 18 oed. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff yn 2018, ac ar y pryd cafwyd ymgais i ddiffinio 'gwrthrychau' yn ôl eu math (er enghraifft, plygiau, twnelau, angorau croenol a microgroenol, deifwyr y croen ac ati). Gan fod arferion tyllu'r corff yn cynnwys triniaethau arbrofol a oedd yn datblygu'n gyflym, roedd nifer o ymatebwyr yr ymgynghoriad hwnnw o'r farn y byddai angen adolygu a diwygio rhestr ragnodol o 'wrthrychau'. Gan nad yw enwau 'gwrthrychau' wedi'u safoni, ac y gallant newid, roedd pryder y gellid ochrgamu'r Rheoliadau Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff yn gyfreithiol.
- 10.4 Cyfeirir at yr ymgais flaenorol hon i ddiffinio 'gwrthrych' o fewn rheoliadau, ac ystyriwn fod y dadleuon a gyflwynwyd bryd hynny, er enghraifft yn erbyn diffinio 'gwrthrych' yn ôl math neu drwy unrhyw gyfeiriad arall at siâp, maint, deunydd ac ati yn dal yn ddilys. Y gwahaniaeth ar yr achlysur hwn wrth ddiffinio 'gwrthrych' i ddibenion adran 94(1) o'r Ddeddf yw y bydd y diffiniad yn nodi'r gwrthrychau y **caniateir** eu defnyddio wrth dyllu unrhyw ran o'r corff (rhannau personol a rhannau eraill) ar bobl dros 18 oed, ac wrth dyllu rhannau amheronol o'r corff ar bobl ifanc o dan 18 oed.
- 10.5 **Er cysondeb, rydym yn cynnig** y dylid defnyddio'r un diffiniad o 'wrthrych' yn y rheoliadau hyn ag a ddefnyddiwyd yn y Rheoliadau Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff:

Gemwaith ac '**unrhyw wrthrych nad yw'n emwaith**'.

- 10.6 Effaith hyn fyddai caniatáu defnyddio unrhyw wrthrych sy'n emwaith ac nad yw'n emwaith i dyllu'r corff, ac eithrio os bydd rheoliadau eraill yn gwahardd hynny'n benodol (ee, y Rheoliadau Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff). Ar yr wyneb, gallai hyn ymddangos fel pe bai'n caniatáu'r arferion tyllu ac addasu'r corff mwy eithafol, a allai fod yn niweidiol. Nid yw hyn yn wir, fodd bynnag, ac wrth geisio diffinio gwrthrych drwy gyfeirio at siâp, maint, dull o'i osod yn y corff ac ati bydd terfyn yn cael ei osod y bydd rhai'n dymuno ei groesi, a bydd unrhyw restr y gallem ei rhagnodi yn y rheoliadau angen ei diweddarau'n barhaus ar sail datblygiadau arloesol yn y diwydiant.
- 10.7 Rydym o'r farn y byddai'r diffiniad a gynigir yn galluogi ymarferwyr a'u cleientiaid i gynnal arferion tyllu'r corff presennol ac yn caniatáu unrhyw ddatblygiadau arloesol a allai godi yn y dyfodol, heb fod angen diweddarau'r rheoliadau'n barhaus. **Rydym felly'n cynnig** y dylid cyfyngu ar yr arferion mwy eithafol drwy ddefnyddio'r amodau trwyddedu mandadol sy'n benodol ar gyfer tyllu'r corff, fel y bydd rhai sydd â thrwydded i roi tyllau yn y corff wedi'u gwahardd rhag rhoi unrhyw driniaeth tyllu'r corff

sy'n cynnwys defnyddio cyllell llawfeddyg neu offeryn llafnog tebyg i dyllu drwy'r croen neu bilen fwcaidd.

Cwestiynau'n ymwneud â 10: diffiniad o 'wrthrych' wrth dyllu'r corff

Cwestiwn 23 – Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad a gynigir ar gyfer 'gwrthrych' fel y bo'n berthnasol i dyllu'r corff?

Cwestiwn 24 – Ydych chi'n cytuno bod gwahardd y defnydd o gyllell llawfeddyg neu offeryn llafnog tebyg yn amodau trwyddedu tyllu'r corff yn ddigonol i atal addasiadau i'r corff sydd y tu hwnt i driniaeth tyllu'r corff?

11. Meini prawf cymeradwyo a'r broses ymgeisio ar gyfer tystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd

- 11.1 Mae **tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd** yn fodd i gymeradwyo mangre neu gerbyd penodol er mwyn rhoi triniaethau arbennig yn y fangre honno neu'r cerbyd hwnnw. Bydd yn rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais am y dystysgrif gymeradwyo fodloni meini prawf cymeradwyo er mwyn i'r cais gael ei gymeradwyo, a bydd y fangre/cerbyd yn destun amodau cymeradwyo mandadol ar ôl rhoi'r dystysgrif cymeradwyo. Bydd yn ofynnol cael y tystysgrifau hyn hefyd ar gyfer cerbydau os bwriedir eu defnyddio i roi triniaethau arbennig, ac ar gyfer lleoliadau os bydd trefnydd yn dymuno i ymarferwyr roi triniaethau arbennig yn ystod digwyddiad. Gall tystysgrifau felly gael eu cyflwyno am dair blynedd, neu am saith niwrnod yn unig.
- 11.2 Bydd angen cael tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd ar gyfer mangre bresennol, hyd yn oed os ydyw wedi'i chofrestru eisoes o dan y gofynion presennol. Ni fydd cofrestrïadau presennol na 'hawliau taid/tad-cu' yn parhau i ymarferwyr neu fusnesau triniaethau arbennig sydd wedi bod yn ymarfer ers blynnyddoedd.

Gofyniad am Dystysgrif Cymeradwyo Mangre/Cerbyd Triniaethau Arbennig

- 11.3 Bydd angen tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd triniaethau arbennig ar unigolyn os rhoddir triniaethau arbennig i unigolyn arall yng nghwrs busnes yng Nghymru yn y fangre neu'r cerbyd yn yr amgylchiadau canlynol:
- Os yw'n berchen neu'n rhannol berchen ar weithgaredd neu fusnes, neu â buddiant busnes mewn gweithgaredd neu fusnes sy'n rhoi triniaethau aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis neu datwïo o fangre neu gerbyd
 - Os yw'n berchen neu'n rhannol berchen ar adeilad, strwythur, cerbyd, mangre neu babell, neu â buddiant busnes mewn adeilad, strwythur, cerbyd, mangre neu babell, a ddefnyddir ar gyfer aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis neu datwïo.
 - Os yw'n rheoli mangre, adeilad, cerbyd, pabell neu strwythur a ddefnyddir naill ai'n achlysurol neu'n arferol ar gyfer aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis neu datwïo.

- Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw rhywun yn gweithredu o ofod hunangynhwysol, pwrpasol o fewn eiddo domestig fel perchennog/meddiannydd neu denant.
- 11.4 Os yw mangre neu gerbyd yn eiddo i fwy nag un unigolyn, neu os yw'n eiddo i un person ond yn cael ei rheoli gan rywun arall fel cyflogai, y prif berthennog/weithredwr a fydd yn gwneud y cais ar ran yr holl bartneriaid busnes. Ni chaiff deiliaid trwyddedau triniaeth arbennig hyfforddai wneud cais am dystysgrif cymeradwyo mangre yn eu hawl ei hunain, nac fel person â gofal dros fangre, nes iddynt ddal trwydded triniaethau arbennig lawn.
- 11.5 Bydd yr unigolyn yn gwneud cais i'r awdurdod lleol yn yr ardal y mae'r fangre ynddi. Os oes mwy nag un fangre yn yr un ardal awdurdod lleol, bydd yn rhaid gwneud cais ar wahân ar gyfer pob mangre. Os oes mangre mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol, bydd angen gwneud cais ar wahân ar gyfer pob mangre i awdurdod lleol yr ardal y mae'r fangre ynddi.
- 11.6 Yn achos cerdyn (y mae'n ofynnol iddo fod yn addas i'r diben a chael ei ddefnyddio i roi triniaeth(au) arbennig yn unig), gwneir cais i awdurdod lleol yr ardal y mae'r cerbyd ynddi, neu lle mae'n debygol o gael ei gyrru, ei defnyddio neu ei chadw. Er enghraifft, yr awdurdod lleol yn yr ardal y mae ceidwad cofrestredig y cerbyd yn byw ynddi. Os yw'r ceidwad cofrestredig yn byw y tu allan i Gymru, dylid gwneud cais i'r awdurdod lleol yn yr ardal yr eir â'r cerbyd iddo er mwyn rhoi'r triniaethau arbennig, neu oes mwy nag un lleoliad, lle caiff rhan fwyaf o'r triniaethau eu rhoi. Os oes gan unigolyn fangre sefydlog a cherbyd, bydd yn rhaid gwneud cais ar wahân ar gyfer y naill a'r llall.
- 11.7 Mae'n rhaid gwneud cais ar wahân am fangreoedd a cherbydau fel bo modd prosesu pob cais mor effeithlon ag sy'n bosibl. Pe bai cerbyd a mangre ar yr un ffurflen, byddai'n rhaid archwilio'r naill a'r llall, a gallai hynny olygu oedi cyn cyhoeddi'r tystysgrifau cymeradwyo mangre a cherbyd, pe bai angen ymchwilio ymhellach i un rhan o'r cais.
- 11.8 Ar gyfer mangreoedd a cherbydau, bydd y dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd triniaethau arbennig yn ddilys am dair blynedd, ac ar ôl hynny bydd yn rhaid i'r unigolyn wneud cais i'w hadnewyddu; neu ar gyfer trefniadau dros dro, ni fydd yn ddilys am gyfnod hwy na saith niwrnod (gweler yr ymdriniaeth â hyn yn [adran 13](#)).
- 11.9 **Os yw perchennog/gweithredwr y fangre hefyd yn bwriadu rhoi triniaethau arbennig eu hunain, bydd yn dal angen iddo gael ei drwydded triniaethau arbennig ei hun yn ogystal â thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd. Os yw'r ymgeisydd eisoes yn dal trwydded triniaeth arbennig, nid oes sicrwydd y bydd y dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd yn cael ei rhoi gan fod y broses gymeradwyo yn cael ei chynnal ar wahân.**
- 11.10 Mae adran 69(8) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n esemptio disgrifiadau o fangreoedd a/neu gerbyd o'r gofynion i gael eu cymeradwyo ac/neu gydymffurfio ag amodau cymeradwyo mandadol. Er enghraifft, lleoliadau'r GIG neu ofal iechyd preifat neu gerbydau a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Rydym wedi cynnig cynnwys esemptiad ar gyfer lleoliadau'r GIG neu ofal iechyd preifat neu gerbydau a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru mewn

amgylchiadau cyfyngedig, er mwyn caniatáu i unigolion esempt ymarfer. Trafodir hyn yn [adran 7](#).

Meini prawf cymeradwyo a gofynion cyn ymgeisio

11.11 **Rydym yn cynnig** y dylai pob ymgeisydd fodloni'r meini prawf cymeradwyo canlynol cyn y gellir gwneud cais am dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd:

- **Bod yr ymgeisydd yn 18 oed neu'n hŷn**
- **Ei fod wedi llwyddo i ennill cymhwyster Atal a Rheoli Haint Lefel 2 rheoleiddiedig ar gyfer triniaethau arbennig**
- **Bod y fangre neu'r cerbyd yn bodloni'r holl safonau gofynnol, fel y'u nodir yn yr amod cymeradwyo mangre/cerbyd**
- **Bod yr ymgeisydd yn datgan troseddau perthnasol**
- **Bod gan yr ymgeisydd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus neu ei fod wedi trefnu yswiriant tebyg**
- **Ffi Ymgeisio**

11.12 **Yr oedran ieuengaf i fod yn gymwys i ymgeisio am dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd fydd 18.** Mae'n rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd y mae'r cais yn berthnasol iddi/iddo yn cydymffurfio â'r amodau cymeradwyo mandadol ar gyfer y triniaethau arbennig y bwriedir eu rhoi. **Rydym yn cynnig** na fydd deiliaid trwydded triniaethau arbennig hyfforddai yn cael gwneud cais am drwydded mangre yn eu hawl ei hunain, na chael eu henwebu fel person â gofal dros fangre, nes iddynt ddal trwydded triniaethau arbennig lawn.

Tystiolaeth ddogfennol i'w darparu

11.13 Rydym yn rhagweld y bydd angen i'r rhai sy'n ymgeisio am dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r canlynol gyda'u ffurflen gais, neu ni phrosesir eu cais.

- Prawf o enw a dyddiad geni. Bydd unrhyw un o'r dogfennau canlynol gan yr unigolyn yn brawf derbyniol: pasbort, trwydded yrru neu ddull adnabod arall priodol gyda llun)
- Prawf o'r cyfeiriad preswyl cyfredol - gellir defnyddio'r un ddogfen ag uchod, neu ddefnyddio dogfen fel bil cyfleustodau neu gyfriflen y dreth gyngor
- Cynllun llawr y fangre/cerbyd. Dylai hwn fod ar ffurf lluniad wedi'i anodi o'r holl ystafelloedd sy'n rhan o'r busnes triniaethau arbennig ac sy'n rhan o'r cais.
- Gwiriad DBS sylfaenol ar gyfer y person neu'r personau a enwir ar y ffurflen gais fel y rhai sy'n rheoli'r fangre/cerbyd (os nad yr ymgeisydd yw'r person hwnnw). Os yw'r person yn dod o'r tu allan i'r DU ac nad yw'n gymwys i dderbyn gwiriad DBS, 'tystysgrif cymeriad da' wedi'i chyhoeddi gan y wlad lle'r oedd yn gweithredu'n flaenorol. Ni ddylai'r tystysgrifau hyn fod yn hŷn na 28 diwrnod cyn dyddiad y cais.
- Prawf o gwblhau cymhwyster Lefel 2 rheoleiddiedig mewn atal a rheoli heintiau ar gyfer triniaethau arbennig.
- Prawf o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys neu drefniadau yswiriant tebyg.

- 11.14 Mae'r meini prawf cymeradwyo a'r dystiolaeth ddogfennol wedi'u seilio ar y meini prawf trwyddedu a'r dystiolaeth ddogfennol sy'n ofynnol ar gyfer trwydded ymarferydd (gweler [Adran 6](#)).
- 11.15 Gellir tynnu llun o gynllun y llawr â llaw, ond rhaid iddo fod wrth raddfa, ac yn gywir, yn glir a darllenadwy. Dylai ddangos:
- Uchafswm nifer yr ymarferwyr triniaeth arbennig a all weithredu ar unrhyw bryd
 - Lleoliad pob ystafell a gweithfan (gan gynnwys yr ardal lle rhoddir y driniaeth/triniaethau arbennig, y toiledau, yr ystafelloedd staff a'r ardaloedd aros).
 - Drysau a ffenestri
 - Gosodion a ffitiadau, gan gynnwys basnau golchi dwylo, sinciau offer, a manau storio
 - Gellir ychwanegu nodiadau a theitlau hefyd er eglurhad.
- 11.16 Gall person wneud cais am drwydded triniaethau arbennig a thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd ar yr un pryd, ar ôl llenwi'r ffurflenni perthnasol, darparu dogfennau ategol a thalu'r ffioedd perthnasol.

Y broses ymgeisio

- 11.17 Bydd ymgeiswyr yn gallu gwneud cais naill ai yn Gymraeg neu Saesneg gan y bydd yr holl ddeunyddiau ymgeisio ar gael yn y ddwy iaith, ac ymdrinnir â'u cais yn eu dewis iaith. Ar ôl derbyn pob ffurflen gais am dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd, y dogfennau gofynnol a'r ffi, bydd yr awdurdod lleol yn edrych ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd ac yn penderfynu a all y cais symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol yn gofyn am ragor o wybodaeth i gynnig esboniad gwell o'r hyn a ddarparwyd eisoes gan yr ymgeisydd, os ydynt o'r farn fod yr wybodaeth yn anghyflawn.
- 11.18 Bydd yr awdurdod lleol yn hysbysu'r ymgeisydd pan fo'r cais wedi pasio drwy'r broses gychwynnol. Bydd yr ymgeisydd wedyn yn cael gwahoddiad i drefnu apwyntiad i swyddog awdurdod lleol gynnal ymweliad arolygu, lle bydd yn rhaid i'r ymgeisydd fod yn bresennol, ynghyd ag unrhyw rai eraill a enwir ar y ffurflen fel personau sydd â rheolaeth dros yr eiddo (os nad yr ymgeisydd). Bydd yr ymweliad hwn yn gyfle i'r swyddog archwilio'r fangre/cerbyd, yr offer ac unrhyw systemau cadw cofnodion, ac i siarad drwy brosesau ar gyfer y triniaethau arbennig a roddir yn y fangre, ac i wirio bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen gais, gan gynnwys y cynllun llawr, yn adlewyrchu'r safonau a geir yn y fangre. O ganlyniad i'r ymweliad arolygu hwn, gall yr awdurdod argymhell un o'r canlynol:
- Cymeradwyo'r fangre/cerbyd a rhoi'r dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd
 - Gwneud argymhellion ynghylch unrhyw waith ychwanegol y mae'n rhaid ei gwblhau er mwyn cyrraedd y safon sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol, a fydd wedyn yn rhoi'r dystysgrif cymeradwyo mangre cerbyd, neu
 - Wrthod y cais, gan nodi'r rhesymau am hynny a'r camau nesaf y gellir eu cymryd.

Gwrthod tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd ac apelio

11.19 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau ynghylch apelio yn erbyn cais am gymeradwyaeth sydd wedi'i wrthod. **Rydym yn cynnig** y bydd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol, os yw'n gwrthod cais, roi hysbysiad gwrthod i'r ymgeisydd, gan nodi'r rhesymau dros wrthod a'i gynghori ynghylch yr hawl i apelio. Caniateir hawl i apelio i'r llys ynadon i ddechrau, ac yn y pen draw i Lys y Goron. Os bydd penderfyniad yr awdurdod lleol yn cael ei gadarnhau, ni fydd y fangre/cerbyd yn cael ei chymeradwyo/gymeradwyo ar gyfer roi triniaethau arbennig.

Cymeradwyo tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd triniaethau arbennig

11.20 Pan fo'r ymgeisydd wedi cwblhau pob cam o'r broses ymgeisio yn llwyddiannus, bydd yr awdurdod lleol yn ei hysbysu bod ei gais wedi'i gymeradwyo a bod ei dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd wedi'i chaniatáu. Mae adran 71 yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys ar y dystysgrif; y dyddiad cymeradwyo a dod i ben, y triniaethau arbennig sydd wedi'u cymeradwyo i'w rhoi yn y fangre neu'r cerbyd, cyfeiriad y fangre ac, yn achos cerbyd, y rhif cofrestru (neu os nad yw'n bresennol, manylion adnabod y cerbyd fel yr ystyrir yn briodol).

11.21 Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i amlinellu darpariaethau pellach ynghylch ffurf a chynnwys y tystysgrifau cymeradwyo. Trafodir hyn yn [adran 4](#) ac mae'r dystysgrif y bwriadwn ei mandadu yn [Atodiad C](#). **Rydym yn cynnig** y dylai'r dystysgrif hefyd gynnwys:

- Enw'r sawl sy'n gyfrifol am y fangre gymeradwy/cerbyd cymeradwy
- Uchafswm y gweithfannau a ganiateir yn y fangre/cerbyd.

11.22 Rydym yn cynnig y dylid pennu uchafswm o weithfannau ar gyfer pob mangre, gan mai darparu gofod digonol mewn ardaloedd triniaethau, yn enwedig ar gyfer pob gweithfan, yw un o'r ystyriaethau pwysicaf er mwyn cynnal safonau da wrth reoli haint. Bydd uchafswm y gweithfannau y gellir eu defnyddio mewn unrhyw ardal/ystafell driniaethau yn dibynnu ar y gofod sydd ar gael. Yr egwyddor y dylid ei mabwysiadu yw cadw digon o ofod i gynnal gweithgarwch triniaethau arbennig, ac i osgoi croes-halogi rhwng gweithfannau cyfagos a rhwng yr ymarferydd a'r cleient. Mae'r dull heintio (uniongyrchol, anuniongyrchol, tasgu a thrwy'r awyr) yn gysyniad sylfaenol wrth atal croes-halogi ac yn creu goblygiadau uniongyrchol o ran atal heintiau.

11.23 Rhagwelir y ceir amodau cymeradwyo mandadol sy'n ymwneud â'r fangre/cerbyd yn gysylltiedig â'r dystysgrif.

11.24 Bydd y dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd triniaethau arbennig yn ddilys am dair blynedd. Bydd y dyddiad cymeradwyo a'r dyddiad dod i ben, y rhif adnabod, enw'r trwyddedai, y fangre/cerbyd cymeradwy a'r triniaethau a awdurdodir wedi'u cynnwys ar gofrestr gyhoeddus o driniaethau arbennig.

11.25 Bydd yn ofynnol i arddangos y dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd triniaethau arbennig mewn man amlwg yn y fangre/cerbyd cymeradwy, ee ar y ffenestr neu ar

ddrws lle gall pobl ei gweld cyn mynd i mewn i'r fangre/cerbyd. Trafodir y dystysgrif cymeradwyo yn [adran 4](#) ac fe'i gwelir yn [Atodiad C](#).

Cwestiynau'n ymwneud ag 11: meini prawf cymeradwyo a'r broses ymgeisio ar gyfer tystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd

Cwestiwn 25 - Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymeradwyo a gynigir ar gyfer ceisiadau cymeradwyo mangre/cerbyd a'r dogfennau ategol a restrir? A ddylai ymgeiswyr orfod cyflwyno unrhyw ddogfennau eraill?

Cwestiwn 26 – Ydych chi'n cytuno na ddylai deiliaid trwyddedau ymarferydd dan hyfforddiant allu gwneud cais am dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd yn eu hawl ei hunain, na chael eu henwebu fel y sawl sy'n gyfrifol am fangre ar ffurflen gais?

Cwestiwn 27 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ynghylch apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod cais am gymeradwyaeth mangre a cherbyd, fel y nodir ym mharagraff 11.19?

Cwestiwn 28 - Ydych chi'n cytuno y dylai'r dystysgrif cymeradwyo hefyd gynnwys enw'r sawl sy'n gyfrifol ac uchafswm y gwethfannau yn y fangre honno/cerbyd hwnnw?

Crynodeb – Tystysgrifau Cymeradwyo Mangre a Cherbyd

- Mae'n berthnasol i aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych), tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio (gan gynnwys colur lled-barhaol).
- Os ydych chi'n gyfrifol am fangre neu gerbyd lle rhoddir unrhyw un o'r triniaethau arbennig hynny, bydd angen ichi gael tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd. Gallwch wneud cais yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Mae hyn yn berthnasol i bawb – hyd yn oed os yw eich mangre wedi'i chofrestru gyda'ch awdurdod lleol o dan Ddeddf 1982.
- Os oes gennych chi dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd, bydd yn dal angen ichi gael trwydded ymarferydd triniaethau arbennig os ydych chi'n bwriadu rhoi unrhyw un o'r triniaethau eich hun. Gallwch wneud cais am drwydded triniaethau arbennig ar yr un pryd â'r cais am y dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd.
- Bydd angen i bob ymarferydd triniaethau arbennig sy'n gweithio yn eich mangre/cerbyd cymeradwy fod yn drwyddedig, p'un a ydynt yn gyflogeion neu'n llogi cadair neu ystafell o fewn eich mangre.
- Bydd angen ichi gymryd rhai camau cyn ichi allu gwneud cais am dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd. Mae hyn yn cynnwys cael cynllun llawr o'r rhannau o'r fangre a ddefnyddir ar gyfer y triniaethau, derbyn gwiriad DBS sylfaenol, sicrhau bod eich yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol, cyflwyno prawf adnabod a phasio cymhwyster atal a rheoli heintiau lefel 2 rheoleiddiedig mewn triniaethau arbennig. Dyma'r meini prawf y byddwn yn eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn, ac yn gofyn cwestiwn yn eu cylch.
- Byddwch yn gwneud cais i'r awdurdod lleol yn yr ardal y mae'r fangre ynddi, neu y mae'r cerbyd ynddi, neu'r ardal y mae'n debygol o gael ei yrru iddi, ei ddefnyddio neu ei gadw. Os ydych yn byw y tu allan i Gymru ac yn bwriadu dod â cherbyd i Gymru i'w ddefnyddio fel man ymarfer, dylech wneud cais i'r awdurdod lleol lle byddwch yn gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith. Byddant am siarad â chi ac archwilio'r fangre neu'r cerbyd yn rhan o'r broses ymgeisio.
- Os ydych yn gyfrifol am fwy nag un fangre, bydd yn rhaid ichi wneud cais ar wahân am bob mangre i'r awdurdod lleol yn yr ardal y mae pob mangre wedi'i lleoli ynddi. Hyd yn oed os oes gennych chi ddwy fangre o fewn yr un ardal awdurdod lleol.
- Rydym wedi cynnig y dylai'r broses a'r ffioedd ymgeisio fod yr un peth, pa le bynnag y byddwch yn ymgeisio yng Nghymru.
- Bydd amodau cymeradwyo mandadol yn gysylltiedig â'ch tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd y mae'n rhaid ichi eu dilyn - bydd y rhain yr un peth ar gyfer pob mangre neu gerbyd d/tebyg yng Nghymru.
- Bydd y triniaethau arbennig y mae eich mangre wedi'i chymeradwyo ar eu cyfer wedi'u nodi ar eich tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd. Bydd naill ai'n ddilys am dair blynedd neu am saith niwrnod yn unig ar gyfer digwyddiadau dros dro.

12. Amodau mandadol ar gyfer cymeradwyo mangreoedd/cerbydau

- 12.1 Rydym wedi awgrymu amodau cymeradwyo mangre/cerbyd mandadol enghreifftiol yn [Atodiad Ch2](#). **Darllenwch y rhain yn ofalus gan eu bod yn cynnwys enghreifftiau o'r hyn a allai gael ei gynnwys yn y rheoliadau terfynol.** Byddai'r amodau mandadol hyn yn berthnasol ar hyn o bryd i bob mangre a cherbyd cymeradwy. Byddai hyn yn cynnwys cymeradwyaeth dros dro ar gyfer mangreoedd a cherbydau. Fodd bynnag, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau o dan adran 70 a fyddai'n caniatáu cymhwyso amodau cymeradwyo mandadol gwahanol i wahanol fangreoedd a cherbydau. Byddem felly'n croesawu eich sylwadau ynghylch hyn.

Amrywio tystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd presennol

- 12.2 Cydnabyddir y gallai deiliaid tystysgrif mangre/cerbyd fod eisiau amrywio neu newid manylion eu Tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd tra bo'r Dystysgrif yn dal yn ddilys. Gall hyn fod am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys newid y triniaethau y mae'r fangre/cerbyd wedi'i th/drwyddedu ar eu cyfer, newid perchnogaeth neu newid trefniadau gwaith neu'r cynllun llawr. Rhagwelir y bydd y newidiadau hyn yn cael eu gwneud drwy gwblhau ffurflen amrywio. Caiff awdurdodau lleol godi ffi am brosesu'r ffurflen amrywio.
- 12.3 Bydd angen cyflwyno cais newydd llawn os bydd busnes neu reolaeth mangre yn newid. Caiff awdurdodau lleol godi ffi am hyn, hyd yn oed os bydd y fangre yn parhau i fasnachu yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Y rheswm am hyn yw y gallai'r rheolwyr newydd gyflwyno addasiadau i'r fangre, y triniaethau neu'r trefniadau staffio a gymeradwywyd yn flaenorol. Bydd angen gwirio hefyd fod cymhwyster atal a rheoli heintiau lefel 2 rheoleiddiedig wedi'i gwblhau ac yswiriant atebolrwydd mangre wedi'i drefnu.
- 12.4 Os na fydd mangre/cerbyd yn cael ei d/ddefnyddio mwyach ar gyfer triniaethau arbennig, beth bynnag fo'r rheswm am hynny, tra bo'i th/dystysgrif yn dal yn ddilys, gall deiliad y dystysgrif hysbysu'r awdurdod lleol o'i fwriad. **Rydym yn cynnig** y dylai hyn fod yn ofynnol, ac y dylai hefyd ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau eraill a roddir gan yr awdurdod lleol, i roi'r gorau i ymarfer ac ildio'i drwydded.
- 12.5 Os bydd deiliad tystysgrif yn rhoi'r gorau i ymarfer ac yn ildio ei dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd, bydd yn rhaid iddo wneud cais newydd os yw'n dymuno dechrau ymarfer eto yn y dyfodol.

Adnewyddu tystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd presennol

- 12.6 Bydd angen i ddeiliaid tystysgrif wneud cais bob tair blynedd i adnewyddu eu tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd ymlaen llaw, heb fod yn hwyrach na 28 diwrnod calendr cyn y dyddiad dod i ben a ddangosir ar eu tystysgrif.
- 12.7 Os cafwyd newidiadau ers y tro diwethaf i'r dystysgrif gael ei hadnewyddu, bydd angen cynnwys ffurflen amrywio gyda'r ffurflen adnewyddu.

- 12.8 Codir ffi ymgeisio am bob cais i adnewyddu tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd, a lle gofynnir am gael amrywio neu newid triniaethau ar y dystysgrif, neu i amrywio'r gwaith, bydd y rhain yn mynd drwy'r un broses benderfynu (gan gynnwys gofyniad am arolygiad) â chais cyntaf am dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd triniaethau arbennig.

Cwestiynau'n ymwneud ag 12: amodau mandadol ar gyfer cymeradwyo mangreoedd/cerbydau

Cwestiwn 29 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau am yr amodau mandadol enghreifftiol ar gyfer cymeradwyo mangreoedd/cerbydau a nodir yn Atodiad Ch2?

Cwestiwn 30 – Cynigiwn ein bod yn gwneud rheoliadau o dan adran 70 o'r Ddeddf yn gysylltiedig â'r broses amrywio ac adnewyddu ar gyfer tystysgrifau cymeradwyo mangreoedd i'w gwneud yn gyson â'r broses amrywio ac adnewyddu ar gyfer trwyddedau ymarferydd. Ydych chi'n cytuno?

13. Trwyddedau triniaeth arbennig a thystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd dros dro nad ydynt yn weithredol am fwy na saith niwrnod

- 13.1 Mae'r Ddeddf yn caniatáu rhoi trwyddedau a thystysgrifau dros dro am saith niwrnod yn unig i drwyddedu ymarferwyr a chymeradwyo mangreoedd a cherbydau. Ceir nifer o wahanol amgylchiadau wedi'u cyfyngu gan amser lle byddai'n briodol gwneud cais am y mathau hyn o drwyddedau a chymeradwyaeth.
- 13.2 Ar gyfer ymarferwyr nad ydynt yn gweithredu yng Nghymru neu nad ydynt ond yn rhoi triniaethau arbennig yn achlysurol, ac nad oes ganddynt felly eu trwydded triniaethau arbennig tair blynedd eu hunain:
- sy'n rhoi 'sesiwn ymarferydd gwadd' mewn mangre gymeradwy (neu gerbyd cymeradwy)
 - sy'n rhoi triniaeth/triniaethau arbennig mewn confensiwn neu ddigwyddiad diwydiant/masnach
 - sy'n rhoi triniaeth/triniaethau arbennig mewn gŵyl (gerddorol, gelfyddydol neu gymunedol).
- 13.3 Ar gyfer mangreoedd/cerbydau nad oes ganddynt dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd tair blynedd:
- Trefnydd y digwyddiad sy'n gyfrifol am drefnu, cynnal a rheoli digwyddiad dros dro fel arddangosfa, confensiwn neu ŵyl awyr agored.
 - Unigolyn sy'n dymuno llogi gofod/lleoliad, defnyddio'i gerbyd fel strwythur dros dro mewn gŵyl neu ddigwyddiad i roi triniaeth/triniaethau arbennig.

- 13.4 Ni fydd trwyddedau na thystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd dros dro yn ddilys am gyfnod hwy na saith niwrnod, yn dibynnu ar amgylchiadau pob digwyddiad y cânt eu rhoi ar eu cyfer. Mae'n bosibl na fyddant felly ond yn ddilys am ddiwrnod, neu hyd at saith niwrnod. Mae hynny'n golygu y bydd angen i'r trefnydd neu'r ymarferydd wneud cais newydd ar gyfer pob digwyddiad.

Trwydded triniaeth arbennig dros dro

- 13.5 Bydd yn rhaid i unrhyw ymarferydd triniaethau arbennig sy'n dymuno gweithio yng Nghymru dros dro (er enghraifft drwy fynd i ddigwyddiad i arddangos ei waith) wneud cais i'r awdurdod lleol perthnasol yn yr ardal y mae'n dymuno gweithio ynddi dros dro, i wneud cais am drwydded triniaethau arbennig dros dro. Cyhoeddir y drwydded hon am gyfnod heb fod yn hwy na saith niwrnod. Os bydd mangre/cerbyd dros dro eisoes wedi'i nodi ar ei drwydded tair blynedd, ni fydd angen iddo amrywio ei drwydded. Os nad yw wedi'i nodi, bydd angen iddo amrywio ei drwydded i nodi'r fangre/cerbyd dros dro hwnnw ar gyfer y digwyddiad/arddangosfa dros dro dan sylw.
- 13.6 **Rydym yn cynnig** y bydd yr un meini prawf trwyddedu'n berthnasol â'r meini prawf ar gyfer trwydded triniaethau arbennig tair blynedd, gan gynnwys y gofyniad i ennill cymhwyster Rheoli ac Atal Haint Lefel 2 Rheoleiddiedig. Bydd angen i'r ymarferydd gyflwyno'r ffurflen gais gyda'r dogfennau angenrheidiol o leiaf 28 diwrnod cyn y bydd angen y drwydded triniaethau arbennig.

Tystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd dros dro

- 13.7 Mae Adran 69 yn trin trefnydd y digwyddiad fel y sawl sy'n cynnal busnes triniaethau arbennig hyd ddiwedd y digwyddiad, a'r fangre lle cynhelir y digwyddiad fel mangre'r busnes.
- 13.8 Yn achos digwyddiad diwydiant/masnach, arddangosfa neu gynhadledd bydd trefnydd y digwyddiad yn gwneud cais i'r awdurdod lleol lle cynhelir y digwyddiad/arddangosfa am dystysgrif cymeradwyo mangre dros dro. Byddai trefnydd y digwyddiad yn gyfrifol am sicrhau bod y fangre/cerbyd yn cael ei ch/gymeradwyo gan yr awdurdod lleol a bod y fangre/cerbyd yn gallu cydymffurfio â'r amodau cymeradwyo mandadol. Bydd angen i drefnydd y digwyddiad gyflwyno cais gyda'r dogfennau angenrheidiol o leiaf 56 diwrnod cyn y disgwylir i'r digwyddiad ddechrau.
- 13.9 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau sy'n caniatáu i fangreoedd/cerbydau penodol fod yn esempt o'r gofynion hyn (hy, cael eu cymeradwyo ac/neu gydymffurfio ag amodau cymeradwyo mandadol). Rydym wedi nodi ein cynigion i wneud rhai mangreoedd/cerbydau yn esempt o'r gofynion hyn (gweler [adran 7](#)). O ran digwyddiadau/arddangosfeydd dros dro, rydym yn cynnig bod yn rhaid i bob mangre/cerbyd gael ei ch/gymeradwyo gan yr awdurdod lleol. Bydd y mangreoedd/cerbydau hyn hefyd yn gorfod bodloni amodau cymeradwyo mandadol. Ar hyn o bryd, byddai'n rhaid i fangreoedd/cerbydau dros dro fodloni'r un amodau cymeradwyo mandadol â phob mangre/cerbyd. Gellir gwneud rheoliadau fel bod amodau cymeradwyo mandadol penodol yn berthnasol wrth gymeradwyo mangreoedd/cerbydau dros dro (gweler paragraff 12.1 a'r cwestiwn cyfatebol).

- 13.10 Wrth wneud cais am dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd dros dro, **rydym yn cynnig** y bydd yn ofynnol i drefnydd y digwyddiad fodloni'r un meini prawf cymeradwyo a gynigir ag ymgeisydd sy'n ymgeisio am dystysgrif cymeradwyo mangre tair blynedd, onid oes ganddo eisoes drwydded triniaethau arbennig tair blynedd, neu dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd ddilys.
- 13.11 Mae'n rhaid nodi'r 'dyddiad cymeradwyo' ar dystysgrif gymeradwyo. Ar gyfer cymeradwyaethau dros dro mae hyn yn golygu'r cyfnod pan fydd y gymeradwyaeth mewn grym, hy, cyfnod heb fod yn hwy na saith niwrnod, gan ddechrau ar ddyddiad cyhoeddi'r dystysgrif cymeradwyo.
- 13.12 Mae'n rhaid i dystysgrifau cymeradwyo gynnwys gwybodaeth benodol (gweler paragraff 11.21). Gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ychwanegu rhagor o fanylion ac yn nodi pethau eraill i'w cynnwys ar y dystysgrif cymeradwyo ei hun. Rydym yn cynnig y byddai angen yr un wybodaeth ychwanegol arfaethedig ar dystysgrif cymeradwyo dros dro â'r dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd tair blynedd:
- Enw'r person sy'n gyfrifol (a allai olygu trefnydd y digwyddiad) am y fangre gymeradwy/cerbyd cymeradwy
 - Uchafswm y gweithfannau a ganiateir yn y fangre/cerbyd.

Cwestiynau'n ymwneud ag 13: trwyddedau ymarferydd a thystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd dros dro nad ydynt yn para mwy na saith niwrnod

Cwestiwn 31 - A ddylid gosod yr un amodau cymeradwyo mandadol wrth gymeradwyo mangreoedd a cherbydau dros dro â'r amodua a osodir ar gyfer pob mangre/cerbyd? Os ddim, pa amodau cymeradwyo mandadol penodol (os o gwbl) a ddylai fod yn berthnasol wrth gymeradwyo mangreoedd a cherbydau dros dro?

Cwestiwn 32 – Ydych chi'n cytuno bod mynnu'r un meini prawf trwyddedu ar gyfer trwydded ymarferydd dros dro ag ar gyfer trwydded tair blynedd yn gymesur?

Cwestiwn 33 – Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n gymesur i drefnydd digwyddiadau sy'n gwneud cais am dystysgrif cymeradwyo mangre dros dro fodloni'r un meini prawf cymeradwyo ag ar gyfer tystysgrif cymeradwyo mangre tair blynedd.

Cwestiwn 34 – Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn rhaid i bob mangre/cerbyd sy'n gysylltiedig â digwyddiad/arddangosfa dros dro gael ei chymeradwyo/gymeradwyo gan yr awdurdod lleol. Os ddim, pam ddim?

Cwestiwn 35 – A ddylid gosod amodau cymeradwyo mandadol ar gyfer pob mangre/cerbyd sy'n gysylltiedig â digwyddiadau/arddangosfeydd?

Cwestiwn 36 – Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys gwybodaeth bellach o fewn tystysgrif cymeradwyo dros dro (fel yr awgrymwyd ym mharagraff 13.12)? Pa wybodaeth arall a ddylai fod yn ofynnol (os o gwbl)?

14. Cofrestr Gyhoeddus o Drwyddedau Triniaeth Arbennig a Thystysgrifau Cymeradwyo Mangre/Cerbyd

- 14.1 Mae adran 75 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gadw a chyhoeddi cofrestr o'r holl drwyddedau triniaeth arbennig a'r holl dystysgrifau mangre/cerbyd y maent wedi'u cymeradwyo, ac sy'n gyfredol ddilys. Mae'n rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'w gwirio gan aelodau o'r cyhoedd. Mae'r Ddeddf yn nodi'r wybodaeth am drwyddedau/tystysgrifau y mae'n rhaid ei chynnwys ar y gofrestr.
- 14.2 Ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig mae hyn yn cynnwys:
- enw deiliad y drwydded
 - dyddiad cyhoeddi'r drwydded
 - y driniaeth arbennig/triniaethau arbennig y caiff deiliad y drwydded ei/eu rhoi
 - cyfnod y drwydded (tair blynedd neu uchafswm o saith niwrnod ar gyfer trwyddedau dros dro).
- 14.3 Ar gyfer tystysgrifau cymeradwyo mangre mae hyn yn cynnwys:
- enw'r sawl y rhoddwyd tystysgrif iddo yn dilyn cais
 - cyfeiriad y fangre lle awdurdodir rhoi'r driniaeth arbennig
 - y driniaeth arbennig/triniaethau arbennig sydd wedi'u cynnwys yn rhan o'r dystysgrif
 - y dyddiad pan roddwyd y dystysgrif
 - hyd y dystysgrif (tair blynedd neu uchafswm o saith niwrnod ar gyfer cymeradwyaethau dros dro).
- 14.4 Ar gyfer tystysgrifau cymeradwyo cerbydau mae hyn yn cynnwys:
- enw'r sawl y rhoddwyd tystysgrif iddo yn dilyn cais
 - rhif cofrestru'r cerbyd
 - os nad oes rhif cofrestru ar y cerbyd, unrhyw fanylion a ystyrir yn briodol gan yr awdurdod er mwyn gallu adnabod y cerbyd
 - y driniaeth arbennig/triniaethau arbennig sydd wedi'u cynnwys yn rhan o'r dystysgrif
 - y dyddiad pan roddwyd y dystysgrif
 - hyd y dystysgrif (tair blynedd neu uchafswm o saith niwrnod ar gyfer cymeradwyaethau dros dro).
- 14.5 Mae'n rhaid i'r gofrestr gofnodi'r wybodaeth hon fel gofyniad mandadol sylfaenol, a thrwy wneud cais, mae'r ymgeisydd i bob pwrpas yn cydsynio i gyhoeddi'r wybodaeth hon am y drwydded/dystysgrif os caiff ei chymeradwyo. Y bwriad wrth wraidd y gofyniad hwn yw creu cofnod cyhoeddus o drwyddedau/tystysgrifau sydd wedi cael eu cymeradwyo ac sy'n dal yn gyfredol er mwyn i awdurdodau lleol a darpar gleientiaid allu gwirio statws trwydded ymarferydd neu statws cymeradwyo mangre/cerbyd. Gall awdurdodau lleol gynnwys gwybodaeth arall ar y gofrestr hon os ydynt yn tybio bod hynny'n briodol, ond bydd angen cytuno ar unrhyw wybodaeth ychwanegol fel hyn ar gyfer Cymru gyfan. Bydd unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei chyfyngu i'r

wybodaeth sy'n ymwneud â'r drwydded neu'r dystysgrif gymeradwyo, yn hytrach na'r unigolion sy'n eu dal, ee,:

- rhif adnabod y drwydded/dystysgrif
- a yw'n drwydded hyfforddai ai peidio
- manylion y dyddiad arolygu (mangre/cerbyd)
- unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd yn erbyn yr ymarferydd neu'r sawl sy'n gyfrifol am y fangre/cerbyd, gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau camau adfer, hysbysiadau atal ac erlyniadau.

14.6 **Rydym hefyd yn cynnig** y bydd y data a gesglir yn ddiennw ac yn cael eu defnyddio i ddibenion monitro, ac yn cynnwys:

- Nifer y trwyddedau ymarferydd a gymeradwywyd yn ôl triniaeth arbennig (trwyddedau tair blynedd a thrwyddedau heb fod yn hwy na saith niwrnod)
- Nifer y tystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd a gymeradwywyd (tair blynedd a heb fod yn hwy na saith niwrnod)
- Nifer yr amrywiadau ac adnewyddiadau a broseswyd
- Nifer yr hysbysiadau camau adfer a gyflwynwyd
- Nifer yr hysbysiadau atal a roddwyd
- Nifer y dirymiadau a broseswyd
- Nifer yr ymweliadau ymatebol a rhagweithiol a wnaed â'r ymarferwyr a'r mangreoedd.

14.7 Mae adran 75 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i un awdurdod lleol sefydlu a chadw cofrestr ganolog ar raddfa Cymru gyfan ar ran yr holl 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mantais hyn yw sicrhau bod y data a gyhoeddir gan bob awdurdod lleol ar gael mewn un lle, er hwylustod i'r cyhoedd ac er mwyn i'r 22 o awdurdodau lleol rannu'r risg o gynnal y gofrestr. Bydd y gofrestr felly'n cynnwys Cymru gyfan ac ar gael i'w gwirio gan y cyhoedd.

14.8 Wrth gynnal yr ymgynghoriad, mae awdurdodau lleol wedi mynegi wrth Weinidogion Cymru eu bod yn dymuno canlyn yr opsiwn o gael un gofrestr ganolog ar gyfer Cymru gyfan, y byddant oll yn cyfrannu ati. Bydd y gofrestr gyhoeddus ar-lein ac mae gwaith TG wedi cael ei gomisiynu i greu'r gofrestr ar-lein a'r gronfa ddata o drwyddedau a chymeradwyaethau a fydd yn sail iddi. Y bwriad felly, pan ddaw Rhan 4 o'r Ddeddf i rym (gan gynnwys y rheoliadau'n gysylltiedig â'r cynllun trwyddedu), yw y bydd Gweinidogion Cymru yn arfer eu pwerau o dan adran 75 ac yn pennu awdurdod lleol arweiniol i gynnal y gofrestr ganolog, a bydd yn gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru gymryd rhan a chyfrannu at gost y trefniadau hynny, ac i rannu gwybodaeth â'r awdurdod lleol arweiniol.

15. Ffioedd

15.1 Yn fras, drafftwyd y darpariaethau ynghylch ffioedd yn y Ddeddf yn ofalus i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag achos Hemming v Cyngor Dinas San Steffan. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf i Weinidogion Cymru ragnodi swm y ffioedd i'w codi o dan y cynllun trwyddedu newydd. Gan hynny, wrth godi ffi o dan y cynllun trwyddedu, bydd

yn ofynnol i bob awdurdod lleol gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf yn ogystal â'u hatgoffa eu hunain ynghylch yr egwyddorion angenrheidiol mewn cyfraith achosion.

Ffioedd ymgeisio am drwydded

- 15.2 Os oes gan awdurdod lleol bŵer i godi ffi yn gysylltiedig â cheisiadau am drwydded, mynegir yn glir yn y Ddeddf mai'r awdurdod lleol sydd i benderfynu ar swm y ffi a godir. Mae'r pŵer i awdurdodau lleol bennu'r ffi am gais am drwydded wedi'i gynnwys ym mharagraff 3(2) o Atodlen 3 y Ddeddf. Dylai'r awdurdod lleol bennu'r ffi honno (os codir ffi o gwbl) gan roi sylw i'r costau a ysgwyddir neu y disgwylir iddynt gael eu hysgwyddo gan yr awdurdod er mwyn ymdrin â cheisiadau (paragraff 3(3)).
- 15.3 Fodd bynnag, gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau (o dan baragraff 4(4)(a) o Atodlen 3) ynghylch y modd y bydd awdurdod lleol yn pennu swm y ffi a godir wrth gyflwyno cais iddo. Mae gan awdurdodau lleol brofiad o bennu ffioedd ar sail genedlaethol, a rhagwelir y bydd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn cytuno ymysg ei gilydd ar swm y ffioedd sydd i'w codi am bob agwedd ar y cynllun trwyddedu mandadol i Gymru gyfan, gan gynnwys ffioedd adnewyddu ac amrywio, ac y bydd ffioedd yn cael eu hadolygu a'u cytuno bob tair blynedd i fod yn gyson â'r cylch adnewyddu.
- 15.4 Mynegir yn glir yn y Ddeddf hefyd y caiff awdurdodau lleol godi ffi yn gysylltiedig ag adnewyddu trwydded (Paragraff 9(3)(c) o Atodlen 3), ac amrywio trwydded (Paragraff 12(1)(b) o Atodlen 3). **Rydym yn cynnig** y byddai'r rheoliadau felly yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gael dull cyson o bennu swm y ffi ymgeisio, gan egluro, er enghraifft, yr hyn y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei ystyried wrth bennu lefel y ffi neilltuol a darpariaethau i adolygu/gytuno ar lefel y ffi a godir bob tair blynedd.

Ffioedd cais cymeradwyo mangre/cerbyd

- 15.5 O dan adran 70, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau ynghylch y modd y gwneir ceisiadau am gymeradwyaeth mangre/cerbyd ac yr ymdrinnir â'r ceisiadau hynny (gan gynnwys talu ffi yn gysylltiedig â chais). Caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud rheoliadau ynghylch adnewyddu ac amrywio cymeradwyaethau. Rhagwelir felly y bydd yr awdurdod lleol yn gallu codi ffi yn gysylltiedig ag adnewyddu ac amrywio cymeradwyaethau, a hefyd am gais o gopi o dystysgrif cymeradwyo. Gall y rheoliadau gynnwys darpariaeth ynghylch sut y dylai awdurdod lleol bennu faint o ffi sy'n daladwy yn gysylltiedig â cheisiadau. Gwneir darpariaeth hefyd ynghylch goblygiadau diffyg cydymffurfio â gofyniad i dalu ffi (gan gynnwys caniatáu i'r awdurdod lleol wrthod bwrw ymlaen â'r cais am gymeradwyaeth) (adran 70(8)).
- 15.6 **Rydym yn cynnig** y byddai'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol fod â dull cyson o bennu faint o ffi a godir am gais am gymeradwyaeth, gan ddangos enghraifft o'r hyn y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei ystyried wrth bennu lefel y ffi ymgeisio, gan gynnwys darpariaethau i adolygu/gytuno ar lefel y ffi a godir bob tair blynedd.

Ffioedd Adran 76

- 15.7 Ar wahân i'r ffioedd am geisiadau cychwynnol am drwydded a chymeradwyaeth, mae'r Ddeddf yn galluogi awdurdod lleol i godi ffi ar ddeiliad trwydded triniaethau arbennig neu dystysgrif cymeradwyo mangre neu gerbyd. Bydd y ffi hon yn cael ei chodi ar ôl rhoi trwydded neu dystysgrif gymeradwyo, a bwriedir iddi dalu'r gost o gynnal y cynllun o ddydd i ddydd, gan gynnwys cyngor a chymorth i ddeiliaid trwydded, gorfodi, ymchwilio i gwynion, monitro cydymffurfiaeth ac ymweliadau. Mae gan yr awdurdod lleol y pŵer i bennu'r ffi adran 76 ar gyfer trwyddedau a chymeradwyaethau mangreoedd/cerbydau (adran 76(3)). Gellir cymhwyso'r ffi adran 76 naill ai fesul cyfnod, neu fel arall hyd ddiwedd y cyfnod pan fo'r drwydded/gymeradwyaeth mewn grym. Unwaith eto, mae'r adran hon wedi'i drafftio i sicrhau bod awdurdod lleol yn cydymffurfio ag egwyddorion achos *Hemming v Cyngor Dinas San Steffan*.
- 15.8 O dan adran 76 caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau:
- ynghylch y modd y bydd awdurdod lleol yn pennu swm y ffi adran 76, gan roi sylw i'r costau a ysgwyddir gan yr awdurdod, neu y disgwylir i'r awdurdod eu hysgwyddo
 - ynghylch y modd y telir, ac yr ad-delir (os ceir gordaliad), y ffi adran 76
 - adennill unrhyw ffi adran 76 sydd heb ei thalu.
- 15.9 **Rydym felly'n cynnig** bod rheoliadau'n cael eu drafftio i wneud darpariaeth ynghylch sut y gall awdurdodau lleol bennu swm y ffi adran 76, (gan roi sylw i'r costau a ysgwyddir gan yr awdurdod, neu y disgwylir i'r awdurdod eu hysgwyddo) yn ogystal â'r modd y telir, yr ad-delir neu yr adenillir y ffi, os nas talwyd.
- 15.10 Mewn perthynas ag adennill ffioedd heb eu talu, rydym yn cynnig y dylai'r awdurdod lleol gymryd y camau canlynol:
- os nad yw unigolyn wedi talu ffi adran 76, ni fyddai'n gallu symud ymlaen i wneud cais i adnewyddu/amrywio trwydded neu dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd nes i'r ffi sy'n weddill gael ei thalu
 - ni fyddai unigolyn yn gallu ailymgeisio am drwydded/cymeradwyaeth newydd (hyd nes y telir y ffi sy'n ddyledus
 - gallai'r awdurdod lleol ddewis adennill y ffi adran 76 sy'n ddyledus ar ffurf dyled sifil.

Cwestiynau'n ymwneud ag 15: ffioedd

Cwestiwn 37-Ydych chi'n cytuno y dylid pennu'r ffioedd ymgeisio am drwydded yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 15.3 ac 15.4?

Cwestiwn 38 - Ydych chi'n cytuno y dylid pennu'r ffioedd ymgeisio am gymeradwyaeth mangre/cerbyd yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 15.5 ac 15.6?

Cwestiwn 39 – Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheoliadau gynnwys darpariaeth ynghylch sut y dylai awdurdodau lleol bennu swm y ffi a godir ar ddeiliad trwydded neu gymeradwyaeth mangre/cerbyd o dan adran 76 yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 15.7 - 15.9?

Cwestiwn 40 –Ydych chi'n cytuno â'n cynnig ynghylch adennill ffioedd adran 76 nas talwyd yn y modd a amlinellir ym mharagraff 15.10?

16. Gorfodi

Dirymu trwydded

- 16.1 Mae Adran 68 o'r Ddeddf yn caniatáu i awdurdod lleol ddirymu trwydded triniaethau arbennig o dan amodau penodol a nodir yn y Ddeddf. Gall y drwydded gyfan fod wedi'i dirymu, neu rai triniaethau arbennig sydd wedi'u cynnwys ar y drwydded yn unig. **Nid oes angen gwneud unrhyw reoliadau ar gyfer yr adran hon o'r Ddeddf, felly nid yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn cyflwyno'r wybodaeth yn y fan hon er mwyn esbonio'n llawn sut y gweithredir y cynllun a gynigir yn ymarferol.**
- 16.2 Mae'r amodau'n perthyn i nifer o gategoriâu:
- **Diffyg cydymffurfio ag amodau trwyddedu:** os nad yw ymarferydd wedi cydymffurfio ag amodau trwyddedu mandadol perthnasol, a bod yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn achosi risg sylweddol i iechyd dynol.
 - **Troseddau perthnasol:** os ceir deiliad y drwydded yn euog o drosedd berthnasol, naill ai ar ôl rhoi'r drwydded, neu os nad oedd yr awdurdod lleol yn ymwybodol o'r drosedd pan roddwyd y drwydded, a phe bai'n gwybod amdani, na fyddai wedi rhoi'r drwydded o gwbl, neu na fyddai wedi trwyddedu triniaeth arbennig neilltuol.
 - **Datganiadau ffug neu gamarweiniol:** os gwnaeth deiliad y drwydded ddatganiadau anwir neu gamarweiniol wrth wneud cais am y drwydded (neu unrhyw amrywiad neu adnewyddiad) ac na fyddai'r awdurdod lleol, o gael yr wybodaeth gywir, wedi rhoi'r drwydded neu na fyddai wedi trwyddedu triniaeth arbennig neilltuol.

- 16.3 Gall ymarferydd apelio yn erbyn penderfyniad i ddirymu trwydded i bwyllgor trwyddedu'r awdurdod lleol i ddechrau, ac wedyn drwy'r llys ynadon a Llys y Goron os oes angen.

Dirymu cymeradwyaeth

- 16.4 Mae adran 73 o'r Ddeddf yn caniatáu i awdurdod lleol ddirymu tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd triniaeth arbennig os yw'n fodlon bod amodau penodol wedi'u bodloni. Mae'r amodau hyn yn cynnwys peidio cydymffurfio â'r amodau cymeradwyo mandadol sy'n berthnasol i'r fangre neu'r cerbyd (fel sy'n ofynnol), a bod y diffyg cydymffurfio hwn yn achosi, neu y gallai achosi, risg o niwed i iechyd dynol. Er mwyn dirymu'r gymeradwyaeth, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol anfon hysbysiad at y sawl a wnaeth gais am y gymeradwyaeth.
- 16.5 Gall unigolyn apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i ddirymu cymeradwyaeth drwy wneud cais i bwyllgor trwyddedu'r awdurdod lleol, y llys ynadon a Llys y Goron os oes angen.

Hysbysiadau atal

- 16.6 O dan adran 77, caiff awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad atal os yw'n ymwybodol bod unigolyn yn rhoi triniaeth arbennig yn ei ardal: sydd heb drwydded neu sy'n cynnal busnes o fangre neu gerbyd nad yw wedi'i ch/gymeradwyo.
- 16.7 Nod yr hysbysiad atal yw gwahardd rhoi'r driniaeth arbennig a nodir ar yr hysbysiad. Mae torri amodau hysbysiad atal yn drosedd (adran 82(4)) a gall arwain at gosb o ddirwy ddiderfyn. Mae'n rhaid cyflwyno'r hysbysiad atal i'r unigolyn perthnasol, ac mae'n rhaid iddo gynnwys gwybodaeth fel y rheswm wrth wraidd yr hysbysiad, manylion am y gwaharddiad a gwybodaeth am ei hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad (adran 81 y Ddeddf). Bydd yr hysbysiad atal yn berthnasol yn unrhyw ran o Gymru ac yn weithredol nes i'r unigolyn ennill y drwydded neu'r gymeradwyaeth berthnasol.

Hysbysiadau camau adfer i ddeiliad trwydded

- 16.8 O dan adran 78 o'r Ddeddf, gall awdurdod lleol roi hysbysiad camau adfer i ddeiliad trwydded os daw'n ymwybodol bod deiliad y drwydded yn torri amod trwyddedu mandadol perthnasol. Ar hysbysiad camau adfer rhaid nodi'r materion a arweiniodd at dorri'r amod a'r camau y mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded eu cymryd i gydymffurfio â'r amodau trwyddedu. Os yw'r awdurdod lleol yn fodlon bod yr achos o dorri amod trwyddedu yn achosi, neu y gallai achosi, risg sylweddol i iechyd dynol, gall yr hysbysiad hefyd atal rhoi'r driniaeth arbennig nes cymryd y camau a nodir ar yr hysbysiad. Gall yr hysbysiad ymwneud â rhoi'r driniaeth mewn ardal yng Nghymru (ee, ardal yr awdurdod lleol), neu gallai fod ehangach a chynnwys Cymru gyfan.
- 16.9 Rhaid nodi'r cyfnod cydymffurfio ar yr hysbysiad (heb fod yn llai nag 14 diwrnod) pan fydd angen i ddeiliad y drwydded gymryd y camau penodedig. Os yw'r awdurdod lleol yn fodlon bod y camau a nodir ar yr hysbysiad wedi'u cymryd, rhaid iddo gyflwyno

tystysgrif cwblhau (gweler yr adran berthnasol ar dystysgrifau cwblhau). Mae'n rhaid cynnwys manylion hawl deiliad y drwydded i apelio ar yr hysbysiad camau adfer (adran 81 o'r Ddeddf).

- 16.10 Er bod gweithredu'n groes i hysbysiad camau adfer yn drosedd (adran 82(5)) a all arwain at gosb o ddirwy ddiderfyn, ni chaiff yr awdurdod lleol gychwyn achos yn erbyn deiliad y drwydded nes bo'r cyfnod cydymffurfio wedi dod i ben. Os bydd deiliad y drwydded yn cymryd y camau a nodir ar yr hysbysiad o fewn y cyfnod cydymffurfio, ni all yr awdurdod lleol gychwyn achos yn erbyn unrhyw drosedd. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod lleol yn gallu cychwyn achos os yw deiliad y drwydded yn parhau i roi triniaeth arbennig, er eu bod wedi'u gwahardd rhag ymarfer. Yn ogystal â'r hysbysiad camau adfer, caiff yr awdurdod lleol hefyd ddirymu trwydded triniaethau arbennig os nad yw deiliad y drwydded yn cydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol perthnasol.

Hysbysïadau camau adfer ar gyfer mangre a cherbyd cymeradwy

- 16.11 Yn yr un modd â'r uchod, o dan adran 79 o'r Ddeddf, mae awdurdod lleol yn gallu anfon hysbysiad camau adfer at berson ynghylch mangre neu gerbyd cymeradwy. Ceir anfon yr hysbysiad os yw'r awdurdod lleol yn fodlon bod y person yn torri amod mandadol sy'n berthnasol i'r gymeradwyaeth. Bydd yn rhaid nodi'r rheswm/rhesymau pam bod yr amod wedi'i dorri, a'r camau y bydd yn rhaid i'r deiliad trwydded eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth. Os yw awdurdod lleol yn fodlon bod achos o dorri amod cymeradwyo mandadol yn peri risg sylweddol o niwed i iechyd dynol, neu y gallai beri hynny, gall yr hysbysiad hefyd wahardd rhoi'r driniaeth arbennig yn y fangre neu yn y cerbyd, nes bod y camau a nodir ar yr hysbysiad wedi'u cymryd. Yn yr achos hwn, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i ddwyn sylw unrhyw un y mae'n tybio y bydd yr hysbysiad yn effeithio arno (er enghraifft, deiliaid trwydded wedi'u rhestru fel ymarferwyr sy'n gweithredu o'r fangre neu'r cerbyd).
- 16.12 Rhaid nodi'r cyfnod cydymffurfio ar yr hysbysiad (heb fod yn llai nag 14 diwrnod) pan fydd angen i ddeiliad y drwydded gymryd y camau penodedig. Os yw'r awdurdod lleol yn fodlon bod y camau hynny wedi'u cymryd, rhaid iddo roi tystysgrif cwblhau i ddeiliad y drwydded er mwyn rhyddhau'r hysbysiad. Mae'n rhaid cynnwys manylion hawl y person i apelio hefyd ar yr hysbysiad (adran 81 o'r Ddeddf). Mae torri amodau hysbysiad atal yn drosedd (adran 82(6)) a gall arwain at gosb o ddirwy ddiderfyn. Fodd bynnag, ni chaiff yr awdurdod lleol gychwyn achos nes i'r cyfnod cydymffurfio ddod i ben. Os bydd deiliad y drwydded yn cymryd y camau a nodir ar yr hysbysiad o fewn y cyfnod cydymffurfio, ni chaiff yr awdurdod lleol gychwyn achos yn erbyn unrhyw drosedd. Fodd bynnag, caiff yr awdurdod lleol gychwyn achos os bydd y person yn parhau i roi'r driniaeth arbennig o'r fangre neu'r cerbyd a nodir ar yr hysbysiad, er gwaethaf y gwaharddiad. Yn ogystal â'r hysbysiad camau adfer, caiff yr awdurdod lleol hefyd ddirymu cymeradwyaeth mangre neu gerbyd os nad yw'r person yn cydymffurfio ag amod cymeradwyo mandadol.

Tystysgrifau cwblhau

- 16.13 O dan adran 80 o'r Ddeddf, os yw awdurdod lleol yn fodlon bod y camau a bennir mewn hysbysiad camau adfer y mae wedi'i gyflwyno (fel yr uchod) wedi'u cwblhau, bydd yn rhaid iddo gyflwyno tystysgrif cwblhau i'r person sy'n rhyddhau'r hysbysiad. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd gymryd camau rhesymol i ddwyn y dystysgrif gwblhau neu'r hysbysiad i sylw unrhyw un y mae'n tybio y bydd yr hysbysiad yn effeithio arno.
- 16.14 Mae adran 80 hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i'r sawl sy'n destun hysbysiad wneud cais i'r awdurdod lleol am dystysgrif cwblhau ar unrhyw bryd. Bydd yr awdurdod lleol yn manylu ar y broses a'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer hyn. Os bydd yr awdurdod lleol yn gwrthod y cais, bydd yn rhaid iddo hysbysu'r person ynghylch hynny. Yn ogystal â hynny, bydd yn rhaid darparu'r rhesymau dros wrthod a gwybodaeth am y broses apelio (gweler adran 81) i'r person.

Apelio yn erbyn hysbysiadau atal a hysbysiadau camau adfer

- 16.15 Caiff unigolyn apelio i'r llys ynadon yn erbyn awdurdod lleol sy'n rhoi hysbysiad atal neu hysbysiad camau adfer, neu sy'n gwrthod cais am dystysgrif cwblhau. Dylid cyflwyno'r apêl i'r llys ynadon yn unol â Deddf Llysoedd Ynadon 1980 cyn pen 21 diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad sy'n destun apêl. Fodd bynnag, ni fydd dwyn apêl yn gohirio'r hysbysiad.
- 16.16 Gall y llys ynadon ystyried yr apêl a chadarnhau'r hysbysiad neu'r gwrthodiad, dileu neu amrywio'r hysbysiad, neu ddileu penderfyniad i wrthod rhoi tystysgrif cwblhau. Ym mhob achos, gall y llys ynadon ddweud wrth yr awdurdod lleol pa gamau i'w cymryd, a gall wneud gorchymyn ynghylch pwy sydd i dalu'r costau. Pan fo'r llys ynadon yn dileu neu'n amrywio hysbysiad, neu'n dileu penderfyniad i wrthod rhoi tystysgrif cwblhau, gall y llys orchymyn bod yr awdurdod lleol yn rhoi iawndal i ddeiliad y drwydded/dystysgrif cymeradwyo mangre am y golled a gafwyd yn sgil yr hysbysiad, ee colli incwm yn sgil penderfyniad yr awdurdod lleol i'w atal rhag gweithio.
- 16.17 Gall yr awdurdod lleol neu ddeiliad y drwydded/dystysgrif cymeradwyo mangre apelio yn erbyn penderfyniad llys ynadon ynghylch apêl drwy wneud cais i Lys y Goron. Gall Llys y Goron gadarnhau, amrywio neu wrthdroi penderfyniad y llys ynadon, a gall gyfeirio'r achos yn ôl i'r llys ynadon neu'r awdurdod lleol gyda chyfarwyddiadau ynghylch sut i ymdrin â'r achos.

17. Troseddau a chosbau

- 17.1 Mae adran 82 o'r Ddeddf yn creu troseddau'n gysylltiedig ag achosion amrywiol o dorri'r darpariaethau ar gyfer trwyddedu a chymeradwyo triniaethau arbennig. Gan fod y troseddau wedi'u nodi ar glawr y Ddeddf, nid oes angen rheoliadau, a bydd adran 82 yn cychwyn pan ddaw'r cynllun trwyddedu i rym. Nid yw adran 82 felly wedi'i chynnwys yn yr ymgynghoriad. Dyma'r troseddau a drafodir yn adran 82:
- Torri adran 58 – rhoi triniaeth arbennig a bennir yn y Ddeddf heb feddu ar drwydded triniaethau arbennig pan nad yw'r unigolyn yn esempt.

- Torri adran 61(3)(c) – rhoi triniaeth arbennig a bennir yn y Ddeddf pan fo gwaharddiad yn weithredol.
 - Torri adran 69(2) – rhoi triniaeth arbennig a bennir yn y Ddeddf mewn mangre neu gerbyd lle na cheir y dystysgrif cymeradwyo mangre/gerbyd briodol (heb achos rhesymol).
 - Parhau i roi triniaethau arbennig neu i weithredu o fangre neu gerbyd heb y drwydded/dystysgrif cymeradwyo mangre berthnasol, pan fo hysbysiad atal yn weithredol o dan adran 77 (heb achos rhesymol).
 - Torri hysbysiad camau adfer a gyflwynir o dan adran 78 i ddeiliad trwydded (heb achos rhesymol).
 - Torri hysbysiad camau adfer mangre/gerbyd a gyflwynir o dan adran 79 (heb achos rhesymol).
 - Gwneud datganiad anwir neu gamarweiniol (naill ai'n fwriadol neu'n fyrbwyll) wrth wneud cais i roi, amrywio neu adnewyddu trwydded triniaethau arbennig neu i gymeradwyo dystysgrif cymeradwyo mangre/gerbyd. Mae'r datganiadau anwir neu gamarweiniol yn cynnwys unrhyw beth a fyddai fel arall wedi peri i'r awdurdod lleol beidio â chaniatáu, amrywio neu adnewyddu'r drwydded/dystysgrif (er enghraifft, gwneud datganiad anwir ynghylch cael eich dyfarnu'n euog o drosedd berthnasol).
- 17.2 Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan adran 82 o'r Ddeddf yn agored, dan euogfarn ddiannod, i ddirwy ddiderfyn.
- 17.3 Yn ogystal â hynny, o dan adran 89 bydd unrhyw un sy'n fwriadol yn atal swyddog awdurdodedig sy'n cyflawni ei ddyletswyddau rhag cael mynediad i fangre neu rhag cynnal arolygiad fel y nodir yn adrannau 84-88 yn cyflawni trosedd. Bydd person yn cyflawni trosedd os nad yw'n cydymffurfio â materion neilltuol sy'n berthnasol i adran 88(1) o'r Ddeddf, ac yn gwneud hynny heb achos rhesymol. Gall hyn gynnwys methiant i ddarparu cyfleusterau neu gymorth, i gyflwyno eitemau i'w harchwilio neu i ddarparu gwybodaeth. Bydd unrhyw un a geir yn euog o drosedd fel hyn yn agored, dan euogfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel tri ar y raddfa safonol, sef £1,000 ar hyn o bryd.

18. Pwerau gorfodi awdurdodau lleol

- 18.1 Mae adrannau 83-92 o'r Ddeddf yn nodi'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol i ddibenion gorfodi, a'r telerau ar gyfer arfer y pwerau hyn. Caiff y pwerau hyn eu cymhwyso i unrhyw fangre lle mae triniaethau arbennig wedi bod yn cael eu rhoi, yn cael eu rhoi ar hyn o bryd, neu'n debygol o gael eu rhoi, neu os caiff unrhyw ddeunydd neu offer y bwriedir ei ddefnyddio i roi triniaethau arbennig ei storio neu ei baratoi yn y fangre. Mae'r adrannau hyn yn diffinio swyddogion awdurdodedig i ddibenion y Ddeddf, ac yn ymdrin â phwerau sy'n gysylltiedig â chamau gorfodi ac ymchwiliadau i driniaethau arbennig, gan gynnwys:

- pwerau mynediad
- sicrhau gwarant i gael mynediad i annedd neu fangre arall
- pwerau i arolygu ac archwilio eitemau ar y safle
- symud eitemau ymaith a chasglu tystiolaeth, a'r telerau ar gyfer arfer y pwerau hyn
- rhwystro swyddogion
- pŵer i wneud pryniannau prawf
- apelio yn erbyn cadw eiddo
- ceisiadau am iawndal yn erbyn eiddo a gadwyd neu a feddiannwyd.

18.2 Pwerau safonol yw'r rhain i swyddogion gorfodi awdurdod lleol a bydd yr adrannau penodol hyn yn cychwyn pan ddaw'r cynllun trwyddedu i rym. Gan hynny, nid oes angen gwneud unrhyw reoliadau.

19. Asesiadau Effaith

19.1 Yn rhan o'r ddogfen ymgynghori hon, rydym wedi cyhoeddi Asesiad Effaith Rheoleiddio drafft sy'n esbonio sut y bydd y rheoliadau drafft hyn yn effeithio ar gyrf rholeiddio yn ein tyb ni.

19.2 Rydym hefyd wedi cyhoeddi Asesiad Effaith Integredig ar wahân sy'n cynnwys yr asesiadau effaith mandadol ac ychwanegol y mae'n ofynnol eu cynnal ar gyfer holl bolisiâu Llywodraeth Cymru.

19.3 Gellir gweld y dogfennau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru:
<https://www.llyw.cymru/trwyddedu-gorfodol-ar-gyfer-triniaethau-arbennig-yng-nghymru>

19.4 Rydym yn gofyn i ymgynghoreion gynnig sylwadau ar gynnwys y dogfennau asesu effaith hyn.

20. Cwestiynau yr hoffem eu gofyn ichi

20.1 Hoffem gael eich barn ar ein cynigion. A ddylid gwneud unrhyw ddiwygiadau i wneud y cynnwys yn fwy eglur? Mae Atodiad B yn cynnwys rhestr o gwestiynau y gallech fod am eu hystyried. Gofynnir ichi nodi eich ymatebion ar y ffurflen a ddarperir, y gellir ei llenwi ar ffurf copi caled a'i hanfon atom drwy'r post. Gellir ei lawrlwytho hefyd o'r dudalen we ar gyfer yr ymgynghoriad hwn a'i hanfon atom drwy e-bost. Caiff yr un cwestiynau hefyd eu cyflwyno ar ffurf holiadur ar-lein y gellir mynd ato o dudalen we'r ymgynghoriad hwn.

SYLWER: Derbyniodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2017. Ni ellir felly ailedrych ar ddarpariaethau Rhan 4 o'r Ddeddf yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen i weithredu Rhan 4 ac i sefydlu a chynnal system drwyddedu fandadol i Gymru oddi mewn i ofynion y Ddeddf.

21. Beth fydd yn digwydd nesaf

- 21.1 Byddwn yn croesawu sylwadau ar y ddogfen ymgynghori hon hyd 19 Ebrill 2023, ac ar ôl y dyddiad hwnnw byddwn yn ystyried yr holl ymatebion a gafwyd.
- 21.2 Yn dilyn yr ystyriaeth hon, bydd cyngor ac argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w hystyried yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd hyn yn cynnwys cychwyn y broses ddeddfwriaethol i wneud y rheoliadau angenrheidiol i ddeddfu'r adrannau hynny o Ran 4 o'r Ddeddf a nodir yn y ddogfen hon i sefydlu cyfundrefn trwyddedu triniaethau arbennig fandadol i Gymru.
- 21.3 Byddwn yn cyhoeddi manylion yr ymatebion a gafwyd ac unrhyw ddiwygiadau a gymeradwywyd gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol maes o law.
- 21.4 Rydym yn rhagweld y bydd ymgynghoriad cyhoeddus pellach yn cael ei gynnal ar y set gyflawn o reoliadau drafft, ac y bydd yr ymgynghoriad hwnnw'n para 12 wythnos.
- 21.5 Yn dilyn yr ail ymgynghoriad hwn ac unrhyw ddiwygiadau terfynol a allai fod eu hangen, bydd y rheoliadau'n cael eu gosod gerbron y Senedd ac yn destun trafodaeth o dan y weithdrefn gadarnhaol ar ddyddiad yn y dyfodol y cytunir arno yn 2023. Bydd y rheoliadau, os cânt eu pasio, yn cael eu cyhoeddi ar y dyddiad dod i rym, a bennir yn rhan o'r broses ddeddfwriaethol. Bydd y rheoliadau cyhoeddusig ar gael i'r cyhoedd, i ymarferwyr a busnesau triniaethau arbennig ac awdurdodau lleol ar y dyddiad hwnnw ynghyd â chanllawiau pellach.

Atodiad A – Rhestr Ddosbarthu'r Ymgynghoriad

Sefydliadau Cynrychioliadol

Cyngor Aciwbigo Prydain
Cymdeithas Aciwbigo Meddygol Prydain
Cymdeithas Aciwbigo Ffisiotherapyddion Siartredig
Cymdeithas Ffisiotherapyddion Siartredig
Ffederasiwn Cenedlaethol Gwallt a Harddwch
Ffederasiwn therapyddion cyfannol
Save face
Ffederasiwn Artistiaid Tatŵ Prydain
Ffederasiwn Tatŵio
Cydgynghor Ymarferwyr Cosmetig – JCCP
BABTAC Cymdeithas Brydeinig Therapi Harddwch a Chosmetoleg
Cyngor Harddwch Prydain
Sefydliad a Chymdeithas Electrolysis Prydain
Cymdeithas Tyllwyr Proffesiynol y DU - UKAPP
Undeb y Diwydiant Tatŵio a Thyllu'r Corff
Fforwm Busnes Preifat
Consortiwm Manwerthu Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
CGGC
TUC Cymru
CBI Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach Prydain
Ffederasiwn Busnesau Bach – Cymru

Swyddfeydd y Comisiynwyr

Comisiynydd y Gymraeg
Comisiynydd Plant
Y Comisiynydd Gwybodaeth

Llywodraeth/Llywodraeth Leol

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol yng Nghymru
Rheoleiddio Llywodraeth Leol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Iechyd

Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Meddygol a Chyfarwyddwyr Nyrsio:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Cwm Taf
Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
Y Coleg Nyrsio Brenhinol
Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus y BILI
Coleg Brenhinol y Meddygon
Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu
Cynghorau Iechyd Cymuned

Iechyd y Cyhoedd

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd
Cyfadran Iechyd y Cyhoedd
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd - CIEH
Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd – RSPH
Arweinwyr Iechyd yr Amgylchedd awdurdodau lleol
Canolfannau Cyfunol Cymru ar gyfer Iechyd Cyhoeddus
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru
Panel Arbenigol Cymru Gyfan ar Glefydau Trosglwyddadwy
Panel Arbenigol Iechyd a Diogelwch Cymru Gyfan
Penaethiaid Safonau Masnach Cymru
Sefydliad Safonau Masnach Siartredig
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Iechyd yr Amgylchedd Cymru
Panel Arbenigol Trwyddedu Cymru Gyfan

Atodiad B – Holiadur Ymateb i'r Ymgynghoriad

Cynllun Trwyddedu Mandadol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru

Eich enw:	
Sefydliad (os yw'n berthnasol):	
e-bost:	
Eich cyfeiriad:	

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu rhannu â' cyhoedd, naill ai ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych gadw eich ymateb yn ddiennw, ticiwch yma:

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i Lywodraeth Cymru, i gyrraedd ar 19 Ebrill 2023 ar yr hwyraf. Dyma'r cyfeiriad e-bost ar gyfer ymatebion neu ymholiadau:

TriniaethauArbennig@llyw.cymru

Gellir lawrlwytho'r ffurflen hon neu gyrchu'r holiadur ymateb ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru yma:

<https://www.llyw.cymru/trwyddedu-gorfodol-ar-gyfer-triniaethau-arbennig-yng-nghymru>

Byddwn yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu yn Saesneg.

	Rhowch resymau am eich atebion wrth ymateb.
1.	Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i fandadu ffurf a chynnwys trwydded triniaethau arbennig a thystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd o fewn y rheoliadau? A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys yn ffurf y dogfennau hyn?
2.	Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i wneud rheoliadau ynghylch darpariaeth bellach (fel y nodir ym mharagraff 4.13)?
3.	Ydych chi'n cytuno bod naw mis yn gyfnod trosiannol digonol? Os ddim, pa hyd fyddai'n briodol?
4.	Ydych chi'n cytuno bod yr isafswm oedran a gynigir ar gyfer ymgeiswyr am drwyddedau triniaeth arbennig yn briodol?
5.	Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf trwyddedu a gynigir ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig a'r dogfennau ategol a restrwyd? A ddylai ymgeiswyr orfod cyflwyno unrhyw ddogfennau eraill?
6.	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai ymgeiswyr roi tystiolaeth o'u cymhwysedd yn y driniaeth/triniaethau arbennig y maent yn dymuno ei/eu rhoi? Os ydych chi'n cytuno, sut y dylid dangos hynny, a pha dystiolaeth ddogfennol y dylid ei chynhyrchu?
7.	Ydych chi'n cytuno bod y disgrifiadau cyfredol o droseddau perthnasol yn ddigonol? Os nad ydych chi, pam?
8.	Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylid gwneud rheoliadau i gyfyngu ar esemptiadau i aelodau'r cyrff proffesiynol a restrir yn adran 60?
9.	Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylid gwneud rheoliadau o dan adran 69 i weithredu esemptiadau ar fangreoedd lle bydd aelodau esempt o'r cyrff proffesiynol hyn yn ymarfer?
10.	A yw'r egwyddorion hyn i esemptio unigolion a mangreoedd yn gwarchod iechyd a diogelwch y cleient i raddau digonol?
11.	Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylai'r proffesiynau a enwir sydd ar gofrestr statudol yr HCPC, sef ciropodyddion/podiatryddion; ffisiotherapyddion; prosthetyddion/orthotyddion fod yn esempt? A oes proffesiynau eraill ar y gofrestr hon a ddylai fod yn esempt?

12.	Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig na ddylai aelodau o gofrestrau gwirfoddol wedi'u hachredu gan y PSA fod yn esempt?
13.	Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch yr amodau trwyddedu mandadol enghreifftiol ar gyfer yr holl driniaethau arbennig, fel y'u nodir yn Atodiad CH1?
14.	Ydych chi'n cytuno bod yr amodau trwyddedu mandadol penodol yn Atodiad CH1 yn gymesur â'r risgiau a gyflwynir gan bob math o driniaeth arbennig?
15.	Ydych chi'n cytuno bod creu trwydded hyfforddai yn ffordd gymesur o ymdrin â hyfforddeion ar gyrsiau rheoleiddiedig a phrentisiaid sy'n dilyn cynlluniau prentisiaeth rheoleiddiedig ac anrheoleiddiedig? Os nad ydych chi'n cytuno, sut y dylid ymdrin â hyn?
16.	Ydych chi'n cytuno y dylid pennu 18 oed fel yr isafswm oedran i ymarferydd roi unrhyw un o'r triniaethau arbennig?
17.	Ydych chi'n cytuno y dylid pennu 18 oed fel yr isafswm oedran i gleient gael unrhyw un o'r triniaethau arbennig (ar wahân i'r eithriadau arfaethedig a restrwyd)?
18.	Ydych chi'n cytuno bod yr hyn a amlinellwyd o ran cydsyniad a phresenoldeb rhiant/gwarcheidwad ar gyfer triniaethau nad ydynt wedi'u gwahardd i rai dan 18 oed yn fesurau diogelu digonol?
19.	Ydych chi'n cytuno bod 16 yn oedran priodol i rywun gael twll yn yr ael, y wefus, y trwyn neu gartilag y glust heb gydsyniad rhiant/gwarcheidwad?
20.	A ddylid caniatáu tyllau ar unrhyw ran arall o'r wyneb o'r adeg pan fydd rhywun yn 16 oed? Os felly, pam?
21.	Ydych chi'n cytuno bod gwahardd tatŵio pelen y llygad yn yr amodau trwyddedu tatŵio yn ddigonol i atal ymarferwyr trwyddedig rhag rhoi'r driniaeth honno?
22.	A yw'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol mewn amodau trwyddedu fod ymarferwyr yn trafod effaith triniaethau wyneb a thriniaethau gweladwy

	eraill â chleientiaid ac yn cofnodi'r drafodaeth yn ddigonol i fynd i'r afael â'r pryderon?
23.	Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad a gynigir ar gyfer 'gwrthrych' fel y bo'n berthnasol i dyllu'r corff?
24.	Ydych chi'n cytuno bod gwahardd y defnydd o gyllell llawfeddyg neu offeryn llafnog tebyg yn amodau trwyddedu tyllu'r corff yn ddigonol i atal addasiadau i'r corff sydd y tu hwnt i driniaeth tyllu'r corff?
25.	Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymeradwyo a gynigir ar gyfer ceisiadau cymeradwyo mangre/cerbyd a'r dogfennau ategol a restrir? A ddylai ymgeiswyr orfod cyflwyno unrhyw ddogfennau eraill?
26.	Ydych chi'n cytuno na ddylai deiliaid trwyddedau triniaeth arbennig hyfforddai gael gwneud cais am dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd yn eu hawl ei hunain, na chael eu henwebu fel y sawl sy'n gyfrifol am fangre ar ffurflen gais?
27.	Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ynghylch apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod cais am gymeradwyaeth mangre a cherbyd, fel y nodir ym mharagraff 11.19?
28.	Ydych chi'n cytuno y dylai'r dystysgrif cymeradwyo hefyd gynnwys enw'r sawl sy'n gyfrifol ac uchafswm y gweithfannau yn y fangre honno/cerbyd hwnnw?
29.	Oes gennych chi unrhyw sylwadau am yr amodau mandadol enghreifftiol ar gyfer cymeradwyo mangreoedd/cerbydau a nodir yn Atodiad Ch2?
30.	Cynigiwn ein bod yn gwneud rheoliadau o dan adran 70 o'r Ddeddf yn gysylltiedig â'r broses amrywio ac adnewyddu ar gyfer tystysgrifau cymeradwyo mangreoedd i'w gwneud yn gyson â'r broses amrywio ac adnewyddu ar gyfer trwyddedau . Ydych chi'n cytuno?
31.	A ddylid gosod yr un amodau cymeradwyo mandadol wrth gymeradwyo mangreoedd a cherbydau dros dro â'r amodau a osodir ar gyfer pob mangre/cerbyd? Os ddim, pa amodau cymeradwyo mandadol penodol (os o gwbl) a ddylai fod yn berthnasol wrth gymeradwyo mangreoedd a cherbydau dros dro?

32.	Ydych chi'n cytuno bod mynnu'r un meini prawf trwyddedu ar gyfer trwydded ymarferydd dros dro ag ar gyfer trwydded tair blynedd yn gymesur?
33.	Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n gymesur i drefnydd digwyddiadau sy'n gwneud cais am dystysgrif cymeradwyo mangre dros dro fodloni'r un meini prawf cymeradwyo ag ar gyfer tystysgrif cymeradwyo mangre tair blynedd?
34.	Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn rhaid i bob mangre/cerbyd sy'n gysylltiedig â digwyddiad/arddangosfa dros dro gael ei chymeradwyo/gymeradwyo gan yr awdurdod lleol? Os ddim, pam ddim?
35.	A ddylid gosod amodau cymeradwyo mandadol ar gyfer pob mangre/cerbyd sy'n gysylltiedig â digwyddiadau/arddangosfeydd?
36.	Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys gwybodaeth bellach o fewn tystysgrif cymeradwyo dros dro (fel yr awgrymwyd ym mharagraff 13.12)? Pa wybodaeth arall a ddylai fod yn ofynnol (os o gwbl)?
37.	Ydych chi'n cytuno y dylid pennu'r fffioedd ymgeisio am drwydded yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 15.3 ac 15.4?
38.	Ydych chi'n cytuno y dylid pennu'r fffioedd ymgeisio am gymeradwyaeth mangre/cerbyd yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 15.5 ac 15.6?
39.	Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheoliadau gynnwys darpariaeth ynghylch sut y dylai awdurdodau lleol bennu swm y ffi a godir ar ddeiliad trwydded neu gymeradwyaeth mangre/cerbyd o dan adran 76 yn y modd a amlinellir ym mharagraffau 15.7 - 15.9?
40.	Ydych chi'n cytuno â'n cynnig ynghylch adennill fffioedd adran 76 nas talwyd yn y modd a amlinellir ym mharagraff 15.10?
41.	Hoffem wybod eich barn ynghylch yr effaith y gallai'r cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

42.	<p>Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid trefnu neu newid y cynllun trwyddedu mandadol a gynigir ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru er mwyn sicrhau</p> <ul style="list-style-type: none"> • effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal • unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
43.	<p>Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Defnyddiwch y gofod isod os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol.</p>

Atodiad C – Tystysgrifau Mandadol ar gyfer Trwyddedau Triniaeth Arbennig

Trwydded Triniaethau Arbennig

FFURF A CHYNNWYS AR GYFER CYMERADWYO YMARFERYDD YN GYSYLLTIEDIG Â RHOI TRINIAETH ARBENNIG (ATODLEN 3)

Argraffu ar bapur A4
Argraffu mewn lliw
Argraffu ar i fyny
Dwyieithog

Tystysgrif Cymeradwyo Mangre/Cerbyd ar gyfer Triniaethau Arbennig

FFURF A CHYNNWYS AR GYFER CYMERADWYO MANGRE A CHERBYD YN GYSYLLTIEDIG Â RHOI TRINIAETH ARBENNIG (ADRAN 71)

Argraffu ar bapur A4
Argraffu mewn lliw
Argraffu ar i fyny
Dwyieithog

Logo yr ALI

**Tystysgrif Trwydded Triniaeth Arbennig
Special Procedure Licence
Rhif /Number: LIC/#####**

Mae **Cyngor #####**, o dan ddarpariaethau **Rhan 4** o **Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**, *drwy hyn yn awdurdodi'r* person a enwir isod i roi'r triniaethau arbennig canlynol ar a hyd at ##### dyddiad

The Council of #####, under the provisions of the **Part 4** of the **Public Health (Wales) Act 2017**, *hereby authorises* the person named below to carry out the following special procedures on and up to the ##### date

Enw llawn y Trwyddedai / Full name of Licensee: TRWYDDEDAI / LICENSEE

Llun diweddar o'r Trwyddedai / Recent photo of Licensee: LLUN / PHOTO

**Yn y Fangre/Cerbyd Cymeradwy canlynol:
In the following Approved Premises/Vehicle:**

- Enw, Cyfeiriad, Cyfeirnod / Name, Address, Ref No.
- Enw, Cyfeiriad, Cyfeirnod / Name, Address, Ref No.
- Rhif cofrestru cerbyd, Cyfeirnod / Vehicle registration No., Ref No.

Y triniaethau a awdurdodwyd i'w rhoi gan yr ymarferydd hwn yw / Procedures authorised to be carried out by this practitioner are:

Aciwbigo / Acupuncture (ii) Tyllu'r corff / Body piercing (iii) Electrolysis / Electrolysis (iv) Tatwio / Tattooing

**Dyddiad cyhoeddi / Date of Issue:
Dyddiad dod i ben / Date of Expiry:**

Cyfeiriad a manylion cysylltu'r awdurdod lleol / Local Authority address and contact details:

**NI ELLIR TROSGLWYDDO'R DRWYDDED HON
THIS LICENCE IS NOT TRANSFERABLE**

Logo yr ALI

**Tystysgrif Cymeradwyo Mangre/Cerbyd / Premises/Vehicle Approval Certificate
Rhif Cymeradwyo / Approval Number: LIC/#####**

Mae **Cyngor #####**, o dan ddarpariaethau **Rhan 4** o **Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**, drwy hyn yn cymeradwyo defnyddio'r fangre/cerbyd canlynol at ddibenion y triniaethau arbennig ar a hyd at **###** dyddiad

The Council of #####, under the provisions of the **Part 4** of the **Public Health (Wales) Act 2017**, hereby approves the use of the following premises/vehicle for the purposes of the special procedures on and up to the **###** date

Enw'r Person sy'n cynnal y busnes / Name of the Person carrying on the business:
Enw / Name

Enw a chyfeiriad y fangre (yn cynnwys cod post) / Name and address of premise (including postcode):

Yn achos cerbyd: Rhif cofrestru

In the case of a vehicle: Registration number

Cyfeiriad y mae'r cerbyd yn gweithredu ohono: Cyfeiriad

Address from where the vehicle operates: Address

Llun diweddar o'r fangre/cerbyd / Recent photo of premises/vehicle:
LLUN / PHOTO

**Mae'r triniaethau canlynol wedi'u hawdurdodi i gael eu cynnal yn y fangre hon:
The following procedures are authorised to be carried out at this premises:**

- (i) Aciwbigo yn cynnwys nodwyddo sych / Acupuncture including dry needling
- (ii) Tyllu'r corff / Body piercing
 - a. Llabed y glust / Ear Lobe
 - b. Y glust gyfan / Whole Ear
 - c. Y trwyn / Nose
 - d. Rhannau personol o'r corff / Intimate
- (iii) Electrolysis / Electrolysis
- (iv) Tatwio / Tattooing
- (v) Colur lled-barhaol / Semi-permanent make-up

Mae X o ymarferwyr trwyddedig wedi'u cymeradwyo i weithredu o'r fangre hon ar unrhyw adeg benodol / X number of licensed practitioners are approved to operate from this premise at any one time:

Cyfeiriad a manylion cyswllt yr awdurdod lleol / Local Authority address and contact details:

**NI ELLIR TROSGWLWYDDO'R DRWYDDED HON
THIS APPROVAL CERTIFICATE IS NOT TRANSFERABLE**

Atodiad CH – Amodau mandadol ar gyfer trwyddedau a chymeradwyaeth

CH1: Amodau mandadol ar gyfer pob trwydded triniaethau arbennig	73
1. Amodau Trwyddedu Mandadol	73
Cyflwyniad	73
Amodau trwyddedu mandadol	73
Ymgynghori â'r Chleient a Gwirio Oedran y Cleient	74
Cadw Cofnodion	75
Rheoli Haint	76
Safonau Hylendid a chymorth cyntaf	77
2. Tatwio gan gynnwys microbigmentiad, microlafnu ac unrhyw driniaeth arall lle gosodir unrhyw ddeunydd lliwio er mwyn gadael marc lled-barhaol neu barhaol mewn prisiau yng nghroen yr unigolyn	79
Gwaharddiadau ar roi triniaeth	79
Mesurau rheoli haint yn gysylltiedig â'r driniaeth benodol	79
3. Tyllu'r corff	80
Gwaharddiadau ar roi triniaethau	80
Mesurau rheoli haint yn gysylltiedig â'r driniaeth benodol	80
4. Tyllu'r clustiau a'r trwyn (gan ddefnyddio system cetris)	81
Gwaharddiadau ar roi triniaethau	81
Mesurau rheoli haint yn gysylltiedig â'r driniaeth benodol	82
5 Aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych)	83
Gwaharddiadau ar roi triniaeth	83
Mesurau rheoli haint yn gysylltiedig â'r driniaeth benodol	83
6. Electrolysis	84
Gwaharddiadau ar roi triniaeth	84
7. Ymarferwyr sy'n hyfforddi , yn goruchwyllo neu'n asesu hyfforddeion mewn lleoliadau addysgol ar gyfer cymwysterau a phrentisiaethau rheoleiddiedig	84
Dyletswyddau hyfforddwr/goruchwyliwr/aseswr	84
8. Ymarferwyr sy'n hyfforddi , yn goruchwyllo neu'n asesu prentisiaid neu hyfforddeion heb eu rheoleiddio mewn unrhyw fangre arall a gymeradwyir.	84
Dyletswyddau hyfforddwr/goruchwyliwr/aseswr	84
9 Prentisiaid a Hyfforddeion	85
CH2: Amodau mandadol ar gyfer cymeradwyo mangreoedd a cherbydau	86
Cyflwyniad	86
Amodau cymeradwyo mandadol	86
Materion sy'n ymwneud â hysbysiadau arddangos a mynediad cyfyngedig	87
Dyluniad, strwythur a'r amgylchedd ffisegol	88
Dihalogi, glanhau, diheintio a sterileiddio	89
Gwastraff gan gynnwys eitemau miniog	90

AMODAU MANDADOL AR GYFER POB TRWYDDED TRINIAETHAU ARBENNIG

Cyflwyniad

Mae'r amodau trwyddedu mandadol yn berthnasol i'r holl drwyddedau triniaeth arbennig a roddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru oni nodir fel arall. Ceir amodau mandadol ychwanegol hefyd sy'n gysylltiedig â phob triniaeth arbennig unigol a roddir, i hyfforddeion/prentisiaid a'r ymarferwyr hynny sy'n hyfforddi a goruchwyllo'r gweithgareddau hyn

Mae'r drwydded triniaethau arbennig yn ddilys am gyfnod o dair blynedd neu ddim mwy na saith niwrnod (yn achos digwyddiad dros dro) o'r dyddiad cymeradwyo.

Mae'n rhaid i'r ymarferydd trwyddedig weithredu'n unol â'r drwydded a roddwyd a'r amodau cysylltiedig er mwyn gallu cadw'r drwydded.

Dylid rhoi mynediad ar unrhyw amser rhesymol i swyddogion yr awdurdod lleol sydd wedi'u hawdurdodi o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i'r fangre neu'r cerbyd lle mae'r ymarferydd trwyddedig yn gweithredu, a dylid rhoi mynediad iddynt i bob rhan o'r fangre neu'r cerbyd cymeradwy sy'n gysylltiedig â gwaith yr ymarferydd trwyddedig.

Awdurdodir y Swyddogion i gynnal arolygiad ar ran yr awdurdod lleol, ac i roi hysbysiadau ysgrifenedig ynghylch materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded neu faterion eraill a allai achosi niwed i iechyd dynol.

Amodau trwyddedu mandadol

1. Rhaid i'r ymarferydd trwyddedig weithredu yn unol â'r drwydded a'r amodau a roddwyd a dim ond rhoi'r triniaethau arbennig hynny y mae ganddo drwydded i'w rhoi mewn mangre neu gerbyd cymeradwy. Os na chydymffurfir ag amodau trwyddedu mandadol, gall hynny arwain at ddirymu trwydded yr ymarferydd ac at gamau gorfodi ffurfiol, sy'n cynnwys cyflwyno hysbysiadau a all wahardd yr ymarferydd rhag rhoi triniaeth arbennig ar unwaith, y gofyniad i weithredu camau adfer o fewn cyfnod penodedig, dirwyon ac erlyniad.
2. Rhaid i ymarferwyr trwyddedig gael eu trwydded llun, eu trwydded neu gopi ohonynt a chopi o'r amodau mandadol sy'n berthnasol i'r triniaethau arbennig a gynhelir, fel y'u cyflwynwyd iddynt gan yr awdurdod lleol, a rhaid i'r rhain fod ar gael ar bob achlysur i'w harchwilio gan swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol a chwsmeriaid ar gais.
3. Mae'n rhaid i ymarferwyr trwyddedig sy'n gweithredu o fangre neu gerbyd cymeradwy arddangos eu trwydded triniaethau arbennig mewn lle amlwg ar bob achlysur, yn agos at eu man gwaith, fel bod cwsmeriaid yn gallu ei darllen yn rhwydd.
4. Nid yw'r drwydded triniaethau arbennig ond yn ddilys mewn perthynas â'r ymarferydd a enwir ar y drwydded. Ni ellir trosglwyddo'r dystysgrif i unrhyw ymarferydd arall.

5. Rhaid peidio â newid, dileu na difwyno'r drwydded triniaethau arbennig mewn unrhyw ffordd, rhaid ei chadw'n lân ac yn ddarllenadwy ac ni chaniateir ei rhoi ar fenthyg i unrhyw un arall, nac i unrhyw un arall ei defnyddio.
6. Os bydd y drwydded yn mynd ar goll, yn cael ei dwyn neu'n cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y drwydded gael un arall gan yr awdurdod dyroddi ar ôl talu'r ffi ragnodedig.
7. Ni chaiff newidiadau i'r drwydded triniaethau arbennig ond eu gwneud gan yr awdurdod dyroddi lleol ar ôl i'r awdurdod hwnnw gymeradwyo cais i amrywio. Rhaid gwneud ceisiadau am amrwyd o fewn 28 diwrnod i'r newid.
8. RHAID gwneud cais i adnewyddu'r drwydded triniaeth arbennig i'r awdurdod dyroddi o leiaf 28 diwrnod calendr cyn dyddiad dod i ben y drwydded gyfredol. Os ceir oedi gyda'r broses ymgeisio, tybir bod y drwydded wreiddiol yn ddilys nes cymeradwyo'r drwydded newydd, ond dim ond os cyflwynir y cais o fewn y cyfnod penodedig. Rhaid dychwelyd y drwydded sydd wedi dod i ben i'r awdurdod lleol dyroddi yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir ganddo.
9. Rhaid i'r ymarferydd trwyddedig hysbysu'r awdurdod lleol dyroddi am unrhyw euogfarnau troseddol am droseddau perthnasol a gafwyd yn ystod y cyfnod trwyddedu cyn pen 28 diwrnod ar ôl yr euogfarn. Dylai'r wybodaeth sydd i'w darparu gynnwys y drosedd, dyddiad yr euogfarn, y llys a gyhoeddodd yr euogfarn, y ddedfryd/gosb a roddwyd, hyd y ddedfryd (os yw'n berthnasol).
10. Bydd yn rhaid i'r ymarferydd trwyddedig gael yswiriant indemniad triniaethau dilys sy'n cynnwys yr ystod o driniaethau arbennig a gynigir hyd ddiwedd ei drwydded.
11. RHAID i dystysgrifau yswiriant triniaethau priodol fod ar gael yn rhwydd i'w harchwilio gan swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol neu i'w gweld gan gleientiaid ar gais.

Ymgynghori â chleient a gwirio oedran y cleient

12. Rhaid i ymgynghoriad cleient gael ei gynnal gan yr ymarferydd trwyddedig sy'n rhoi'r driniaeth cyn rhoi'r driniaeth honno neu unrhyw driniaeth arbennig arall. RHAID i hyn gynnwys cadarnhau oedran y cleient, materion yn gysylltiedig â iechyd a llesiant y cleient y bwriedir rhoi'r driniaeth arbennig iddo, ac esboniad llawn o'r driniaeth a'r risgiau cysylltiedig, gwrtharwyddion ac effeithiau cymdeithasol. Dylai'r ymarferydd fodloni ei hun bod y cleient wedi deall y cyngor a roddir yn yr ymgynghoriad cyn y driniaeth a'i fod yn gallu cydsynio'n ddeallus i dderbyn y driniaeth o roi sylw i'r cyngor hwnnw.
13. RHAID i ddeiliad y drwydded hefyd ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig, ar ffurf hawdd ei deall, i bob darpar gleient er mwyn esbonio'r canlynol:
 - Proses y driniaeth arbennig
 - Risgiau'r driniaeth
 - Gwrtharwyddion i'r driniaeth arbennig

14. RHAID i ddeiliad y drwydded sicrhau bod pob darpar gleient wedi darllen a deall yr wybodaeth uchod cyn rhoi'r driniaeth arbennig.
15. RHAID i ddeiliad y drwydded sicrhau bod holiadur cyn triniaeth a ddefnyddir yn rhan o'r ymgynghoriad â'r cleient yn cael ei lenwi ar gyfer pob cleient, a'i lofnodi gan y gweithredwr a'i gydlofnodi gan y cleient a'r rhiant/gwarcheidwad a oedd yn bresennol (os yw'n berthnasol oherwydd oedran y cleient).
16. Os yw'r ymgynghoriad â'r cleient yn cael ei gynnal gan unrhyw un heblaw'r sawl sy'n rhoi'r driniaeth arbennig, rhaid i'r ymarferydd trwyddedig sy'n rhoi'r driniaeth arbennig adolygu'r holiadur ymgynghori cyn rhoi'r driniaeth arbennig.
17. Pan fydd unrhyw wrtharwyddion yn cael eu nodi yn ystod yr ymgynghoriad, bydd yn rhaid i'r ymarferydd wneud y canlynol, cyn rhoi'r driniaeth:
 - cadarnhau a chofnodi'r cyngor a roddwyd
 - lle bo angen i'r cleient weithredu, cofnodi'r camau sydd eu hangen, a bod y camau hynny wedi'u cwblhau mewn modd sy'n dderbyniol i'r ymarferydd
 - lle bo'r ymarferydd yn gofyn i'r cleient geisio cyngor meddygol ei feddyg teulu neu gan feddyg ymgynghorol cyn rhoi'r driniaeth, mae'n rhaid i'r ymarferydd ei fodloni ei hun fod y cleient wedi ceisio'r cyngor a gweithredu yn ei sgil. Dylai'r cleient a'i riant/warcheidwad (os yw'n berthnasol) lofnodi datganiad eu bod/ei fod wedi derbyn cyngor meddygol, cadarnhau beth oedd y cyngor a chadarnhau eu bod/ei fod yn fodlon bwrw ymlaen â'r driniaeth. Dylai'r ymarferydd gydlofnodi'r datganiad hwn. Rhaid cadw copi o'r wybodaeth hon ar y cofnodion ysgrifenedig ym manylion personol y cleient
 - cofnodi'r penderfyniad ynghylch a ellir rhoi'r driniaeth.
 - lle bo'r driniaeth yn cynnwys mwy nag un sesiwn, mewn sesiynau dilynol gellir llofnodi datganiad wedi'i ddiweddarau i ddatgan na fu unrhyw newid i iechyd y cleient.
18. Yn dilyn triniaeth arbennig, mae'n RHAID i'r ymarferydd roi cyngor ôl-ofal clir a chryno i'r cleient. Mae'n rhaid rhoi'r cyngor hwnnw ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r cleient fynd â'r wybodaeth ymaith, ac mae'n rhaid iddo gynnwys manylion cyswllt yr ymarferydd. Mae'n rhaid i'r cyngor ôl-ofal fod ar ffurf hawdd ei ddeall. Mae'n rhaid i'r ymarferydd ei fodloni ei hun fod y cleient wedi deall y cyngor ôl-ofal.
19. NI CHEIR rhoi triniaeth arbennig i unigolyn sy'n feddw, neu'n ymddangos fel pe bai'n feddw, boed hynny oherwydd alcohol, cyffuriau neu ryw sylwedd arall.

Cadw cofnodion

20. RHAID cadw cofnodion cleientiaid am dair blynedd o leiaf ar ôl rhoi'r driniaeth olaf: Dylai cofnodion cleientiaid gynnwys y canlynol:
 - Enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y cleient
 - Dyddiad Geni
 - Hanes meddygol perthnasol
 - Y driniaeth a roddwyd, gan gynnwys y safle ar y corff, y math o emwaith/inc neu

- bigment a ddefnyddiwyd (os yw'n berthnasol), rhifau swp (os yw'n berthnasol)
 - Enw a rhif trwydded yr ymarferydd a roddodd y driniaeth
 - Dyddiad ac amser rhoi'r driniaeth/triniaethau
 - Manylion unrhyw broblemau a adroddwyd yn gysylltiedig â'r driniaeth
 - Crynodeb o'r cyngor a roddwyd i'r cleient yn yr ymgynghoriad cyn triniaeth a chrynodeb o'r cyfarwyddiadau ôl-ofal, ac unrhyw gyngor arall a roddwyd yn dilyn y driniaeth.
21. Mae gan ymarferydd trwyddedig yr hawl i wrthod rhoi triniaeth arbennig i gleient. Dylid cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn a'u cadw ar gofnodion y cleient.

Rheoli haint

22. Os daw'r ymarferydd trwyddedig yn ymwybodol o unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r fangre neu'r cerbyd cymeradwy, neu sy'n bresennol oddi mewn iddynt, a allai achosi niwed i iechyd dynol, RHAID iddo ddwyn y risgiau hynny i sylw deiliad y dystysgrif mangre gymeradwy.
23. Pan fo'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd neu unrhyw ran ohoni/ohono yn gallu achosi niwed i iechyd dynol, ni chaiff yr ymarferydd trwyddedig roi unrhyw driniaeth arbennig hyd nes y bo camau wedi'u cymryd i liniaru'r niwed.
24. Ni chaiff yr ymarferwyr trwyddedig ond defnyddio cyfarpar ac offer sydd wedi'u dylunio mewn ffordd a'u cynhyrchu o ddeunyddiau sy'n golygu bod modd eu glanhau, eu diheintio a, lle bo'n briodol, eu sterileiddio'n effeithiol. Rhaid iddynt weithio'n iawn a bod mewn cyflwr da fel bo modd eu glanhau, eu diheintio a, lle bo'n briodol, eu sterileiddio'n effeithiol.
25. Mae'n rhaid i gyfarpar, offer a chynnyrch:
- Gael eu storio a'u cynnal er mwyn osgoi'r risg o halogiad hyd y bo'n bosibl.
 - Gael eu glanhau, eu diheintio neu eu sterileiddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
 - Gael eu defnyddio i'r diben a fwriadwyd yn unig, ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
 - Gael eu prynu gan gyflenwyr ag enw da, fod â marciau CE/UKCA arnynt neu'r marc cyfatebol a, lle bo'n briodol, gynnwys taflenni data cynnyrch i ddangos bod y profion ansawdd priodol wedi'u cynnal.
26. Mae'n rhaid i unrhyw nodwyddau untro, offer neu ddarnau eraill o gyfarpar a gaiff eu gosod yn y croen neu sy'n dod i gysylltiad â'r croen neu'r bilen fwcaidd wrth dyllu'r croen neu'r bilen fwcaidd yn rhan o'r driniaeth arbennig fod yn ddi-haint yn union cyn eu defnyddio.
27. Mae'n rhaid i nodwyddau fod yn ddi-haint a chael eu defnyddio unwaith yn unig.
28. Ni ddylid ond defnyddio raseli diogelwch untro tafladwy.

29. Rhaid i'r ymarferydd trwyddedig beidio â rhoi triniaeth arbennig ar groen cleient os oes arwyddion o haint, brechau, briwiau, clwyfau neu anafiadau eraill.
30. Rhaid i'r ymarferydd trwyddedig beidio rhoi triniaeth arbennig i gleient os yw'n amau nad yw'r cleient yn ffit ac yn iach.

Safonau Hylendid a chymorth cyntaf

31. Rhaid i'r ymarferydd trwyddedig sicrhau:

- Bod pob triniaeth arbennig yn cael ei rhoi mewn amgylchedd cwbl breifat.
- Ei fod yn cynnal arferion hylendid dwylo digonol ac effeithiol cyn, yn ystod ac ar ôl triniaeth arbennig.
- Bod ei ddwylo'n cael eu cadw'n lân a'u golchi'n syth cyn rhoi unrhyw driniaeth arbennig.
- Ei fod yn cynnal lefel uchel o lendid personol a rhaid gwisgo dillad addas, glân a phriodol y gellir eu golchi.
- Ei fod yn gwisgo ffedog blastig dafladwy untro wrth roi'r driniaeth, y mae'n rhaid ei newid rhwng pob cleient neu ar ôl egwyl wrth roi'r driniaeth.
- Bydd yn rhaid cael gwared â dillad amddiffynnol personol tafladwy untro, gan gynnwys ffedogau a menig, ar unwaith ar ôl cwblhau'r driniaeth neu ar ôl egwyl wrth roi'r driniaeth.
- Ac eithrio wrth roi triniaeth aciwbigo, ei fod yn gwisgo menig untro finyl neu heb latecs wrth roi'r driniaeth. Bydd yn rhaid defnyddio menig newydd ar gyfer pob cleient, os ceir egwyl wrth roi'r driniaeth, neu os cyffyrddir â chyfarpar nad yw wedi'i ddiheintio.
- Ei fod yn gwirio i sicrhau bod y menig yn gyfan drwy gydol y driniaeth, ac yn eu newid ar unwaith os yw'n gweld, neu'n amau bod twll neu rwyg ynddynt.
- Nad yw'n rhoi triniaeth arbennig tra bo'n dioddef anhwylder hysbys neu os oes ganddo amheuan o hynny, neu os yw'n cario neu fod ganddo achos o glefyd sy'n debygol o gael ei drosglwyddo yn ystod triniaeth.
- Ei fod yn gosod gorchudd anathraidd dros unrhyw glwyfau agored, briwiau, cornwydydd neu anafiadau agored ar rannau o'r corff sydd heb eu gorchuddio â dillad.
- Nad yw'n smygu nac yn bwyta bwyd nac yn yfed diod yn yr ardal lle rhoddir y driniaeth arbennig.

32. Rhaid i'r ymarferydd trwyddedig sicrhau:

- Bod yr holl ffitiadau a'r cyfarpar sy'n gysylltiedig â'r weithfan lle rhoddir y driniaeth arbennig yn cael eu glanhau a'u diheintio yn syth cyn rhoi'r driniaeth arbennig i gleient.
- Bod unrhyw sofffa, bwrdd, cadair neu ddodrefnyn arall a ddefnyddir gan gleient yn ystod triniaeth wedi'i orchuddio â dalen neu liain bapur neu ddeunydd arall tafladwy a newidir ar gyfer pob cleient.
- Ei fod yn cael gwared ag unrhyw ddeunydd lapio, eitemau neu gyfarpar a ddefnyddir yn ystod y driniaeth, na ellir eu hailddefnyddio, ar unwaith mewn cynhwysydd gwastraff priodol.

- Bod cyflenwad digonol o fenig, gorchuddion a ffedogau a nodwyddau untro di-haint tafladwy
 - Bod pecyn cymorth cyntaf sy'n cynnwys stoc addas ar gael yn rhwydd sy'n bodloni anghenion y driniaeth arbennig a roddir, yn unol â chyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
 - Bod nifer digonol o gitiau hylifau'r corff.
33. Mae'n rhaid i'r ymarferydd trwyddedig:
- Gynnal asesiad o gyflwr y croen lle bwriedir rhoi'r driniaeth arbennig cyn cychwyn y driniaeth.
 - PEIDIO defnyddio unrhyw anaesthetig argroenol oni wneir hynny'n unol â'r amodau trwyddedu a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).
 - Sicrhau na ddefnyddir unrhyw gynnyrch ar ôl y dyddiad dod i ben.
 - Sicrhau bod croen y cleient yn lân cyn rhoi'r driniaeth.
 - Os yw croen y cleient yn fudr neu os amheuir ei fod yn fudr, golchwch yr ardal â sebon a dŵr cyn defnyddio hydoddiant sy'n seiliedig ar alcohol i ddiheintio (hydoddiant o 70% o alcohol mewn 0.5% clorohexidine neu weips untro sy'n cynnwys 70% o alcohol) neu ddeunydd addas amgen. Dylid defnyddio'r cynnyrch yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.
 - Gwnewch hydoddiant ffres i sychu'r man sy'n cael ei drin ar bob cleient, neu ddefnyddio weips untro.
 - Os ydych chi'n marcio'r croen cyn y driniaeth, defnyddiwch feiro untro ddyfrsail.
 - Rhaid i'r ymarferydd trwyddedig gadw at amserlen lanhau addas a digonol sydd wedi'i chofnodi.
34. Mae'n rhaid i'r ymarferydd trwyddedig gael gweithdrefn i ymdrin â sefyllfaoedd lle bydd hylif yn arllwys o'r corff, a defnyddio'r weithdrefn honno.
35. Mae'n rhaid i'r ymarferydd trwyddedig gael gweithdrefn ar gyfer ymdrin ag anafiadau nodwyddau, a defnyddio'r weithdrefn honno.
36. Rhaid i'r ymarferydd trwyddedig ddefnyddio, fel bo'n briodol, yr offer, y cyfleusterau a'r trefniadau glanhau, diheintio a sterileiddio, a ddarperir gan y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd.
37. Rhaid i'r ymarferydd trwyddedig sterileiddio unrhyw offer sy'n dod i gysylltiad â phlenni mwcaidd neu groen wedi torri yn ystod y driniaeth arbennig neu sy'n cael eu halogi gan waed.
38. Pan ddefnyddir peiriannau i sterileiddio, diheintio neu lanhau offer neu gyfarpar, rhaid cadw'n llym at gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr wrth eu defnyddio, a rhaid cadw cofnodion dogfennol ar eu cyfer i ddangos bod y profion ansawdd priodol wedi'u cynnal i ddilysu'r defnydd o'r peiriant dan sylw i'r diben y'i bwriadwyd ar ei gyfer.
39. Rhaid i'r ymarferydd trwyddedig ddefnyddio dulliau sterileiddio, diheintio neu lanhau sydd wedi'u dilysu i'r diben hwnnw yn unig.

40. Rhaid i bob ymarferydd trwyddedig roi triniaethau arbennig yn unol â'r Amodau Cymeradwyo Mandadol ar gyfer y fangre neu'r cerbyd cymeradwy lle mae ganddo drwydded i weithio.

2. Tatwio gan gynnwys microbigmentiad, microlafnu ac unrhyw driniaeth arall lle gosodir unrhyw ddeunydd lliwio er mwyn gadael marc lled-barhaol neu barhaol mewn priciau yng nghroen yr unigolyn

Gwaharddiadau ar roi triniaeth

1. Gwaherddir tatwio unrhyw un **o dan** 18 oed, oni wneir hynny am resymau meddygol gan ymarferydd meddygol â chymwysterau digonol, neu gan rywun sy'n gweithio o dan gyfarwyddyd yr ymarferydd hwnnw.
2. I'r cleientiaid hynny sy'n dymuno cael tatw ar yr wyneb, y gwddf neu'r dwylo, mae'n rhaid cynnwys y cyngor a roddir gan yr ymarferydd trwyddedig yn ymgynghoriad y cleient a chadarnhad ysgrifenedig fod y cleient wedi deall y cyngor hwnnw.
3. Gwaherddir unrhyw ymarferydd triniaethau arbennig trwyddedig sy'n rhoi tatws rhag tatwio pelen y llygad.

Mesurau rheoli haint yn gysylltiedig â'r driniaeth benodol

4. Rhaid cael taflenni data manwl i gyd-fynd â phigmentau ac inciau, gyda dyddiad terfyn a chadarnhad o'r cynhwysion a'r ffaith eu bod yn ddi-haint.
5. Rhaid i bigmentau ac inciau fod yn ddi-haint wrth eu defnyddio gyntaf. Rhaid rhoi pigmentau mewn potiau untro neu rhaid iddynt fod wedi'u pacio ymlaen llaw mewn ffiolau untro.
6. Os oes angen gwanhau pigmentau neu inciau ni cheir ond defnyddio dŵr wedi'i sterileiddio.
7. Dylid cofnodi cod lliw/swp, dyddiad danfon a dyddiad terfyn pob pigment/inc a ddefnyddir ar gleient yng nghofnodion y cleient wrth roi'r driniaeth tatwio.
8. Ni cheir ond defnyddio dŵr di-haint i rinsio offer a chyfarpar wrth roi tatw.
9. Dim ond nodwyddau a blaenau untro y ceir eu defnyddio.

3. Tyllu'r corff

Gwaharddiadau ar roi triniaethau

1. Ni chaiff ymarferydd trwyddedig drefnu i roi twll mewn rhan bersonol o gorff unigolyn, na rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff unigolyn sydd dan 18 oed. Rhannau personol y corff yw:
 - yr anws
 - y fron, (gan gynnwys y deth a'r areola)
 - y ffolen
 - rhych y pen ôl
 - y pidyn (gan gynnwys y blaengroen)
 - y perinëwm
 - y mons pubis
 - y ceillgwd
 - y tafod
 - y fwlfa.
2. Ac eithrio llabedau'r glust, cartilag y glust, y trwyn, y wefus neu'r ael, ni chaiff yr ymarferydd trwyddedig dyllu corff unrhyw un sydd dan 18 oed.
3. Caniateir i'r ymarferydd trwyddedig roi twll yn llabed y glust os yw'r person yn 16 oed neu'n hŷn, os yw'r person dan 16 oed ond bod ganddo gydsyniad ysgrifenedig gan riant/gwarcheidwad cyfreithiol a bod y person hwnnw'n bresennol yn yr ymgynghoriad â'r cleient cyn y driniaeth, a'r un person yn bresennol hefyd wrth roi'r driniaeth. Rhaid i'r sawl sy'n cael ei drin hefyd roi cydsyniad ysgrifenedig ar wahân.
4. Caniateir i'r ymarferydd trwyddedig roi twll yng nghartilag y glust, yn y trwyn, yn y wefus neu'r ael ar berson 16 oed neu'n hŷn heb gydsyniad rhiant/gwarcheidwad, neu os yw'r rhiant/gwarcheidwad yn bresennol yn yr ymgynghoriad â'r cleient cyn y driniaeth, neu wrth roi'r driniaeth.
5. Gwaherddir ymarferwyr trwyddedig rhag defnyddio cyllell llawfeddyg neu unrhyw offeryn neu declyn llafnog tebyg i greu clwyf yn ystod y driniaeth dyllu.
6. I'r cleientiaid hynny sy'n dymuno cael tyllu'r wyneb neu'r gwddf, bydd yn rhaid i'r ymgynghoriad â'r cleient gynnwys y cyngor a roddir gan yr ymarferydd trwyddedig a chadarnhad ysgrifenedig fod y cleient wedi deall y cyngor.

Mesurau rheoli haint yn gysylltiedig â'r driniaeth benodol

7. Rhaid i unrhyw emwaith neu wrthrych sy'n dod i gysylltiad â'r croen neu'r bilen fwcaidd yn ystod y broses dyllu gael eu prynu gan gyflenwyr ag enw da naill ai wedi'u sterileiddio ymlaen llaw neu wedi'u sterileiddio cyn eu defnyddio.

8. Rhaid i unrhyw nodwydd, caniwla, pwnsh biopsi, tapr, pin/rhoden gysylltu, tiwb derbyn nodwydd, blanc nodwydd neu unrhyw offer arall a ddefnyddir er mwyn tyllu'r croen neu'r bilen fwcaidd fel bo modd gosod neu fewnblannu gemwaith neu wrthrychau yn y corff, neu eu tynnu ymaith, fod yn rhai untro ac wedi'u sterileiddio ymlaen llaw.
9. Rhaid i unrhyw nodwydd, caniwla, pwnsh biopsi, tapr, pin/rhoden gysylltu, tiwb derbyn nodwydd, blanc nodwydd neu unrhyw offer arall a ddefnyddir er mwyn tyllu'r croen neu'r bilen fwcaidd fel bo modd gosod neu fewnblannu gemwaith neu wrthrychau yn y corff, neu eu tynnu ymaith, fod wedi'u prynu gan gyflenwyr ag enw da.
10. Rhaid i unrhyw emwaith neu wrthrychau fod o radd addas, ee, dur gwrthstaen llawfeddygol, aur solet 14k neu 18k, niobiwm, titaniwm, platinwm neu blastig trwchus mandylledd isel.
11. Os yw'r cleient yn cael twll yn y tafod neu'r organau cenhedlu, rhaid defnyddio pinnau felt untro i farcio'r safle a chael gwared ohonynt yn syth ar ôl eu defnyddio.
12. Er mwyn tyllu'r tafod, rhaid defnyddio clamp wedi'i sterileiddio.
13. Rhaid i unrhyw glampiau a ddefnyddir ar gyfer plygiadau'r cnawd, gefeiliau tocio, pleiars a thiwbiau derbyn neu offer arall sy'n dod i gysylltiad agos â chroen neu bilen fwcaidd wedi'i dyllu gael eu glanhau a'u sterileiddio cyn cael eu defnyddio, neu gael eu defnyddio unwaith yn unig.
14. Dim ond ar groen glân heb ei dorri y dylid defnyddio capileri fernier. Rhaid eu glanhau a'u diheintio rhwng pob defnydd. Os cânt eu defnyddio ar gyfer tyllu'r geg neu'r organau cenhedlu, rhaid eu defnyddio unwaith yn unig, neu rhaid bod modd eu sterileiddio.
15. Pan fydd cyfarpar ac offer yn dod i gysylltiad â philenni mwcaidd neu groen wedi torri, neu'n cael eu halogi gan waed a bod bwriad i'w haildefnyddio, bydd yn rhaid eu glanhau'n effeithiol cyn eu sterileiddio.

4. Tyllu'r clustiau a'r trwyn (gan ddefnyddio system cetris)

Gwaharddiadau ar roi triniaethau

1. Ac eithrio llabedau'r glust a'r trwyn, ni chaiff yr Ymarferydd Trwyddedig roi twll yng nghorff unrhyw berson dan 18 oed.
2. Caniateir i'r ymarferydd trwyddedig roi twll yn llabed y glust os:
 - Yw'r person yn 16 oed neu'n hŷn, neu
 - Yw'r person dan 16 oed, a bod cydsyniad ysgrifenedig wedi'i roi gan riant/gwarcheidwad cyfreithiol, a bod y person hwnnw'n bresennol yn yr ymgynghoriad â'r cleient cyn y driniaeth, a bod yr un person hefyd yn bresennol wrth roi'r driniaeth. Rhaid i'r sawl sy'n derbyn y driniaeth hefyd roi cydsyniad ysgrifenedig ar wahân.

3. Caniateir i'r ymarferydd trwyddedig roi twll yn nhrwyn person 16 oed neu'n hŷn heb gydsyniad rhiant/gwarcheidwad, neu heb i'r rhiant/gwarcheidwad fod yn bresennol yn yr ymgynghoriad â'r cleient cyn y driniaeth neu yn ystod y driniaeth ei hun.
4. Ar gyfer y cleientiaid hynny sy'n dymuno cael tyllu'r wyneb neu'r gwddf, rhaid i'r ymgynghoriad â'r cleient cyn y driniaeth gynnwys y cyngor a roddir gan yr ymarferydd trwyddedig a chadarnhad ysgrifenedig fod y cleient wedi deall y cyngor hwnnw.

Mesurau rheoli haint yn gysylltiedig â'r driniaeth benodol

5. Rhaid defnyddio cetris di-haint a gemwaith neu wrthrych wedi'i sterileiddio ymlaen llaw a gyflenwir mewn pecyn sy'n dangos ar ba ran o'r corff y bwriedir defnyddio'r eitem.
6. Rhaid i'r holl emwaith, y gwrthrychau neu'r offer a ddaw i gysylltiad â chroen wedi torri neu bilen fwcaidd wrth roi twll yn y corff gael eu prynu gan gyflenwyr ag enw da, gael eu defnyddio unwaith yn unig, a bod wedi'u sterileiddio ymlaen llaw.
7. Rhaid i bob gemwaith neu wrthrych fod o radd addas, ee, dur di-staen llawfeddygol, aur solet 14K neu 18K, niobiwm, titaniwm, platinwm, neu blastig trwchus mandylledd isel.
8. Os oes angen marcio croen y cleient cyn rhoi'r driniaeth, dylid defnyddio pin ysgrifennu neu declyn untro, a rhaid defnyddio inc diwenwyn i farcio safle'r twll. Dylid wedyn cael gwared â'r pin ysgrifennu neu'r teclyn ar unwaith ar ôl ei ddefnyddio.
9. Os caiff unrhyw offer nad ydynt yn i'w defnyddio unwaith yn unig eu halogi gan waed neu hylifau eraill y corff, waeth pa mor fach yw'r halogiad, rhaid eu glanhau a'u sterileiddio'n effeithiol, neu eu gwaredu.
10. Rhaid glanhau a diheintio'r offeryn tyllu y gellir ei aildefnyddio cyn ac ar ôl pob defnydd.
11. Rhaid i'r cetris sydd i'w defnyddio yn y system tyllu clustiau/trwyn fod wedi'u seilio, o fewn y dyddiad terfyn ac mewn cyflwr da cyn cael eu defnyddio. Rhaid peidio defnyddio unrhyw becynnau sydd wedi'u difrodi neu sy'n cynnwys pothelli, a rhaid eu taflu i ffwrdd.
12. Rhaid defnyddio'r offeryn tyllu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Mae hyn yn cynnwys llwytho a dadlwytho'r cetris.
13. Ni ddylid fyth ail-lwytho'r getrisen dafladwy a'i defnyddio ar gyfer amryw o dyllau, hyd yn oed ar yr un cleient.

5. Aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych)

Gwaharddiadau ar roi triniaeth

1. Ni chaiff ymarferydd trwyddedig roi triniaeth aciwbigo i bersonau dan 18 oed, oni chafwyd cydsyniad ysgrifenedig gan y rhiant/gwarcheidwad, a bod yr un person yn bresennol yn yr ymgynghoriad â'r cleient cyn y driniaeth, a hefyd yn bresennol yn ystod y driniaeth ei hun. Rhaid i'r sawl sy'n cael ei drin hefyd roi cydsyniad ysgrifenedig ar wahân.
2. Ni chaiff ymarferydd trwyddedig roi triniaeth aciwbigo ar rannau personol o gorff personau dan 18 oed (fel y diffinnir yn y rheoliadau rhoi twll mewn rhannau personol o'r corff).

Mesurau rheoli haint yn gysylltiedig â'r driniaeth benodol

3. Rhaid i ymarferydd trwyddedig olchi a sychu ei ddwylo'n drylwyr yn syth cyn rhoi triniaeth aciwbigo ar bob cleient.
4. Rhaid i ymarferydd trwyddedig wisgo menig llawfeddygol tafladwy sy'n ffitio'n dda nad ydynt wedi'u defnyddio o'r blaen gyda chleient arall:
 - os yw'r cleient yn gwaedu neu os oes ganddo friw agored ar ran agored o'i gorff, neu
 - os gwyddys bod y cleient wedi'i heintio â firws a drosglwyddir yn y gwaed; neu
 - os oes gan yr ymarferydd trwyddedig friw agored, groen wedi torri neu haint ar groen ei ddwylo; neu
 - os yw'r ymarferydd trwyddedig yn trin a thrafod eitemau a allai fod wedi'u halogi gan waed neu hylifau eraill y corff.
5. Rhaid i ymarferydd trwyddedig roi triniaeth aciwbigo mewn mangre neu gerbyd sydd â thystysgrif cymeradwyo mangre. Fodd bynnag, os na all cleient adael ei gartref, caiff yr ymarferydd trwyddedig roi triniaeth aciwbigo yng nghartref y cleient hwnnw, o fodloni'r gofynion canlynol:
 - cynnal a chofnodi archwiliad o'r ardal lle bwriedir rhoi'r driniaeth aciwbigo, gan roi sylw digonol i unrhyw risgiau a allai achosi niwed i iechyd dynol. Rhaid gwneud hyn bob tro wrth roi triniaeth aciwbigo.
 - Os canfyddir drwy'r archwiliad unrhyw risg a all achosi niwed i iechyd dynol, bydd yn rhaid i'r ymarferydd aciwbigo gymryd camau priodol i liniaru'r niwed cyn rhoi'r driniaeth aciwbigo neu osgoi rhoi'r driniaeth nes cael gwared â'r niwed.
 - rhaid cadw pob archwiliad gyda chofnodion y cleient a darparu'r rhain i swyddog yr awdurdod lleol a awdurdodir o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

6. Electrolysis

Gwaharddiadau ar roi triniaeth

1. Ni ddylai ymarferydd trwyddedig roi triniaeth electrolysis i bersonau dan 18 oed, oni chafwyd cydsyniad ysgrifenedig gan y rhiant/gwarcheidwad, a bod yr un person yn bresennol yn yr ymgynghoriad â'r cleient cyn y driniaeth, a hefyd yn bresennol yn ystod y driniaeth ei hun. Rhaid i'r sawl sy'n cael ei drin hefyd roi cydsyniad ysgrifenedig ar wahân.
2. Ni chaiff ymarferydd trwyddedig roi triniaeth electrolysis ar rannau personol o gorff personau dan 18 oed (fel y diffinnir yn y rheoliadau rhoi twll mewn rhannau personol o'r corff).

7. Ymarferwyr sy'n hyfforddi, yn goruchwyllo neu'n asesu hyfforddeion mewn lleoliadau addysgol ar gyfer cymwysterau a phrentisiaethau rheoleiddiedig

Dyletswyddau hyfforddwr/goruchwyliwr/aseswr

1. Sicrhau bod hyfforddeion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol o dan Ran 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.
2. Rhoi gwybodaeth a chynghor i hyfforddeion ynghylch sut a phryd y dylent wneud cais am drwydded.
3. Sicrhau nad yw hyfforddeion ond yn dechrau rhoi'r driniaeth arbennig ar unigolyn yn y sefydliad addysg lle maent wedi ennill trwydded triniaethau arbennig hyfforddai.

8. Ymarferwyr sy'n hyfforddi, yn goruchwyllo neu'n asesu prentisiaid neu hyfforddeion heb eu rheoleiddio mewn unrhyw fangre arall a gymeradwyr.

1. Cyfyngir ar nifer y prentisiaid a ddynodir i ymarferydd trwyddedig gan y cyfleusterau sydd ar gael yn y fangre gymeradwy, ac i gapasiti'r goruchwylydd i oruchwyllo'r prentis yn effeithiol wrth iddo roi'r driniaeth arbennig.

Dyletswyddau hyfforddwr/goruchwyliwr/aseswr

2. Cadw cofnodion diogel, manwl gywir a chyfredol ar gyfer y prentis/yr hyfforddai y mae'n gyfrifol amdano.

3. Sicrhau bod y prentis/yr hyfforddai yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau cyfreithiol o dan Ran 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.
4. Rhoi gwybodaeth a chyngor i'r prentis/hyfforddai ynghylch sut a phryd y dylai wneud cais am drwydded gyfyngedig.
5. Sicrhau nad yw'r prentis/hyfforddai ond yn rhoi'r driniaeth arbennig i unigolyn os yw wedi ennill trwydded triniaeth arbennig gyda chyfyngiadau, ac o dan oruchwyliaeth.

9. Prentisiaid a hyfforddeion

1. Ni chaiff y prentis/yr hyfforddai trwyddedig ond rhoi'r driniaeth arbennig o dan oruchwyliaeth ei diwtor/oruchwyllydd dynodedig, ac yn y fangre gymeradwy a nodir ar ei drwydded.
2. Ar ôl cymhwyso, mae'n ofynnol i'r prentis/hyfforddai trwyddedig wneud cais i'r awdurdod lleol a roddodd drwydded iddo er mwyn newid ei statws ymarferydd. Heb y diweddariad hwn ni fydd yn cael rhoi'r driniaeth arbennig yn gyfreithlon yng Nghymru.
3. Os na fydd y prentis/yr hyfforddai trwyddedig yn cymhwyso, os bydd yn tynnu'n ôl o'r brentisiaeth/cwrs hyfforddi neu'n penderfynu nad yw'n dymuno rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru mwyach, bydd yn rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol a roddodd drwydded hyfforddai iddo mewn ysgrifen, drwy ddefnyddio'r ffurflen Hysbysiad Terfynu Cymeradwyaeth yn Wirfoddol. Bydd ei drwydded wedyn yn cael ei dirymu.

CH2

Amodau mandadol ar gyfer cymeradwyo mangreoedd a cherbydau

Cyflwyniad

Mae'r amodau cymeradwyo mandadol yn berthnasol i bob tystysgrif cymeradwyo a gyflwynir ar gyfer mangreoedd neu gerbydau yng nghyswllt triniaethau arbennig, oni nodir fel arall.

Mae'r dystysgrif cymeradwyo yn ddilys am gyfnod o dair blynedd neu ddim mwy na saith niwrnod (yn achos digwyddiad dros dro) o'r dyddiad cymeradwyo.

Mae'n rhaid i'r mangreoedd neu'r cerbydau cymeradwy weithredu'n unol â'r dystysgrif cymeradwyo a roddwyd a'r amodau mandadol er mwyn cadw'r gymeradwyaeth honno.

Dylid rhoi mynediad i swyddogion yr awdurdod lleol a awdurdodir o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i'r fangre neu'r cerbyd ar bob adeg resymol a chaniatáu mynediad iddynt i bob rhan o'r fangre honno neu'r cerbyd hwnnw sy'n gysylltiedig â gwaith rhoi triniaethau arbennig.

Awdurdodir y swyddogion i gynnal arolygiad ar ran yr awdurdod lleol ac i roi hysbysiadau ysgrifenedig ynghylch materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau'r gymeradwyaeth neu faterion eraill a allai achosi niwed i iechyd dynol.

Amodau cymeradwyo mandadol

1. Rhaid i ddeiliad y dystysgrif gymeradwyo weithredu'n unol â'r dystysgrif cymeradwyo a gyhoeddwyd a'r amodau. Gall peidio cydymffurfio â'r amodau cymeradwyo mandadol arwain at ddirymu'r dystysgrif cymeradwyo ac at gamau gorfodi ffurfiol, sy'n cynnwys cyflwyno hysbysiadau a all wahardd yr ymarferydd rhag rhoi triniaeth arbennig ar unwaith, y gofyniad i weithredu camau adfer o fewn cyfnod penodedig, dirwyon ac erlyniad.
2. Rhaid i fangreoedd neu gerbydau cymeradwy gael y dystysgrif gymeradwyo neu gopi ohoni, a chopi o'r amodau cymeradwyo mandadol sy'n berthnasol i'r triniaethau arbennig a roddir, a rhaid i'r rheiny fod ar gael ar bob achlysur i'r harchwilio gan swyddogion awdurdodedig o'r awdurdod lleol, neu gan unrhyw gwsmer ar gais.
3. Dylid arddangos y dystysgrif cymeradwyo ar gyfer y fangre neu'r cerbyd wrth y fynedfa cwsmeriaid neu gerllaw. Rhaid arddangos y dystysgrif mewn man amlwg lle gall cwsmeriaid ei darllen yn rhwydd cyn iddynt fynd i fewn i'r fangre neu'r cerbyd pan fo'r busnes yn weithredol.
4. Dim ond triniaethau arbennig a nodir ar y dystysgrif cymeradwyo y ceir eu rhoi yn y fangre honno neu'r cerbyd hwnnw.
5. Nid yw'r dystysgrif cymeradwyo ond yn ddilys mewn perthynas â'r fangre neu'r cerbyd a enwir ar y dystysgrif. Ni ellir trosglwyddo'r dystysgrif i unrhyw eiddo na cherbyd

arall.

6. Dim ond ymarferwyr trwyddedig a gaiff roi triniaethau arbennig yn y fangre gymeradwy.
7. Ni cheir newid, dileu na difwyno'r dystysgrif cymeradwyo mewn unrhyw ffordd, rhaid ei chadw'n lân ac yn ddarllenadwy ac ni chaniateir ei rhoi ar fenthyg i unrhyw un nac i unrhyw un arall ei defnyddio.
8. Os bydd y dystysgrif cymeradwyo yn mynd ar goll, yn cael ei dwyn neu'n cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y dystysgrif gael un arall gan yr awdurdod dyroddi ar ôl talu'r ffi ragnodedig.
9. Ni chaiff newidiadau i'r dystysgrif cymeradwyo ond eu gwneud gan yr awdurdod dyroddi lleol ar ôl i'r awdurdod hwnnw gymeradwyo cais i amrywio. Rhaid gwneud ceisiadau am amrywiad o fewn 28 diwrnod i'r newid.
10. RHAID gwneud cais i adnewyddu'r dystysgrif cymeradwyo safle neu gerbyd i'r awdurdod dyroddi o leiaf 28 diwrnod calendr cyn dyddiad dod i ben y dystysgrif cymeradwyo gyfredol. Os bydd oedi gyda'r broses ymgeisio, bydd y dystysgrif cymeradwyo wreiddiol yn cael ei hystyried yn ddilys nes cymeradwyo'r dystysgrif newydd, ond dim ond os cyflwynir y cais o fewn y cyfnod penodedig. Bydd yn rhaid dychwelyd y dystysgrif cymeradwyo sydd wedi dod i'r ben i'r awdurdod lleol dyroddi yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir ganddo.
11. Rhaid hysbysu'r awdurdod lleol ynghylch unrhyw droseddau perthnasol a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod cymeradwyo gan y person(au) y cymeradwywyd ei gais/eu cais.
12. Rhaid i'r person(au) y cymeradwywyd ei gais/eu cais drefnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus addas i'r fangre neu'r cerbyd, gan roi ystyriaeth i'r amrywiaeth o driniaethau arbennig a gynigir dros gyfnod y gymeradwyaeth.
13. Rhaid arddangos tystiolaeth o'r dystysgrif yswiriant priodol yn y fangre neu'r cerbyd, neu rhaid i'r dystiolaeth fod ar gael yn rhwydd i'w harchwilio gan y swyddogion awdurdodedig o'r awdurdod lleol sy'n ymweld â'r fangre.

Materion sy'n ymwneud â hysbysiadau arddangos a mynediad cyfyngedig

14. Rhaid arddangos rhybudd mewn man amlwg yn ardal aros y fangre neu'r cerbyd sy'n nodi na chaiff triniaethau arbennig eu rhoi i unrhyw un sydd wedi meddwi, neu'n ymddangos fel pe bai wedi meddwi, boed hynny oherwydd alcohol, cyffuriau neu ryw sylwedd arall.
15. Ni chaniateir bwyta nac yfed yn yr ardal driniaeth a rhaid arddangos hysbysiad neu hysbysiadau sy'n darllen "Dim Bwyta nac Yfed" mewn lle amlwg yn yr ystafelloedd lle rhoddir y triniaethau arbennig.
16. Gwaherddir anifeiliaid o ystafelloedd neu ardaloedd lle rhoddir triniaethau arbennig, ac eithrio anifeiliaid cymorth.

17. Gwaherddir unrhyw un ar wahân i'r cleient, yr ymarferydd, hyfforddai neu brentis a, lle bo'n briodol, y rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol o'r ystafelloedd neu'r ardaloedd lle rhoddir triniaethau arbennig.

Dyluniad, strwythur a'r amgylchedd ffisegol

18. NI ddylai dyluniad, strwythur na chyflwr y fangre neu'r cerbyd allu achosi niwed i iechyd dynol.
19. Rhaid i'r fangre neu'r cerbyd cymeradwy fod wedi'i ddylunio ac o faint digonol i leihau hyd yr eithaf y risg o groes-heintio neu groes-halogi, a hwyluso trefniadau glanhau effeithiol a, lle bo'n briodol, diheinto.
20. Dylid lleoli a dylunio gweithfannau o fewn y fangre neu'r cerbyd cymeradwy mewn modd sy'n lleihau'r risg o groes-heintio neu groes-halogi hyd yr eithaf.
21. Lle nad oes ystafelloedd ar wahân wedi'u darparu, dylai'r sawl y cymeradwywyd ei gais sicrhau bod yr ardal aros wedi'i gwahanu'n ffisegol oddi wrth yr ardal lle rhoddir triniaethau arbennig.
22. Rhaid i'r fangre neu'r cerbyd cymeradwy gynnig mynediad rhwydd i gyfleusterau toiled digonol i'w defnyddio gan ymarferwyr, staff a chleientiaid.
23. Rhaid darparu basn golchi dwylo penodol ar gyfer y cyfleusterau toiled, gyda thapiau nad oes angen defnyddio llaw i'w hagog/cau, a rhaid cynnwys cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer neu ddŵr cymysg, sebon hylif a thyweli papur wedi'u storio mewn cynhwysydd ar y wal. Dylid arddangos cyfarwyddiadau golchi dwylo yn glir wrth bob basn. Rhaid i'r cyfarwyddiadau hyn fod ar wahân i'r cyfarwyddiadau a roddir i olchi dwylo cyn rhoi triniaeth arbennig.
24. Rhaid i'r sawl y cymeradwywyd ei gais sicrhau bod y cyfleusterau toiled yn cael eu cadw mewn cyflwr da, ac y gellir eu glanhau'n effeithiol.
25. Rhaid i'r holl ddodrefn, y gosodiadau, y ffitiadau, y cyfarpar a'r offer a ddefnyddir yn rhan o'r busnes triniaethau arbennig neu yn y rhannau o'r fangre a ddefnyddir gan gleientiaid ac ymarferwyr fod o ddeunydd a dyluniad sy'n addas i'r diben, yn hawdd eu glanhau a'u cadw mewn cyflwr da, fel bo modd eu glanhau'n effeithiol, a'u diheintio lle bo'n briodol.
26. Rhaid darparu cyfleusterau digonol ar gyfer storio a defnyddio cyfarpar, offer a chynhyrchion a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig, neu ar y cyd â thriniaethau arbennig, yn hylan, yn y fangre/cerbyd er mwyn osgoi, hyd y bo modd, y risg o halogiad.
27. Rhaid gwneud trefniadau a darparu cyfleusterau addas i storio, rheoli ac adalw cofnodion cleientiaid yn ddiogel mewn perthynas â'r triniaethau arbennig a gynigir ac a roddir iddynt.
28. Rhaid bod modd cadw waliau mewnol, drysau, ffenestri, parwydydd, lloriau, gorchuddion llawr, nenfwd neu unrhyw ran o'r strwythur yn unrhyw ran o'r fangre a

- ddefnyddir gan y cleient a'r ymarferydd mewn cyflwr da, a'u cadw mewn cyflwr da, i hwyluso gwaith glanhau effeithiol a sicrhau eu bod yn addas i'r diben,
29. Rhaid i oleuadau fod yn addas ac yn ddigonol i sicrhau bod y fangre neu'r cerbyd yn cael ei weithredu'n ddiogel, ac i hwyluso gwaith glanhau a diheintio effeithiol.
 30. Dylid darparu goleuadau lleol addas a digonol ym mhob gweithfan i sicrhau bod modd rhoi'r driniaeth arbennig mewn modd diogel a hylan.
 31. Mae'n rhaid darparu dull awyru addas a digonol ar gyfer yr holl ystafelloedd o fewn y fangre/cerbyd cymeradwy.
 32. Rhaid i'r fangre neu'r cerbyd gael ei wasanaethu gan system ddraenio sy'n addas i'r diben, ac na all achosi niwed i iechyd dynol.
 33. Rhaid darparu nifer digonol o fasnau golchi dwylo hygyrch, a rhaid iddynt fod yn gweithio'n dda, ac mewn cyflwr da, ac mewn man addas ym mhob ardal lle rhoddir triniaethau arbennig, er mwyn lleihau'r risg o groes-halogi hyd yr eithaf.
 34. Rhaid gosod tapiâu addas i'r diben ar fasnau golchi dwylo nad oes rhaid defnyddio llaw i'w hagog/cau, a rhaid i'r basnau gynnwys cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer neu gymysg, sebon hylif a thyweli papur wedi'u storio mewn cynhwysydd ar y wal yn agos at y basn golchi dwylo.
 35. Dylid arddangos cyfarwyddiadau golchi dwylo yn glir wrth bob basn.
 36. **Ni cheir ond** defnyddio basn golchi dwylo i olchi'r dwylo a'r elinau.
 37. Rhaid i'r fangre neu'r cerbyd cymeradwy gynnwys darpariaethau digonol i sicrhau hylendid personol da yr holl ymarferwyr a staff sy'n gweithio yn y fangre. Mae hyn yn cynnwys darparu pecynnau cymorth cyntaf a chyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol a basnau ymolchi wedi'u cyflenwi'n dda.

Dihalogi, glanhau, diheintio a sterileiddio

38. Rhaid cadw pob rhan o fangre neu gerbyd cymeradwy a ddefnyddir gan y cleientiaid a'r ymarferydd yn lân ac yn daclus.
39. Bydd amserlen lanhau addas a digonol ar gyfer y fangre, y gosodiadau, y ffitiadau, y dodrefn, y cyfarpar a'r offer yn weithredol yn y fangre neu'r cerbyd cymeradwy.
40. Bydd yn rhaid darparu cyfarpar, cyfleusterau a threfniadau i ddihalogi, glanhau, diheintio a, lle bo angen, sterileiddio cyfarpar ac offer gwaith, ac eitemau eraill. Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth hon fod wedi'i gwahanu'n ffisegol oddi wrth yr ardaloedd/ystafelloedd lle rhoddir triniaethau arbennig, a dylai adlewyrchu'r gwaith a gyflawnir yn y fangre neu'r cerbyd cymeradwy.
41. Rhaid cynnal a gwasanaethu'r holl gyfarpar a ddefnyddir i ddibenion glanhau, diheintio neu sterileiddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, a rhaid cadw cofnodion ar eu

cyfer i ddangos bod y profion ansawdd priodol wedi'u cynnal i ddilysu'r defnydd o'r peiriant dan sylw i'r diben a fwriadwyd ar ei gyfer.

Gwastraff gan gynnwys eitemau miniog

42. Rhaid trefnu darpariaeth ddigonol ar gyfer symud a storio gwastraff a sbwriel arall.
43. Rhaid darparu digon o finiau nad oes rhaid defnyddio llaw i'w hagor/cau yn yr ardal driniaethau, a rhaid iddynt fod o wneuthuriad priodol, mewn cyflwr da, ac yn hawdd eu glanhau a'u diheintio lle bo angen.
44. Rhaid cael gwared ag unrhyw nodwydd, rasel neu eitem finiog arall a ddefnyddir mewn triniaethau arbennig mewn cynhwysydd eitemau miniog sydd wedi'i leoli'n ddiogel ymhell oddi wrth gleientiaid a'r cyhoedd.
45. Ystyrir eitemau tafladwy, ac eithrio'r rhai uchod, sydd wedi'u halogi neu'n debygol o gael eu halogi â gwaed/hylifau'r corff neu feinweoedd yn wastraff clinigol.
46. Rhaid cael gwared â gwastraff clinigol mewn bagiau melyn, wedi'u marci'n glir fel 'gwastraff clinigol i'w losgi'.
47. Rhaid nodi'r tarddiad (enw a chyfeiriad y busnes) ar bob gwastraff clinigol (bagiau melyn a blychau eitemau miniog) cyn eu gwaredu.
48. Rhaid i wastraff clinigol gael ei gasglu gan gludwr gwastraff trwyddedig. Rhaid cadw cofnod o wastraff rheoledig a draddodir yn y fangre, ac i'r cofnod hwnnw fod ar gael i'w archwilio gan y swyddog awdurdodedig o'r awdurdod lleol.

Atodiad D– Darpariaethau Rhan 4 ac Atodlen 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

Adran 57 – Triniaethau Arbennig	Mae'r adran hon yn esbonio'r hyn y mae 'triniaeth arbennig' yn ei olygu, hy, aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio. Diffinnir pob un o'r triniaethau yn adran 94(1) o'r Ddeddf.
Adrannau 58, 59 a 61 Trwyddedau Triniaeth Arbennig	Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch trwyddedau triniaeth arbennig. Mae'r egwyddorion cyffredinol ynghylch pwy sydd angen trwydded i roi triniaeth arbennig wedi'u nodi yn adrannau 58, 59 a 61.
Adran 60 – Unigolion Esempt	Yn yr adran hon nodir bod unigolion sy'n aelodau o broffesiynau penodol (fel y'u cymhwysir yn Adran 60(2) o'r Ddeddf) yn esempt o'r gofyniad i fod yn drwyddedig onid yw'r rheoliadau'n nodi fel arall. Ar ben hynny, mae'n cynnwys darpariaeth y gall rheoliadau hefyd nodi proffesiynau cofrestredig eraill a'u haelodau a allai fod/ddylai fod yn esempt o'r gofyniad am drwydded.
Adran 62 – Meini Prawf Trwyddedu Triniaethau Arbennig	"Meini prawf trwyddedu" yw'r gofynion y mae'n rhaid i ymgeisydd eu bodloni er mwyn cael trwydded triniaethau arbennig. Mae'r adran hon yn cynnwys rhagor o fanylion ynghylch pa feini prawf trwyddedu y mae'n rhaid eu cynnwys o fewn rheoliadau.
Adran 63 – Amodau Trwyddedu Mandadol ar gyfer Triniaethau Arbennig	Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru osod amodau trwyddedu mandadol sy'n berthnasol i drwyddedau triniaeth arbennig. Mae'n rhaid cydymffurfio â'r amodau hyn er mwyn cadw trwydded triniaethau arbennig.
Adran 64 – Dyletswydd i Ymgynghori	Mae'r adran hon yn nodi'r gofyniad i Weinidogion Cymru ystyried a fydd rheoliadau ynghylch meini prawf trwyddedu ac amodau trwyddedu mandadol yn effeithio ar unrhyw bobl, ac i ymgynghori â'r bobl hynny cyn gwneud unrhyw reoliadau. Cyhoeddir y ddogfen ymgynghori hon felly er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn, a gofynnir am ymatebion yn arbennig gan awdurdodau lleol, ymarferwyr, cyrff cynrychioliadol ac aelodau o'r cyhoedd.
Adrannau 65-68	Mae'r adrannau hyn yn nodi'r pethau y mae'n

<p>– Penderfynu ynghylch Ceisiadau</p>	<p>rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth benderfynu ynghylch ceisiadau am drwyddedau neu geisiadau adnewyddu, ac o dan ba delerau y dylent ganiatáu neu wrthod y ceisiadau hynny. Mae adran 66 yn caniatáu i'r awdurdod lleol arfer ei ddoethineb ei hun wrth benderfynu a ddylid rhoi trwydded i ymgeisydd sydd wedi'i gael yn euog o drosedd berthnasol ai peidio. O dan adran 66(10), gellir gwneud rheoliadau i ychwanegu, amrywio neu ddileu disgrifiad o drosedd berthnasol. Mae Adran 66(11) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch materion i'w hystyried wrth benderfynu ynghylch addasrwydd ymgeisydd i ymarfer. Mae Adran 68 yn ymdrin yn benodol â dirymiadau ac yn nodi'r telerau lle caiff awdurdod lleol ddirymu trwydded.</p>
<p>Adrannau 69 a 70 - Cymeradwyo Mangreoedd a Cherbydau - Meini Prawf ac Amodau Cymwys</p>	<p>O dan adran 69, rhaid i berson sy'n rhedeg busnes lle rhoddir triniaeth arbennig gydymffurfio â dau ofyniad: bod y fangre/cerbyd wedi'i ch/gymeradwyo gan yr awdurdod lleol (o dan adran 70) a'i b/fod yn cydymffurfio â'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys. Bydd y gofynion cymeradwyo hyn yn berthnasol yn achos arddangosfa, adloniant neu ddirymwyddiad a threfnydd y rheiny sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff mangreoedd eu cymeradwyo ac y cydymffurfir ag amodau. Mae adran 69(8) o'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud rhai mangreoedd neu gerbydau yn esempt o'r gofynion cymeradwyo.</p> <p>Mae adran 70 yn caniatáu i awdurdod lleol roi tystysgrif gymeradwyo i gymeradwyo mangre/cerbyd fel bo modd rhoi triniaeth arbennig (neu sawl triniaeth arbennig) yno. Mae adran 70 esbonio'r pwerau amrywiol i wneud rheoliadau yn gysylltiedig â chymeradwyaethau, gan gynnwys meini prawf cymwys y mae'n rhaid i gais eu bodloni, yr amgylchiadau lle gellir rhoi neu wrthod cymeradwyaeth, yr amodau cymeradwyo mandadol y dylid cydymffurfio â hwy, adnewyddu cymeradwyaeth, amrywio cymeradwyaeth ac ati.</p>
<p>Adran 71 - Tystysgrifau Cymeradwyo Mangre/Cerbyd</p>	<p>Yn esbonio'r union wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ar dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd. Bydd tystysgrif gymeradwyo yn para am hyd at saith niwrnod neu dair blynedd. Mae adran 71(4) yn caniatáu i reoliadau wneud</p>

	darpariaeth bellach, os oes angen, ynghylch ffurf a chynnwys tystysgrifau cymeradwyo.
Adran 72 - Terfynu Cymeradwyaeth Mangre/Cerbyd yn Wirfoddol	Yn trafod sut y gall rhywun roi hysbysiad i awdurdod lleol a therfynu tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd. Fodd bynnag, mae Adran 72(5) yn caniatáu gwneud rheoliadau i gynnwys darpariaeth bellach ynghylch hysbysiadau terfynu gwirfoddol a'r wybodaeth sydd i'w chynnwys.
Adrannau 73 a 74 - Dirymu Cymeradwyaeth Mangre/Cerbyd	Mae'r rhain yn esbonio'r amgylchiadau lle caiff awdurdod lleol ddirymu tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd a'r rhybudd y mae'n rhaid iddo ei roi.
Adran 75 – Dyletswydd i gadw cofrestr o drwyddedau triniaeth arbennig a mangreodd a cherbydau cymeradwy.	Mae hyn yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i gadw cofrestr gyhoeddus o'r holl drwyddedau triniaeth arbennig dilys a'r tystysgrifau cymeradwyo mangre/cerbyd y maent wedi'u rhoi. Yn yr adran hon nodir yr wybodaeth sylfaenol y mae'n rhaid ei darparu ar y gofrestr. Ceir darpariaeth yn yr adran hon i Weinidogion Cymru drefnu i sefydlu cofrestr ganolog, i'w rheoli gan un awdurdod lleol, ac i'w gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gymryd rhan yn y gofrestr ganolog hon a chyfrannu at y gost o'i chynnal, ac i rannu gwybodaeth fel bo modd gweithredu'r gofrestr.
Adran 70, Adran 76 ac Atodlen 3 – Ffioedd Trwyddedau Triniaeth Arbennig a Ffioedd Cymeradwyo Mangre/Cerbyd	Mae adran 70, adran 76 ac Atodlen 3 i'r Ddeddf yn esbonio pryd y caiff ALI godi ffi ymgeisio, yn ogystal â'r gallu i godi ffi gan ddeiliad trwydded triniaethau arbennig neu dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd.
Adrannau 77-81 – Hysbysiadau Atal a Hysbysiadau Camau Adfer	Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol gyflwyno hysbysiadau atal os oes rhywun yn rhoi triniaethau arbennig heb drwydded, neu mewn mangre sydd heb dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd, ac i gyflwyno hysbysiadau camau adfer yn erbyn deiliaid trwydded neu ddeiliaid tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd os torwyd amodau trwyddedu. Mae'r adrannau hyn yn esbonio pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr hysbysiadau. Mae adran 80 yn esbonio sut y dylid cyflwyno hysbysiadau cwblhau i ddangos cydymffurfiaeth â hysbysiadau camau adfer, ac mae adran 81 yn esbonio'r hawl i apelio yn erbyn hysbysiadau atal a

	hysbysiadau camau adfer, a gweithdrefn y llysoedd wedi hynny.
Adran 82 ac 89 – Troseddau	Mae adran 82 yn nodi'r troseddau sy'n gymwys i Ran 4 o'r Ddeddf. Mae'r troseddau yn cynnwys gweithredu heb drwydded/tystysgrif cymeradwyo, torri amodau trwyddedu, peidio cydymffurfio â chamau gorfodi, gwneud datganiad anwir neu gamarweiniol wrth wneud cais am drwydded neu i gymeradwyo mangre/cerbyd. Mae trosedd ychwanegol wedi'i nodi yn adran 89 (rhwystro swyddog awdurdodedig).
Adrannau 83-92 Pwerau gorfodi	Mae adrannau 83-92 yn esbonio'r pwerau arolygu a gorfodi, lle caiff swyddogion awdurdodedig archwilio eiddo, mynd i mewn i eiddo o dan warant, casglu tystiolaeth a chynnal ymchwiliadau, a hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer apelio yn erbyn cadw eiddo ac iawndal.
Adran 94 – Dehongli a diffinio Tyllu'r Corff	Mae adran 94 yn esbonio ystyr termau allweddol a ddefnyddir yn Rhan 4 y Ddeddf. Gellir gwneud rheoliadau i ddiffinio ystyr 'tyllu'r corff' ymhellach. Mae'n ofynnol gwneud defnydd llawn o'r ddarpariaeth yn 94(1)(b) i lunio rheoliadau sy'n cynnwys disgrifiad a chyfarwyddeb ynghylch y "gwrthrychau" hynny a ddefnyddir wrth dyllu rhannau amhersonol o'r corff.
Atodlen 3 – darpariaeth bellach ynghylch trwyddedau triniaeth arbennig	Mae paragraffau 1-4 yn esbonio'r broses y mae'n rhaid i'r sawl sy'n ymgeisio am drwydded triniaethau arbennig ei dilyn, a'r wybodaeth y mae'n rhaid iddo ei darparu i'r awdurdod lleol er mwyn cael trwydded. O dan baragraff 4, caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch materion amrywiol. Mae paragraff 5 yn pennu'r hyn y dylid ei gynnwys ar drwydded triniaethau arbennig. Gellir gwneud darpariaeth bellach ynghylch ffurf a chynnwys trwydded triniaethau arbennig mewn rheoliadau. Mae paragraffau 6 a 7 yn trafod copiâu o drwyddedau a pharagraff 8 yn esbonio'r amgylchiadau lle bydd trwydded yn dod i ben. Mae paragraffau 9 a 10 yn ymwneud ag adnewyddu trwydded. Mae paragraffau 11-13 yn ymdrin ag amrywio trwydded. Mae paragraff 14 yn esbonio'r broses os yw deiliad trwydded yn dymuno terfynu ei drwydded.

	<p>Mae paragraffau 15-17 yn esbonio'r broses y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei dilyn yn gysylltiedig â materion neilltuol (er enghraifft, gwrthod cais), a hawl unigolyn i fynegi sylwadau. Mae paragraffau 18-20 yn esbonio'r amgylchiadau lle caiff ymgeisydd apelio, a'r broses apelio berthnasol i'w dilyn. Mae paragraff 21 yn dirprwyo swyddogaethau penodol i bwyllgor (neu is-bwyllgor) trwyddedu'r awdurdod lleol, a gellir gwneud rheoliadau ynghylch y gweithdrefnau a fydd yn berthnasol wrth arfer ei swyddogaethau dirprwyedig.</p>
--	---